Adroddiad corfforaethol

awdurdod safonau proffesiynol

ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

2024/2025

HC 999

SG/2025/110

Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol
ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024/25

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Atodlen 7, Paragraff 16 (2) y Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Senedd yr Alban gan weinidogion yr Alban dan y Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon yn unol â'r Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol â'r Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gorchymynnwyd i'w argraffu gan Dŷ'r Cyffredin 10 Gorffennaf 2025.

HC 999

SG/2025/110

© Hawlfraint Awdurdod Safonau Proffesiynol 2025

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i

nationalarchives.gov.uk/doc/opengovernment-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar www.professionalstandards.org.uk. Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn info@professionalstandards.org.uk

ISBN 978-1-5286-5805-8

E03381707 07/25

Wedi'i argraffu ar bapur yn cynnwys lleiafswm cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu o 40%
Argraffwyd yn y DU gan HH Global ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | **Rhagair** | **5** |
| 1 | **Adroddiad perfformiad** | **7** |
| | Trosolwg perfformiad | **7** |
| | Dadansoddiad o berfformiad | **8** |
| 2 | **Dangosyddion perfformiad allweddol** | **16** |
| 3 | **Gwaith Rheoleiddio ac Achredu** | **19** |
| 4 | **Adroddiad atebolrwydd** | **46** |
| | **Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol** | **46** |
| | Adroddiad y Cyfarwyddwyr | **46** |
| | Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | **49** |
| | Datganiad llywodraethu | **50** |
| | **Adroddiad cydnabyddiaeth a staff** | **59** |
| | **Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol** | **67** |
| 5 | **Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r Tŷ Cyffredin, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon a Senedd Cymru** | **70** |
| 6 | **Datganiadau ariannol – datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025** | **77** |
| 7 | **Datganiadau ariannol – datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2025** | **78** |
| 8 | **Datganiadau ariannol – datganiad o lif arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025** | **79** |
| 9 | **Datganiadau ariannol – datganiad o newidiadau yn ecwiti'r trethdalwr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025** | **80** |
| 10 | **Nodiadau ar y cyfrifon** | **81** |

# Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Rydym yn falch i gyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn ar gyfer 2024/25. Eleni rydym wedi parhau ein gwaith i ddiogelu cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd trwy wella'r broses o reoleiddio a chofrestru gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Rydym yn cefnogi safonau uchel mewn rheoleiddio a chofrestru trwy ein hadolygiadau perfformiad, asesiadau o achosion addasrwydd i ymarfer (adran 29), y rhaglen Cofrestrau Achrededig, a swyddogaethau polisi a chyfathrebu. Rydym wedi cynnal ein hymrwymiad i gefnogi diwygio rheoleiddio proffesiynol ac i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI).

Rydym yn goruchwylio gwaith 10 corff statudol sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Wrth gyflawni ein rôl drosolwg, rydym yn ymdrechu i sicrhau cydbwysedd rhwng craffu ar un llaw, a chyngor a chanllaw ar y llaw arall. Yn ystod 2024/25 fe wnaethom asesu'r holl reolyddion yn erbyn ein safon EDI newydd. Rydym wedi cynyddu ein disgwyliadau o'r hyn y dylai rheolyddion fod yn ei wneud i hyrwyddo EDI ac roeddem yn falch o weld rhai gwelliannau sylweddol mewn perfformiad ac enghreifftiau o arfer da. Tua diwedd 2024/25 fe wnaethom lansio ymgynghoriad ar newidiadau i'n holl safonau ar gyfer rheolyddion a Chofrestrau Achrededig, ac rydym yn disgwyl gweithredu newidiadau yn y safonau hyn o ddechrau 2026/27.

Yn ein hadolygiadau o berfformiad rheolyddion yn ystod y flwyddyn, rydym wedi canfod eu bod yn gyffredinol wedi perfformio'n dda yn erbyn y safonau a osodom. Ar draws y rheolyddion, bodlonwyd cyfartaledd o 92% o'r safonau a bodlonodd tri o'r rheolyddion yr holl safonau. Roedd Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon (PSNI) yn bryder arbennig, gan fodloni dim ond 11 o'r 18 safon. Nodwyd rhai gwelliannau mewn perfformiad ar ddiwedd ei flwyddyn adolygu perfformiad a byddwn yn monitro'r sefyllfa hon yn agos iawn yn 2025/26. Roedd saith o'r rheolyddion heb fodloni Safon 15 o'r Safonau Rheoleiddio Da. Mae hon yn safon addasrwydd i ymarfer a'r prif reswm dros beidio â'i chyrraedd yw ei bod yn cymryd gormod o amser i gwblhau achosion. Nid yw hyn yn dda i reolyddion, unigolion cofrestredig a chleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Ym mis Gorffennaf 2024, cyhoeddodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) adolygiad annibynnol o ddiwylliant y sefydliad, a amlygodd nifer o faterion difrifol. Disgwylir i ddau adolygiad annibynnol pellach o'r NMC gael eu cyhoeddi yn haf 2025. Sefydlodd yr Awdurdod grŵp goruchwylio annibynnol i fonitro'r gwelliannau sydd eu hangen yn yr NMC ac ymestyn y flwyddyn adolygu perfformiad chwe mis, a disgwylir i adroddiad 2023/24 ar gyfer yr NMC gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2025.

Wrth adolygu penderfyniadau'r rheolyddion ynghylch a yw unigolion ar eu cofrestrau yn addas i ymarfer, rydym yn canfod bod y mwyafrif o achosion wedi eu rheoli i safon uchel, gyda chasgliadau a chosbau sy'n diogelu'r cyhoedd yn briodol. Fodd bynnag, mae pob penderfyniad yn bwysig ac mae lle i wella ymhellach. Yn ystod 2024/25, cwblhawyd 29 apêl dan ein grymoedd adran 29. Cafodd y cyfan ond un o'r apeliadau hyn eu cynnal neu setlo. Gwrthodwyd un apêl – er bod un o'n seiliau apêl wedi'i chadarnhau, yn gyffredinol, nid oedd y barnwr yn cytuno bod y sancsiwn yn annigonol i amddiffyn y cyhoedd. Yn ystod 2024/25 fe wnaethom hefyd rannu pwyntiau dysgu gyda'r rheolyddion o'n hadolygiadau i gefnogi gwelliannau i'w prosesau.

Mae gan y rhaglen Cofrestrau Achrededig ran bwysig i chwarae nawr ac yn y dyfodol, yn darparu sicrwydd i'r cyhoedd parthed rolau iechyd a gofal cymdeithasol nad ydynt wedi eu rheoleiddio. Mae'r rhaglen nawr yn cwmpasu oddeutu 130,000 o ymarferwyr ar draws 29 o gofrestrau. Cyflwynwyd safon EDI ar gyfer y cofrestrau yn 2024/25. Yn 2025/26 byddwn yn adolygu sefyllfa gwiriadau diogelu yng ngoleuni adolygiad y llywodraeth o'r drefn datgelu a gwahardd.

Ym mis Hydref 2024, cynhaliom gynhadledd lwyddiannus ar ddysgu o ymchwil ym maes rheoleiddio. Gwnaethom hefyd ddechrau adolygiad o'n fframwaith sy'n seiliedig ar egwyddorion Rheoleiddio Cyffyrddiad Cywir, y disgwylir i'r fersiwn newydd ohono gael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2025. Yn ystod 2024/25 fe wnaethom hefyd gynnal sawl symposia ar gamymddwyn rhywiol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, cwblhau darn o waith a gomisiynwyd ar gyfer Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban (GTCS) a diweddaru ein gwefan.  Rydym yn parhau i bryderu am y niwed a achosir i bobl sy'n cael ymyriadau cosmetig anfeddygol yn y Deyrnas Unedig ac rydym wedi annog llywodraethau'r DU i gyflwyno newidiadau mewn rheoleiddio a chofrestru i liniaru'r risgiau o niwed yn y triniaethau hyn.

Rydym wedi cael sawl newid i'n Bwrdd yn 2024/25. Cwblhaodd tri aelod a fu'n gwasanaethu am gyfnod hir eu hail dymor a'r tymor olaf a phenodwyd tri aelod newydd yn ystod y flwyddyn. Fe wnaethom hefyd benodi aelod Bwrdd Cyswllt newydd ym mis Mai 2024. Mae ein cylch gwaith yn cwmpasu pedair gwlad y DU. Fel rhan o'n hymrwymiad i weithio'n effeithiol gyda'r llywodraethau priodol, ac i ddarparu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, rydym yn cynnal cyfarfodydd Bwrdd a seminarau ar draws pedair gwlad y DU ar sail cylchdro. Cynhaliom ddigwyddiadau rhanddeiliaid yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ystod 2024/25 a chynhaliom seminar ar y cyd â Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025 hefyd. Cynhaliwyd ein cyfarfod Bwrdd ym mis Gorffennaf 2024 yng Nghymru.

I gloi, mae wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus a chynhyrchiol i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol. Wrth i ni edrych ymlaen tuag at 2025/26 a thu hwnt, rydym yn parhau i fod mor ymroddedig ag erioed i wella rheoleiddio a chofrestru er mwyn diogelu'r cyhoedd.

**Caroline Corby (Cadeirydd)**
**Alan Clamp (Prif Weithredwr)**

# 1. Adroddiad perffirmiad

## Trosolwg perfformiad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno gwaith yr Awdurdod Safonau Proffesiynol dros y flwyddyn ddiwethaf.

### Ynglŷn â'r Awdurdod Safonau Proffesiynol

1.2 Sefydlwyd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yr Awdurdod) ar 1 Rhagfyr 2012. Cyflwynir ei rôl a dyletswyddau yn y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012[1]. Yn gryno, mae'r Awdurdod yn diogelu'r cyhoedd trwy godi safonau rheoleiddio a chofrestru pobl yn gweithio mewn iechyd a gofal.

1.3 Mae gan yr Awdurdod fwrdd sy'n cynnwys saith aelod anweithredol ac un aelod gweithredol a benodir gan y Bwrdd.

1.4 Penodir yr aelodau anweithredol gan y Cyfrin Gyngor, gweinidogion Cymru a'r Alban, a'r Adran Iechyd yng Ngogledd Iwerddon.

1.5 Mae'r Awdurdod wedi ei ariannu'n bennaf gan ffioedd a delir gan y rheolyddion a oruchwylir gennym. Dan y Deddfau Seneddol sy'n llywodraethu'r hyn a wnawn, mae gennym rymoedd i gyflawni detholiad o weithgareddau i hyrwyddo iechyd a lles cleifion, a'r cyhoedd yn gyffredinol parthed rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

1.6 Mae gennym ddyletswyddau a grymoedd parthed:

- Trosolwg o'r 10 corff statudol sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig
- Achredu'r cofrestrau a gedwir gan gyrff cofrestru anstatudol gweithwyr iechyd a gofal
- Darparu comisiynau i, a chyflawni ymchwiliadau ar gyfer, llywodraeth.

1.7 Rydym yn adrodd i Senedd y Deyrnas Unedig ac yn cydweithio'n agos â'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) a'r Adran Addysg yn Lloegr, i gyflenwi'n hoblygiadau statudol ac amcanion allweddol ein cynllun busnes. Mae hyn yn cynnwys nodi ac ymateb yn briodol i risgiau mewnol ac allanol.

1.8 Mae'r Awdurdod yn endid a ddosberthir i lywodraeth ganolog ac yn rhan o ffin gyfrifo'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Felly, mae ein cyfrifon yn cael eu cyfuno i gyfrifon DHSC.

[1] Ar gael ar www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/7/contents/enacted

## Dadansoddiad o berfformiad

### Beth rydym yn ei wneud

*Gwaith rheoleiddio a gosod safonau*

1.9 Mae gennym rymoedd i:

- Ymchwilio, cymharu ac adrodd ar berfformiad pob rheoleiddiwr. Gofynnir yn benodol i ni adrodd i'r Senedd ar i ba raddau mae pob rheoleiddiwr wedi cydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd a osodwyd arno i hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd yn gyffredinol
- Archwilio camau cyntaf achosion addasrwydd i ymarfer ac adrodd ar ein casgliadau parthed pob rheoleiddiwr
- Adolygu canlyniadau achosion addasrwydd i ymarfer terfynol a'u cyfeirio at lys os ystyriwn fod y canlyniad yn annigonol ac nad yw'n diogelu'r cyhoedd
- Rhoi cyfarwyddiadau yn gofyn i reoleiddiwr sefydlu rheolau dan unrhyw rymoedd sydd gan y corff i wneud hynny
- Hyrwyddo iechyd a lles cleifion a'r cyhoedd yn gyffredinol wrth reoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol. I gyflawni hyn, rydym yn gwrando ar farn a phryderon pobl a'u hystyried wrth ddatblygu'n gwaith
- Cynorthwyo'r Cyfrin Gyngor i arfer ei bwerau penodi mewn perthynas â'r rheolyddion a chefnogi ansawdd prosesau penodi i gynghorau rheolyddion.[2] Mewn ymgynghoriad â'r rheolyddion, rydym wedi cynhyrchu safonau ar gyfer y Cyfrin Gyngor yn ymwneud â recriwtio a phenodiadau i gynghorau'r rheolyddion
- Craffu a goruchwylio gwaith y 10 rheoleiddiwr rheoleiddio sy'n gosod safonau ar gyfer hyfforddiant ac ymddygiad gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol
- Hyrwyddo arfer da a rheoleiddio cyffyrddiad cywir. Rydym yn gweithio gyda'r rheolyddion i wella ansawdd a rhannu arfer da. Er enghraifft, rydym yn rhannu pwyntiau dysgu sy'n codi o archwilio achosion addasrwydd i ymarfer ac yn trefnu seminarau i archwilio materion rheoleiddio
- Rhannu arfer da a gwybodaeth gyda'r rheolyddion, yn cyflawni ymchwil a chyflwyno syniadau newydd am reoleiddio i'r sector. Rydym yn gweithio'n agos gydag, ac yn cynghori, pedair adran iechyd llywodraethau'r Deyrnas Unedig a'r Adran Addysg yn Lloegr (o ran Social Work England) ar faterion yn ymwneud â rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal.

1.10 Y rheolyddion yw:

- Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol (GCC) sy'n rheoleiddio ceiropractyddion yn y Deyrnas Unedig


2 Nid yw hyn yn berthnasol i SWE neu PSNI

- Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) sy’n rheoleiddio deintyddion, nyrsys deintyddol, technegwyr deintyddol, hylenyddion deintyddol, therapyddion deintyddol, technegwyr deintyddol clinigol a therapyddion orthodonteg yn y Deyrnas Unedig
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) sy’n rheoleiddio meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia yn y Deyrnas Unedig
- Y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) sy’n rheoleiddio optometryddion, optegwyr cymwysedig, optegwyr sy’n fyfyrwyr a busnesau optegol yn y Deyrnas Unedig
- Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC) sy’n rheoleiddio meddygon esgyrn yn y Deyrnas Unedig
- Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC) sy’n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol ac eiddo fferyllol yng Nghymru, Lloegr a’r Alban
- Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a gofal (HCPC) sy’n rheoleiddio therapyddion celf, gwyddonwyr biofeddygol, ciropodyddion/podiatryddion, gwyddonwyr clinigol, dietegwyr, cyflenwyr teclynnau clyw, therapyddion galwedigaethol, ymarferwyr adrannau llawdriniaeth, orthoptwyr, parafeddygon, ffisiotherapyddion, ymarferwyr seicolegol, prosthetyddion ac orthotyddion, radiograffwyr, a therapyddion lleferydd a llais yn y Deyrnas Unedig
- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) sy’n rheoleiddio nyrsys a bydwragedd yn y Deyrnas Unedig a chymdeithion nyrsio yn Lloegr
- Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon (PSNI) sy’n rheiddio fferyllwyr ac eiddo fferyllol yng Ngogledd Iwerddon
- Social Work England (SWE) sy'n rheoleiddio gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr.

1.11 Ceir manylion y nifer sydd wedi cofrestru ym mhob rheoleiddiwr gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a oruchwylir gennym (fel yr oedd ar 31 Mawrth 2025) isod.

**Tabl 1 Nifer o bersonau cofrestredig fesul rheoleiddiwr gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol**

(Nid yw'n cynnwys safleoedd (GPhC a PSNI) a chyrff corfforaethol (GOC))



### *Cofrestrau Achredededig*

1.12 Mae gennym rôl statudol o ran atgyfnerthu ansawdd a diogelwch cleifion trwy osod safonau ac achredu cofrestrau pobl sy'n gweithio mewn galwedigaethau nad ydynt wedi eu rheoleiddio gan gyfraith. O 31 Mawrth 2025, roedd yna 29 o Gofrestrau Achredededig.

1.13 Diben yr achrediad yw gwella ansawdd cofrestriad a gyflawnir gan y sefydliadau sy'n meddu ar y cofrestrau hyn ac i hyrwyddo safonau ymddygiad da, cymhwyster technegol a, ble fo'n berthnasol, ymarfer busnes gan eu personau cofrestredig. Ei fwriad yw hybu amddiffyn y cyhoedd ac i gefnogi dewis gan y cyhoedd wrth geisio gwasanaethau gan ymarferwyr mewn galwedigaethau nad ydynt wedi eu rheoleiddio gan gyfraith. Mae'n fodd cymesur o reoli risgiau.

### *Comisiynau gan Lywodraeth(au)*

1.14 Rydym yn cefnogi gwaith yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, Senedd Cymru, gweinidogion yr Alban a'r Adran Iechyd yng Ngogledd Iwerddon trwy ddarparu cyngor ynghylch rheoleiddio a safonau gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym hefyd yn darparu cyngor ar faterion eraill pan ofynnir i ni wneud hynny.

1.15 Gall yr Ysgrifenyddion Gwladol a Gweinidogion Iechyd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ofyn i ni ymchwilio materion sy'n achosi pryder hefyd. Fel y sefydlwyd yn y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r gweinyddiaethau datganoledig yn talu ffi, i'w bennu gan yr Awdurdod, ar gyfer y gwaith hwn.

1.16 Rydym yn ymgynghori â llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar ddatblygu canllawiau ar gyfer y sector, ac yn ymateb i'w hymgynghoriadau. Yn ogystal, byddwn yn cadw golwg ar ddatblygiadau rhyngwladol a allai effeithio ar reoleiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Deyrnas Unedig a rhyngwladol, gan sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r datblygiadau hyn a'n bod yn cryfhau ein cysylltiadau â'r partneriaid hyn.

### *Cyngor i sefydliadau eraill*

1.17 Mae ein deddfwriaeth yn ein caniatáu i ddarparu cyngor neu wasanaethau archwilio i reolyddion ac i eraill sydd â swyddogaethau tebyg i rai rheoleiddiwr, p'un a fydd y swyddogaethau hyn yn berthnasol i iechyd neu ofal cymdeithasol. Telir am y gwaith hwn gan y sefydliad sy'n gofyn am y cyngor.

1.18 Yn 2024/25 cawsom gomisiwn am gyngor gan GTCS, y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer athrawon yn yr Alban, a ofynnodd inni roi cyngor iddynt ar eu proses Addasrwydd i Addysgu (ymddygiad). Cytunwyd ar dri maes i edrych arnynt: adolygiad perfformiad gan ddefnyddio Safonau Rheoleiddio Da wedi'u haddasu; adolygiad o'r ddeddfwriaeth, y Rheolau a dogfennau allweddol eraill sy'n llywodraethu'r broses; ac adolygiad o effeithlonrwydd. Ar ôl sefydlu bod gennym y gallu i wneud y gwaith a chytuno ar y contract, cafodd ei ddatblygu fel prosiect a'i gwblhau ddiwedd mis Mawrth 2025. Roedd ein hadroddiad i GTCS yn eu gwahodd i ystyried ystod o gamau gwella posibl. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mai 2025.

### Ein gwerthoedd

1.19 Mae ein gwerthoedd yn disgrifio sut fyddwn ni'n gweithio gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid allanol. Rydym yn ymgeisio i hyrwyddo, datblygu ac arddangos y gwerthoedd hyn ym mhopeth a wnawn. Mae diwylliant positif yn arwain at well perfformiad a gwell deilliannau i gleifion a’r cyhoedd.

1.20 Ein gwerthoedd yw:

- Cywirdeb – byddwn yn agored, onest ac yn ymddiried yn ein gilydd
- Tryloywder – byddwn yn glir ynghylch ein perfformiad a’r rhesymau dros ein penderfyniadau gyda phob rhanddeiliad
- Parch – byddwn yn trin ein gilydd, a’r rhai rydym yn gweithio gyda nhw tu allan i'r sefydliad, gyda pharch ar bob adeg
- Tegwch – byddwn yn ymdrechu i fod yn deg ym mhob agwedd o wneud penderfyniadau
- Gwaith tîm – byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwell deilliannau i gleifion a’r cyhoedd.

1.21 Mae ein gwerthoedd yn eglur yn sut ydym yn gweithio, ein hymagwedd tuag at ein goruchwyliaeth o gofrestru a rheoleiddio'r sawl sy’n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol, sut ydym yn datblygu cyngor polisi a sut ydym yn ymgysylltu â’n partneriaid i gyd. Rydym yn ceisio bod yn gyson o ran sut ydym yn gweithredu ein gwerthoedd.

1.22 Rydym yn annibynnol ond yn dal ein hunain yn atebol i’r cyhoedd ac i seneddau a chynulliad y Deyrnas Unedig ar gyfer yr hyn a wnawn a sut ydym yn ei wneud.

1.23 Rydym yn gwrando ar farn y bobl sy’n derbyn gofal. Rydym yn ceisio sicrhau yr ystyrir eu barn yng nghofrestriad a rheoleiddiad pobl sy’n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

1.24 Rydym yn datblygu a hyrwyddo rheoleiddiad cyffyrddiad cywir. Mae hyn yn rheoleiddio sy'n gymesur i'r risg o niwed i'r cyhoedd ac sy'n darparu fframwaith fydd yn caniatáu i broffesiynoldeb ffynnu a ble gellir cyflawni rhagoriaeth sefydliadol. Rydym yn gweithredu egwyddorion rheoleiddio cyffyrddiad cywir yn ein gwaith ein hunain.

### Ein diben

1.25 Rydym yn gweithio i amddiffyn y cyhoedd, gosod safonau ac annog gwelliant yng nghofrestriad a rheoleiddiad pobl sy’n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae diogelwch y cyhoedd yn ganolog i bopeth a wnawn.

### Nodau strategol ar gyfer 2023-26

1.26 Cyhoeddwyd ein Cynllun Strategol 2023-26 ym mis Mai 2023. Mae ein nodau strategol wedi'u nodi isod.

#### *Nod strategol 1*

1.27 Diogelu'r cyhoedd trwy ddarparu trosolwg effeithiol iawn o reoleiddio a chofrestru.

- Cyflawni ein dyletswyddau statudol, targedu ein hadnoddau ble mae'r risg mwyaf i'r cyhoedd
- Cefnogi safonau uchel mewn rheoleiddio a chofrestru iechyd a gofal cymdeithasol trwy ein hadolygiad perfformiad, adran 29, Cofrestrau Achrededig, swyddogaethau polisi a chyfathrebu
- Adolygu a gwella ein prosesau (gan gynnwys newidiadau deddfwriaethol ble fo angen) i sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn effeithlon.

1.28 Yn ystod 2024/25 rydym wedi:

- Darparu adolygiadau perfformiad cadarn a theg o'r rheolyddion statudol; defnyddio ein pwerau adran 29 i adolygu canlyniadau paneli addasrwydd i ymarfer; rheoli'r rhaglen Cofrestrau Achrededig; ac adrodd ein casgliadau i'r Senedd
- Chwilio am ffyrdd o gynyddu ymwybyddiaeth a defnydd o Gofrestrau Achrededig gan gyflogwyr, cleifion a defnyddwyr gwasanaeth
- Darparu adborth ar ddeddfwriaeth diwygio a chynlluniau ar gyfer gweithredu diwygiadau i sicrhau bod newidiadau yn canolbwyntio ar ddiogelu'r cyhoedd
- Dechreuwyd ein hadolygiad o'r Safonau Rheoleiddio Da a'r Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig.

***Nod strategol 2***

1.29 Gwneud rheoleiddio a chofrestru yn well ac yn decach.

- Arwain datblygiad rheoleiddio mwy effeithiol trwy adolygu ein safonau, a chyflawni gweithgareddau eraill yn cynnwys ymchwil, cyngor polisi a mentrau gwella ansawdd, megis rhannu arfer da
- Hyrwyddo, dylanwadu a chefnogi diwygio rheoleiddio
- Hyrwyddo a monitro cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gwaith ac yn y rhai rydym yn eu goruchwylio.

1.30 Yn ystod 2024/25 rydym wedi:

- Cyflwyno dulliau newydd o asesu EDI ar gyfer y rheolyddion a Chofrestrau Achrededig
- Ystyried sut mae gwiriadau diogelu yn cael eu defnyddio ar draws rheolyddion a Chofrestrau Achrededig i sicrhau amddiffyniad priodol i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth
- Adolygu sut rydym yn adrodd ar ein canfyddiadau am berfformiad rheolyddion a Chofrestrau Achrededig fel ei bod yn glir beth sy'n cael ei wneud yn dda a hefyd yn darparu her lle mae angen gwelliannau
- Cyflawni ymchwil, cynnal cynhadledd ymchwil, darparu cyngor polisi a rhannu arfer da i wella rheoleiddio a chofrestru
- Hyrwyddo diwygio rheoleiddio parhaus sy'n canolbwyntio ar ddiogelu'r cyhoedd a datblygu canllawiau i gefnogi'r broses o roi'r diwygiad hwnnw ar waith.

### *Nod strategol 3*

1.31 Hyrwyddo a chefnogi gofal mwy diogel i bawb.

- Gweithio gydag eraill i sefydlu ystod lawn o swyddogaethau a argymhellir yn Gofal Mwy Diogel i Bawb ar gyfer Comisiynwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mhob un o bedair gwlad y DU
- Gweithio gyda llywodraethau'r DU i ddatblygu strategaethau rheoleiddio i gefnogi strategaethau'r gweithlu
- Gweithio gyda rheolyddion, Cofrestrau Achrededig a rhanddeiliaid eraill i hyrwyddo diwylliannau positif yn y gweithle; datrys unrhyw wrthdaro rhwng blaenoriaethau busnes a diogelwch cleifion; a rhwng mannau diogel, atebolrwydd a'r ddyletswydd gonestrwydd.

1.32 Yn ystod 2024/25 rydym wedi:

- Ymgysylltu â llywodraethau'r DU ac NHS England i adolygu sut y gellir datblygu strategaethau rheoleiddio a fydd yn helpu cefnogi strategaethau gweithlu cenedlaethol
- Ymuno â Grŵp Cydweithredol Effaith Cyrff Ymchwiliadau Diogelwch Gwasanaethau Iechyd i wella sut mae argymhellion a wneir i'r system gofal iechyd yn cael eu datblygu, eu gwneud a'u gweithredu
- Tynnu sylw at rôl rheolyddion wrth hyrwyddo diwylliannau cadarnhaol yn y gweithle trwy ein prosiect ailffocysu rheoleiddio a digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid.

## Egwyddorion busnes

1.33 Dechreuom weithredu gyda phedair ffrwd gwaith yn 2012 ac, yn y cyfnod ers hynny, rydym wedi cynyddu trylwyredd y gwahaniad rhyngddynt. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd ein rhanddeiliaid yn chwilio am dryloywder parthed sut ydym yn gweithredu.

1.34 Isod rydym yn sefydlu'r egwyddorion sy'n sail i'n gwaith.

- Gwaith rheoleiddio a gosod safonau: Mae'r holl ffioedd o'r rheolyddion yn cael eu talu i'n swyddogaethau statudol o drosolwg a gwelliannau rheoleiddiol yn unig, fel y sefydlwyd yn ein deddfwriaeth. Bydd unrhyw warged neu ddiffyg a gynhyrchir yn erbyn ein cyllideb fel y cytunwyd gan y Cyfrin Gyngor yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo ffi'r flwyddyn ganlynol
- Cofrestrau Achrededig: Mae ffioedd ar gyfer achredu neu adnewyddu o gofrestrau yn cael eu gweithredu i ddarparu a datblygu'r rhaglen Cofrestrau Achrededig yn unig. Bydd unrhyw warged a gynhyrchir yn cael ei gadw er budd y rhaglen
- Comisiynau gan Lywodraeth(au): Bydd prisio comisiynau a chontractau ymgynghori yn talu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r gwaith. Bydd unrhyw warged yn deillio o hyn yn cael ei ddefnyddio yn ôl doethineb y Bwrdd i gefnogi ein hamcanion strategol er lles y cyhoedd

- Cyngor i sefydliadau eraill: Bydd prisio comisiynau a chontractau ymgynghori yn talu’r holl gostau sy’n gysylltiedig â’r gwaith. Bydd unrhyw warged yn deillio o hyn yn cael ei ddefnyddio yn ôl doethineb y Bwrdd i gefnogi ein hamcanion strategol er lles y cyhoedd.

1.35 Bydd gwargedion yn cael eu gweithredu yn unol â’r egwyddorion hyn wedi i ofynion ein polisi cronfeydd gael eu bodloni.

1.36 I sicrhau tryloywder, byddwn yn:

- Cyhoeddi ein cyfrifon blynyddol a datgelu ein datganiadau ariannol archwiliedig yn llawn (Tudalennau 77 i 80)
- Dangos ein hincwm a gwariant yn glir parthed pob un o'n pedair swyddogaeth.

1.37 Ar y cyd â'r egwyddorion hyn, mae ein Bwrdd wedi sefydlu polisi cronfeydd.

1.38 Mae'r Awdurdod wedi cytuno i gadw isafswm cronfeydd cyllideb o dri mis o gostau gweithredu, sef tua £1.5 miliwn ar gyfer 2024/25, ble mae'r gwahaniaeth rhwng y canlynol wedi ei nodi:

- Elfen gyfyngedig yn gysylltiedig i waith rheoleiddio a safonau
- Elfen anghyfyngedig yn gysylltiedig i holl waith yr Awdurdod.

1.39 Adroddir ar lefel a lluniad ein cronfeydd yn hwyrach yn ein cyfrifon ariannol (t95).

1.40 Bydd angen rhoi unrhyw arian a gymerir o'r cronfeydd yn ystod y flwyddyn sy'n ei leihau i lai na’r lefel isafswm a gytunwyd yn ôl yn y flwyddyn neu flynyddoedd dilynol.

## 2. Dangosyddion perfformiad allweddol

2.1 Mae'r adran hon yn esbonio sut ydym yn mesur perfformiad. Yn ein cynllun busnes blynyddol, fe gyflwynom amrywiol ddangosyddion perfformiad allweddol (DPA) ar gyfer ein gwaith. Rydym yn eu hadolygu yn rhan o raglen waith yr Uwch Dîm Rheoli ac yn eu hadrodd i'r Bwrdd. Rydym yn eu trafod gyda swyddogion yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r gweinyddiaethau yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn ein cyfarfodydd rhannu gwybodaeth cyfnodol.

2.2 Cyflwynir ein perfformiad yn erbyn y dangosyddion hynny sydd fwyaf tebygol o fod o ddiddordeb i'r cyhoedd yn ystod 2024/25 isod:

| Maes Gwaith | Dangosyddion perfformiad allweddol | Perfformiad yn 2024/25 |
|---|---|---|
| **Penderfyniadau adran 29** | Nifer o achosion a dderbyniwyd [o gymharu â 2023/24]<br>• Nifer yr Achosion a ystyriwyd mewn cyfarfod achos a29 neu gyfarfod terfyn amser statudol [o'i gymharu â 2023/24]<br>• Apeliadau a gyflwynwyd [o gymharu â 2023/24]<br>• Ystyried 100% o benderfyniadau perthnasol o fewn y dyddiad cau statudol [o gymharu â 2023/24] | 2230 [2385]<br>43 [45]<br>21 [30]<br>99.6%[3] [99.9%] |
| **Adolygiadau Perfformiad** | 100% o adolygiadau perfformiad 2024 wedi'u cyhoeddi o fewn tri mis i ddiwedd y cyfnod adolygu | 80% (8/10)[4] |
| **Pryderon y cyhoedd am Gyrff Rheoleiddio** | Cydnabod 100% o bryderon o fewn pum niwrnod gwaith | 98.5% (342/347)[5] |
| **Cofrestrau Achrededig – prosesau cyfredol** | 90% o gofrestrau'n cael asesiad llawn o fewn tair blynedd i asesiad blaenorol. | 97% (28/29) |

[3] Anfonwyd 5 achos atom y tu allan i'n terfyn amser statudol, ac apeliwyd mewn 3 achos gan y GMC gan wneud ein terfyn amser yn amherthnasol

[4] Roedd DPA yr HCPC yn hwyr o 2 fis wrth i ragor o wybodaeth ddod i'r amlwg ar ôl i'r Panel wneud ei benderfyniad terfynol ond cyn cyhoeddi'r adroddiad. Penderfynwyd bod angen rhoi'r wybodaeth bellach gerbron y Panel i'w hystyried, a arweiniodd at gyhoeddi'r adroddiad yn hwyr. Methwyd DPA yr NMC gan fod y penderfyniad wedi'i wneud i aros am ganlyniadau'r tri adolygiad annibynnol o ddiwylliant y rheoleiddiwr, ymdrin ag achosion Addasrwydd i Ymarfer a'r pryderon chwythu'r chwiban fel y gellir ymgorffori gwybodaeth yn yr adroddiad.

[5] Collwyd 4 achos oherwydd oediadau mewnol, collwyd 1 oherwydd oediadau post.

| | | |
|---|---|---|
| | • 90% o benderfyniadau ar y gwiriad blynyddol wedi eu gwneud o fewn blwyddyn i'r asesiad blaenorol.<br><br>• 95% o'r Amodau'n cael eu hadolygu o fewn dau fis i'r dyddiad yr oedden nhw i fod.<br><br>• 100% o adolygiadau targedig yn cael eu cwblhau o fewn pedwar mis i'r dyddiad cychwyn.<br><br>• 90% o benderfyniadau am geisiadau Safon 1 newydd yn cael eu gwneud o fewn pedwar mis i'w derbyn.<br><br>• 90% o benderfyniadau am achrediad llawn (Safonau 2-9) yn cael eu gwneud o fewn wyth mis i'w derbyn. | 97% (27/29)<br><br>78% (82/105)[6]<br><br>100% (3/3)<br><br>60% (3/5)[7]<br><br>Amh – ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau llawn yn 2024/25 |
| **Cyllid** | Amrywiant incwm / gwariant wedi'i gyllidebu yn llai na 5% | 3.83% (4,993/5,192) |
| **TG** | Datrys 85% o alwadau desg gymorth o fewn diwrnod<br><br>Diffyg argaeledd y system yn is na 10 awr mewn unrhyw fis | 100% (329/329)<br><br>0 awr. |
| **Diogelwch gwybodaeth** | Dim achosion wedi eu hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth | 0 |
| **Ceisiadau gwybodaeth (FOI / SAR / EIR)** | 100% Delio â phob Cais Gwrthrych am Wybodaeth o fewn dyddiadau cau statudol<br><br>100% Delio â cheisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth o fewn dyddiadau cau statudol | 100% (3/3)<br><br>100% (18/18) |

[6] Mae nifer yr Amodau a gyhoeddwyd wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf, wrth i ni barhau i asesu Cofrestrau am y tro cyntaf yn ystod eu hasesiad adnewyddu yn erbyn ein gofynion sylfaenol, a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2021. Ym mron pob achos, ni chyflawnwyd y DPA oherwydd cyflwyno tystiolaeth yn hwyr gan y Gofrestr Achrededig, a leihaodd yr amser a oedd ar gael cyn i'r DPA ddod i ben. Rydym nawr yn rhagweld y bydd y DPA yn cael ei fodloni yn Ch2 2025/26 wrth i amodau a fethodd eu terfynau amser dros flwyddyn yn ôl gael eu tynnu oddi ar y cyfartaledd treigl.
[7] Roedd dau o'r pum cais yn ymwneud â chyflwyniadau cymhleth a oedd yn destun i ohirio neu apêl.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwynion** | Cydnabod 100% o gwynion ymhen pum niwrnod<br>Cwblhau ymateb i bob cwyn o fewn 28 niwrnod | 100% (5/5)<br>100% (5/5) |
| **Cyfryngau cymdeithasol** | Cyfanswm y dilynwyr ar draws ein sianeli cyfryngau cymdeithasol (a nifer y dilynwyr newydd)<br>Nifer yn ymgysylltu â'n postiadau cyfryngau cymdeithasol | 7861 o ddilynwyr<br>1161 o ddilynwyr newydd<br>3459 achlysur ymgysylltu |
| **Defnydd o'r wefan** | Data'r flwyddyn hyd yma ar y defnydd o'r wefan rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025[8]<br>• Cyfanswm yr ymweliadau â thudalennau ar draws y wefan<br>• Tudalen lanio Gwirio Ymarferwr a thudalennau ymarferwyr penodol<br>• Tudalen hafan Cofrestrau Achrededig a thudalennau Cofrestrau Achrededig cysylltiedig | 700,215<br>200,495<br>92,839 |

[8] Ar 8 Ionawr 2025 lansiwyd ein gwefan newydd gyda'r un enw parth ond gyda strwythur tudalen we gwahanol. Darparodd y ffigurau adrodd am ein hen wefan hyd at y dyddiad hwn a gwefan newydd ar ôl hynny.

## 3. Gwaith Rheoleiddio ac Achredu

### Adran 29

3.1 Dan Adran 29 Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, gallwn gyfeirio penderfyniadau terfynol addasrwydd i ymarfer (FTP) a wneir gan baneli y 10 rheoleiddiwr at y Llys (gan fod atgyfeiriad gennym yn cael ei ystyried fel apêl gan y Llys) os byddwn yn ystyried nad yw'r penderfyniad yn ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd.

3.2 Eleni rydym wedi gweld lleihad bychan yn y nifer o benderfyniadau addasrwydd i ymarfer gan y rheolyddion, o 2,385 yn 2023/24 i 2,230 yn 2024/25 (gweler tabl 1).

3.3 Roedd cyfran fwyaf y penderfyniadau a adolygwyd gennym ar gyfer un rheoleiddiwr yn benderfyniadau Addasrwydd i Ymarfer yr NMC (48%).

3.4 O'r 2,230 o benderfyniadau Addasrwydd i Ymarfer a gawsom yn 2024/25, caewyd 95% (2,109) heb unrhyw ofyniad am ragor o wybodaeth. Roedd 621 o'r achosion hyn wedi arwain at y rheoleiddiwr yn dileu enw'r person cofrestredig oddi ar ei gofrestr, peidio ei adfer i'r gofrestr, neu ei atal am gyfnod amhenodol, ac felly nid oedd yn codi unrhyw bryderon am ddiogelu'r cyhoedd ac nid oedd angen ymyrraeth gan yr Awdurdod.

3.5 Nid ydym ychwaith yn edrych ar achosion ble mae panel adolygu wedi gohirio a gosod ataliad cyfyngol dros dro, neu gyflwyno ataliad pellach, ataliad yn dilyn cyfnod o gofrestriad amodol, neu ble mae gwaharddiad wedi ei gyflwyno ar gyfer y cyfnod uchafswm mewn achos yn ymwneud ag iechyd, perfformiad, diffyg ieithyddol neu ddiffyg cydymffurfiad â’r broses reoleiddio gan y person cofrestredig. Yn defnyddio'r dull hwn, cafodd 300 o achosion eu cau.

3.6 Caewyd 74 o achosion eraill yr NMC yn dilyn canfyddiad o amhariad ond lle’r oedd cofrestriad yr unigolyn cofrestredig wedi dod i ben yn ystod y broses Addasrwydd i Ymarfer. Yn flaenorol, ni wnaethom adolygu'r achosion hyn gan eu cau'n weinyddol heb adolygiad. Mae hyn oherwydd ein bod o'r farn bod unrhyw risg wedi'i liniaru oherwydd bod yr egwyddorion cyfreithiol a sefydlwyd drwy gyfraith achosion wedi'u cymhwyso. Pe bai’r unigolyn cofrestredig yn gwneud cais am adferiad, byddai’r pryderon Addasrwydd i Ymarfer blaenorol yn cael eu cyfeirio’n ôl drwy’r broses Addasrwydd i Ymarfer. Fodd bynnag, ym mis Awst 2024, cyflwynodd yr NMC ganllawiau a meini prawf newydd ar gyfer peidio sancsiynu yn dilyn canfyddiad o amhariad, a oedd yn ymhelaethu ar yr amgylchiadau yr oedd hyn yn berthnasol iddynt. Bu gennym bryderon ynghylch y canllawiau newydd hyn a’r modd y cânt eu cymhwyso gan baneli, ac yr ydym wedi cyflwyno apêl mewn perthynas ag un o’r achosion hyn. O ganlyniad i'n pryderon, rydym yn adolygu pob un o'r achosion hyn. Rhwng 1 Medi 2024 a 31 Mawrth 2025, derbyniom 47 o’r achosion hyn, o gymharu â 41 yn yr un cyfnod yn 2023/24.

3.7 Yn ystod 2024/25, gofynnom am ragor o wybodaeth mewn perthynas â 109 o achosion a chynhaliwyd adolygiadau achos manwl (DCR) mewn 70 o achosion (3.14%), o gymharu ag 85 o achosion (3.56%) yn 2023/24.

3.8 Yn ystod 2024/25, ystyriom gyfanswm o 43 o benderfyniadau Addasrwydd i Ymarfer mewn cyfarfodydd, a chynhaliwyd 22 o gyfarfodydd achos a 22 o gyfarfodydd terfyn amser statudol (cafodd un ohonynt ei ystyried wedyn mewn cyfarfod achos Adran 29 i

gadarnhau'r apêl). Cynhaliwyd dau gyfarfod i ystyried a ddylid dod yn barti i apêl GMC ai peidio, ble daethom yn barti i ymuno ag un apêl a phenderfynwyd peidio ag ymuno ag apêl arall. Fel cymhariaeth, yn 2023/24, fe ystyriom 17 o benderfyniadau Addasrwydd i Ymarfer mewn cyfarfodydd achos Adran 29 a 32 o benderfyniadau Addasrwydd i Ymarfer mewn cyfarfodydd terfyn amser statudol (cafodd pedwar ohonynt eu hystyried wedyn mewn cyfarfodydd achos Adran 29 i gadarnhau'r apêl). Hefyd cynhaliwyd un cyfarfod yn 2023/24 i ystyried a ddylid dod yn barti i apêl GMC ai peidio.

3.9 Cyfeiriwyd 20 achos i'r Llys o dan ein hawdurdodaeth Adran 29 a daethom yn barti i un apêl GMC o dan Adran 40B (cyfanswm o 21 apêl). Mae hyn o gymharu â 29 o atgyfeiriadau yn 2023/24 ac ymuno fel parti i un apêl GMC (cyfanswm o 30 apêl).

3.10 Defnyddiwyd ein proses benderfynu ar derfynau amser statudol mewn 12 o'r apeliadau hyn ac yn un o'r achosion hyn cynhaliwyd cyfarfod achos Adran 29 wedi hynny i gadarnhau'r penderfyniadau i apelio. Mae hyn o'i gymharu â 2023/24 lle defnyddiwyd proses benderfynu terfyn amser statudol mewn 21 o'r 30 apêl ac mewn pedwar o'r achosion hyn, cynhaliwyd cyfarfodydd achos Adran 29 wedi hynny i gadarnhau'r penderfyniadau i apelio.

3.11 Cafodd ein hapeliadau mewn 12 achos a gyfeiriwyd o fewn y flwyddyn ariannol hon eu cadarnhau neu eu setlo trwy ganiatâd gan gynnwys yr apêl GMC ar y cyd. Mae'r naw achos sy'n weddill yn cael eu rhestru ar gyfer gwrandawiad ym mlwyddyn ariannol 2025/26, a bydd y canlyniadau'n cael eu hadrodd yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf. Cafwyd dwy apêl GMC yn ddiweddar nad ydym eto wedi dod i benderfyniad i ymuno fel parti ac ar apêl arall gwnaethom y penderfyniad ar y cam DCR i beidio ag ymuno fel parti.


3.12 Mewn 18 o'r 22 o achosion a ystyriwyd gennym mewn cyfarfodydd achos Adran 29 neu o dan y broses gwneud penderfyniadau ar derfynau amser statudol, ond y penderfynasom beidio â'u cyfeirio i'r Llys, fe wnaethom nodi pwyntiau dysgu i'w hadrodd yn ôl i'r rheolyddion.

3.13 Eleni rydym wedi gweld lleihad yn y canran o achosion a gyfeirir at y Llys (i lawr i 0.95% o 1.3%) wrth gymharu â'r flwyddyn flaenorol (gweler tabl 2).


3.14 O'r 20 o atgyfeiriadau i'r Llys o dan awdurdodaeth Adran 29 (nid yw hyn yn cynnwys apêl y GMC) a wnaethom yn 2024/25, cadarnhawyd 11 ar ôl gwrandawiad neu ar ôl cael eu setlo drwy gydsyniad. Cafodd 16 o apeliadau sy'n weddill o 2023/24 eu datrys, gyda 15 apêl yn cael eu cadarnhau ar ôl gwrandawiad neu'n cael eu setlo drwy ganiatâd, ac un apêl wedi'i gwrthod. Cafodd dwy apêl arall o 2022/23 eu datrys hefyd, gydag un yn cael ei chadarnhau ac un yn cael ei gwrthod. Fe wnaethom ddatrys 29 o apeliadau Adran 29 yn 2024/25, o gymharu â 2023/24 pan wnaethom ddatrys 24 o apeliadau.

3.15 O'r 21 o atgyfeiriadau i'r Llys, roedd 13 yn ymwneud â phenderfyniadau panel yr NMC, dau yn ymwneud â phenderfyniadau panel y GPhC, dau yn ymwneud â phenderfyniadau panel HCPC, dau yn ymwneud â phenderfyniadau a wnaed gan y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol, un â phenderfyniad gan y GDC ac un â phenderfyniad panel Social Work England. Gweler tabl 3.

**Tabl 2 - Nifer o achosion addasrwydd i ymarfer a dderbyniwyd yn flynyddol**




**Tabl 3 - Nifer o achosion a gyfeiriwyd at y Llys yn flynyddol**



**Tabl 4 - Cynnydd achosion a gyfeiriwyd at y Llys**

| Rheoleiddiwr | Nifer o benderfyniad a gyfeiriwyd at y Llys dan Adran 29 Deddf 2002 | Canlyniad |
|---|---|---|
| NMC | 13 | Setlwyd chwech apêl drwy Orchymyn Cydsynio. Ym mhump o'r apeliadau hyn, cymeradwyodd y Llys y Gorchmynion Cydsynio i gynnal yr apêl, gan ddileu'r penderfyniadau. Dirprwyodd y Llys ddileu'r gofrestr mewn pedwar o'r achosion, ac ataliad mewn un lle rhoddwyd rhybudd. Cafodd un achos ei anfon yn ôl am ail-wrandawiad.<br><br>Disgwyliwn i'r saith apêl sy'n weddill ddod i ben yn 2025/26. |
| GPhC | Dau | Cafodd y ddwy apêl eu cadarnhau gan y Llys a chafodd y penderfyniadau eu dileu. Mewn un apêl, dim ond un sail a gadarnhawyd, a'i hanfon at Gofrestrydd y Cyngor i'w hailystyried yn llawn.<br><br>Cafodd yr apêl arall ei throsglwyddo i banel newydd i'w hail-wrandawiad. |
| HCPC | Dau | Cafodd un apêl ei chadarnhau gan y Llys, a chafodd y penderfyniad ei ddileu a’i ddisodli gan orchymyn amodau ymarfer am gyfnod o bedwar mis gyda gwrandawiad adolygu i’w gynnal, yn dilyn canfyddiad o ddim amhariad pellach yng ngwrandawiad adolygu’r rheoleiddiwr.<br><br>Disgwyliwn i’r apêl sy'n weddill ddod i ben yn ystod 2025/26. |
| GMC | Dau | Cafodd un apêl ei setlo drwy ganiatâd a chafodd penderfyniad y panel ar ganfyddiad o ddim amhariad ei ddileu a’i ddisodli gan ganfyddiad o amhariad, a’i anfon yn ôl at banel newydd i’w ailystyried.<br><br>Apêl ar y cyd oedd yr apêl arall ac fe wnaethom ymuno fel parti. Cafodd yr apêl hon ei |

| | | |
|---|---|---|
| | | chadarnhau a chafodd y penderfyniad ei ddileu a'i ddisodli gan gyfnod hwy o atal dros dro gyda gwrandawiad adolygu i'w gynnal. |
| GDC | Un | Cafodd yr apêl hon ei setlo drwy ganiatâd a chafodd penderfyniad gwreiddiol y panel o orchymyn atal dros dro am 4 mis heb adolygiad ei ddileu a'i anfon at banel newydd i'w benderfynu. |
| SWE | Un | Disgwyliwn i'r apêl hon gael ei chwblhau yn ystod 2025/26. |

## Newidiadau a Gwelliannau Proses

### *Newidiadau Proses*

3.16 Rydym wedi bwrw ymlaen â'r adolygiad mewnol o broses adran 29, gan wneud nifer o newidiadau i'r broses:

- Rydym wedi cyflwyno bwletin pwyntiau dysgu chwe mis sy'n cael ei anfon at reolyddion a'i gyhoeddi ar ein gwefan. Mae'r bwletin hwn yn cynnwys data achos a29 yn ogystal ag unrhyw themâu a thueddiadau a nodwyd o'n hapeliadau a'n pwyntiau dysgu a anfonwyd at reolyddion
- Rydym hefyd wedi cyflwyno proses newydd a chanllawiau newydd ar gyfer nodi materion o themâu a thueddiadau yn ein hachosion yn gynnar. Mae hyn yn ein galluogi i nodi a monitro pryderon a bwydo'r rhain yn ôl i reolyddion mewn modd amserol, fel y gellir gwneud gwelliannau i'r broses o wneud penderfyniadau
- Rydym wedi gwneud newidiadau i'n templed a'n proses adolygu achosion manwl, a phroses cyfarfodydd achos, gan gyflwyno cynlluniau peilot chwe mis ar gyfer y rhain. Y nod yw sicrhau bod ein prosesau dadansoddi a gwneud penderfyniadau mor gadarn ac effeithlon â phosibl. Bydd y cynlluniau peilot yn cael eu monitro'n agos a gofynnir am adborth yn rheolaidd. Bydd adolygiad o'r cynlluniau peilot yn cael ei gynnal cyn gweithredu ffurfiol
- Rydym wedi cynyddu ein hymgysylltiad â rheolyddion, ein cyfraniad at waith a dysgu ehangach, a'n cydweithrediad ar draws y sefydliad. Er bod ein hadnoddau'n canolbwyntio ar reoli a gwella ein gwaith o ddydd i ddydd, mae mwy o gydweithio yn ein galluogi i ychwanegu mwy o werth o'r gwaith rydym yn ei wneud, gyda'r bwriad o helpu ysgogi gwelliannau.

### *Gwelliannau Proses*

3.17 Rydym hefyd wedi gwneud nifer o welliannau i brosesau gyda ffocws ar wella ansawdd ac effeithlonrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rydym wedi cyflwyno canllawiau a phrosesau pwyntiau dysgu mewnol newydd, gan gynnwys codio mwy ffurfiol i wella cysondeb ein hymagwedd a gwerth y wybodaeth rydym yn ei rhannu

- Rydym wedi newid ein prosesau i wella ein hamseroldeb a sicrhau bod yr holl adolygiadau cychwynnol ac adolygiadau achos manwl yn cael eu cwblhau mewn modd amserol. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol a chadarnhaol ar gamau dilynol y broses, gan arwain at gynnydd yn nifer y cyfarfodydd achos a gynhelir o gymharu â phenderfyniadau terfyn amser statudol
- Rydym wedi gwneud nifer o welliannau a diweddariadau i'n system rheoli achosion, gan ein galluogi i gofnodi data'n fwy effeithiol. Disgwyliwn y bydd hyn yn ein galluogi i wneud dadansoddiad mwy manwl a soffistigedig yn y dyfodol
- Rydym wedi gwneud gwelliannau i'n prosesau gweinyddol a rheoli achosion, ac i'n dogfennaeth gysylltiedig, a ddylai arwain at arbedion effeithlonrwydd.

***Gwelliannau a newidiadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI)***

3.18 Rydym wedi blaenoriaethu gwneud gwelliannau i EDI eleni. Rydym wedi gwneud nifer o welliannau i'r broses, ac amlinellir rhai ohonynt isod:

- Rydym wedi cyflwyno tab materion EDI newydd, a chanllawiau cysylltiedig, i gasglu data perthnasol ar gyfer dadansoddiad mwy effeithiol. Rydym wedi cwblhau rhywfaint o ddadansoddiad o'r data EDI a gasglwyd hyd yn hyn, a thrwy hyn rydym wedi nodi mater sy'n dod i'r amlwg yr ydym wedi ysgrifennu at y rheoleiddiwr perthnasol yn ei gylch
- Rydym wedi darparu hyfforddiant EDI wedi'i deilwra ar gyfer y tîm a29 a'r Swyddogion Penderfynu a29, gan gynnwys ar ragfarn anymwybodol, camymddwyn rhywiol a'r Ddeddf Cydraddoldeb. Rydym hefyd wedi recriwtio mwy o benderfynwyr o bob rhan o'r Awdurdod, gan wella amrywiaeth ein cronfa paneli
- Rydym wedi cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar ein canllawiau cyhoeddedig a dogfen broses
- Comisiynom archwiliad EDI mewnol o'n prosesau, polisïau ac achosion, a roddodd sicrwydd rhesymol (y sgôr sicrwydd ail uchaf).

## Adolygiad perfformiad

3.19 Mae gennym ddyletswydd statudol i adrodd yn flynyddol ar berfformiad y rheolyddion o ran cyflawni eu dyletswydd i ddiogelu'r cyhoedd. Rydym yn gwneud hyn trwy asesu eu perfformiad yn erbyn ein Safonau Rheoleiddio Da. Rydym yn adolygu ac adrodd ar berfformiad pob rheoleiddiwr pob blwyddyn. Wrth gyflawni ein rôl drosolwg, rydym yn ymdrechu i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng craffu ar un llaw, a chyngor a chefnogaeth ar y llaw arall.

3.20 Yn ein hadolygiadau craffu o berfformiad rheolyddion yn ystod y flwyddyn, rydym wedi canfod eu bod yn gyffredinol wedi perfformio'n dda yn erbyn y safonau a osodom. Ar draws y rheolyddion, bodlonwyd cyfanswm o 92% o'r safonau a bodlonodd tri o'r rheolyddion yr holl safonau. Fodd bynnag, ni chyflawnodd saith o'r rheolyddion Safon 15 o'r Safonau Rheoleiddio Da oherwydd yr amser y mae'n ei gymryd iddynt gwblhau achosion addasrwydd i ymarfer. Mae hyn yn parhau i fod yn bryder mawr i ni, ac rydym yn cydnabod yr effaith y mae achosion addasrwydd i ymarfer estynedig yn ei chael ar bob parti dan sylw. Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa hon yn agos yn 2025/26.

3.21 Mae'r Safonau a gyflawnwyd gan bob rheoleiddiwr ar gyfer y cylch adolygu llawn a gwmpesir gan y flwyddyn ariannol hon wedi'u cynnwys yn y tabl isod. Rydym wedi cynnwys y cyfnod adolygu ar gyfer pob rheolydd yn y tabl i ddangos, er ein bod wedi cyhoeddi'r adroddiadau eleni, y gallai'r cyfnod yr ydym yn asesu perfformiad y rheolyddion fod cyn hyn.

**Tabl 5: Safonau a fodlonir gan bob rheolydd ar gyfer adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2024/25**

| Rheoleiddiwr | Cyrraedd safonau allan o 18 |
|---|---|
| **Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol** | 17 |
| **Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol** | 16 |
| **Y Cyngor Meddygol Cyffredinol** | 18 |
| **Y Cyngor Optegol Cyffredinol** | 18 |
| **Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol** | 18 |
| **Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol** | 17 |
| **Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal** | 16 |
| **Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth** | 17[9] |
| **Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon** | 11 |
| **Social Work England** | 17 |

3.22 Gosodwyd targed i ni ein hunain o gyhoeddi pob adroddiad o fewn tri mis i ddiwedd cyfnod adolygu rheolyddion a cyflawnom y DPA ar gyfer 8 allan o 10 rheoleiddiwr eleni. Ni wnaethom fodloni ein DPA ar gyfer adroddiad yr HCPC. Cawsom ragor o wybodaeth ar ddiwedd cyfnod adolygu'r HCPC. Roedd hyn yn gofyn am waith a gwneud penderfyniadau ychwanegol, a oedd yn golygu ein bod wedi cyhoeddi ein hadroddiad ym mis Awst yn hytrach nag erbyn diwedd mis Mehefin yn unol â'n targed. Ni wnaethom ychwaith fodloni'r DPA ar gyfer adroddiad yr NMC, a oedd i'w gyhoeddi erbyn diwedd mis Medi 2024, ond nad oeddem wedi'i gyhoeddi erbyn diwedd y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad blynyddol hwn. Roeddem wedi dewis gohirio cyhoeddi er mwyn aros am ganlyniad yr holl adolygiadau annibynnol a gomisiynwyd gan yr NMC yn dilyn datgeliadau chwythu'r chwiban.

[9] Mae adroddiad yr NMC yn cyfeirio at adolygiad perfformiad 2022/23 gan fod cyfnod adolygu 2023/24 wedi'i ymestyn am chwe mis a disgwylir i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2025

### *NMC*

3.23 Roedd ein hadolygiad cyfnodol ar gyfer 2023/24 o’r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) i fod i gael ei gyhoeddi’n wreiddiol ym mis Medi 2024. Yn yr Hydref 2023, comisiynodd yr NMC dri adolygiad annibynnol i ymchwilio i faterion a godwyd mewn datgeliadau chwythu’r chwiban.

3.24 Er mwyn caniatáu i’n hadolygiad o’r NMC gynnwys y wybodaeth berthnasol hon, penderfynom aros am ganlyniadau’r tri adolygiad a’u cymryd i ystyriaeth ar gyfer ein hadolygiad perfformiad 2023/24.

3.25 Mae’r cyntaf o’r tri adolygiad annibynnol, yr Adolygiad Diwylliant Annibynnol (ICR) wedi’i gyhoeddi[10]. Fodd bynnag, gan fod canlyniad y ddau adolygiad arall wedi’u gohirio, fe wnaethom ailystyried ein dull gweithredu a phenderfynu cwblhau adolygiad eleni a chyhoeddi ein hadroddiad erbyn mis Mehefin 2025 heb aros yn hirach am y dystiolaeth o’r ddau adolygiad arall.

3.26 Yn dilyn cyhoeddi’r ICR, cyfarwyddodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i’r Awdurdod sefydlu Grŵp Goruchwylio Annibynnol i dderbyn diweddariadau rheolaidd ar gynnydd yr NMC o ran mynd i’r afael â’r argymhellion yn yr adroddiad, craffu ar effaith y mesurau y mae’n eu cyflwyno i wella ei ddiwylliant a’i berfformiad, a darparu mewnwelediad a chyngor ar unrhyw gamau pellach sydd eu hangen. Fe wnaethom sefydlu’r Grŵp ym mis Medi 2024.

3.27 Bydd gwaith y Grŵp Goruchwylio Annibynnol yn darparu rhagor o wybodaeth am y camau y mae'r NMC yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r methiannau a nodwyd yn yr ICR. Bydd canfyddiadau’r ddau adolygiad sy’n weddill hefyd yn cael eu hystyried, a bydd ymateb yr NMC yn cael ei fonitro gan y Grŵp Goruchwylio Annibynnol ar ôl ei gyhoeddi.

3.28 Mae’r Grŵp Goruchwylio Annibynnol wedi cyfarfod tua bob chwe wythnos ac rydym wedi cyhoeddi Cylch Gorchwyl y Grŵp a chrynodebau o’i gyfarfodydd, sydd i’w gweld yma Diweddariadau Grŵp Goruchwylio Annibynnol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth | PSA

### *PSNI*

3.29 Yn ystod 2023/24, fe gynhaliom adolygiad cyfnodol o berfformiad y PSNI.

3.30 Yn ystod llawer o’r cyfnod adolygu hwn, mae llawer o agweddau ar berfformiad y PSNI wedi bod yn wael, ac adlewyrchir hyn yn ein hasesiad yn erbyn y Safonau. Rydym yn cydnabod bod trosiant uwch staff wedi effeithio'n sylweddol ar y PSNI, fel rheoleiddiwr bach. Rydym hefyd yn cydnabod yr ymdrechion y mae’r PSNI wedi’u gwneud ers mis Medi 2024 i wella ei berfformiad, a gobeithiwn y bydd hyn yn dwyn ffrwyth yn ei adolygiad 2024/25. Fodd bynnag, rydym wedi nodi gwendidau mewn swyddogaethau rheoleiddio lluosog yn ystod 2023/24 sydd wedi ein harwain i’r casgliad nad yw’r PSNI wedi bodloni saith o’n 18 Safon Rheoleiddio Da eleni.

[10] Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth - Adolygiad Diwylliant Annibynnol

3.31 Yn unol â'n polisi uwchgyfeirio, fe ysgrifennom at Weinidog Iechyd Gogledd Iwerddon a Chadeirydd Pwyllgor Iechyd Cynulliad Gogledd Iwerddon i'w gwneud yn ymwybodol o'n pryderon. Byddwn yn monitro perfformiad y PSNI yn agos yn 2025/26.

### *Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant*

3.32 Dyma'r flwyddyn gyntaf i ni asesu perfformiad rheolyddion yn erbyn Safon 3 (o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant) gan ddefnyddio ein dull newydd. Cawsom adborth cadarnhaol gan y rheolyddion am y dull newydd a byddwn yn cyhoeddi adolygiad o'n blwyddyn gyntaf yn chwarter cyntaf 2025/26. Gwnaethom hefyd gyhoeddi adroddiad ar wahân i dynnu sylw at yr arfer da a nodwyd gennym yn ystod ein hadolygiadau.

### *Data*

3.33 Fel rhan o'n gwaith casglu tystiolaeth ar gyfer y broses adolygu perfformiad, rydym yn casglu set gyson o ddata gan y rheolyddion bob chwarter, sy'n ein galluogi i nodi tueddiadau dros amser ac yn rhoi gwybodaeth i lywio gwaith pellach. Rydym hefyd yn casglu set data blynyddol gan y rheolyddion. Mae'r tabl isod yn amlinellu rhai o'r ystadegau allweddol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 hyd 31 Mawrth 2025. Nid yw'r wybodaeth hon wedi ei harchwilio gennym.

**Tabl 6**

| Data ar gyfer 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025 | GCC | GDC | GMC* | GOC | GOsC | GPhC | HCPC | NMC | PSNI | SWE |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cofrestru** | | | | | | | | | | |
| **Nifer o bersonau cofrestredig** | 3,959 | 127,029 | 396,170 | 33,508 (yn cynnwys 2,859 sefydliad corfforaethol a 5,979 o fyfyrwyr) | 5,597 | 92705 unigolyn cofrestredig 13,214 eiddo | 356,104 | 853,707 | 3,760 (yn cynnwys 537 eiddo a 188 hyfforddai) | 104,857 |
| **Nifer o geisiadau cofrestru cychwynnol newydd a dderbyniwyd** | 299 | 14,074 | 30,360 | 1,343 | 334 | 4,488 | 29,785 | 52,834 | 163 | 5,486 |
| **Nifer o apeliadau cofrestru a gwblhawyd ble na chyflwynwyd gwybodaeth newydd, ac a ategwyd** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| Data ar gyfer 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025 | GCC | GDC | GMC* | GOC | GOsC | GPhC | HCPC | NMC | PSNI | SWE |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canolrif amser a gymerwyd (mewn wythnosau) i broses ceisiadau cofrestru cychwynnol ar gyfer graddedigion y Deyrnas Unedig** | 1 | 1 | 0.1 | 1 | 0.1 | 0 | 0.6 | 0 | 0 | 0.4 |
| **Canolrif amser a gymerwyd (mewn wythnosau) i broses ceisiadau cofrestru cychwynnol ar gyfer graddedigion rhyngwladol** | 1 | 10 | 2.8 | 0.7 | 0.1 | 0 | 14 | 0 | 3 | 0.8 |
| **Ffi dargadw flynyddol** | £800 | Mae'r ffi sy'n daladwy yn dibynnu ar y mis cofrestru a ph'un a yw'n ddeintydd neu'n weithiwr gofal deintyddol proffesiynol | £455 (gyda thrwydded i ymarfer)<br><br>£163 (heb drwydded i ymarfer) | £405 ar gyfer unigolion cofrestredig a busnesau<br><br>£30 i fyfyrwyr | £320 Bl 1(mynediad)<br><br>£430 Bl 2 y DU<br><br>£215 Bl 2 cyfradd ostyngol<br><br>£570 Bl 3+ y DU<br><br>£320 Bl 3+ cyfradd ostyngol | £276 Fferyllwyr<br><br>£130 Technegwyr Fferyllfa<br><br>£392 Eiddo | £123.34 y flwyddyn (£61.67 i raddedigion y DU x2 flynedd) | £120 | £398 i weithwyr cofrestredig<br><br>£155 ar gyfer eiddo | £90 |

| Data ar gyfer 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025 | GCC | GDC | GMC* | GOC | GOsC | GPhC | HCPC | NMC | PSNI | SWE |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| **Addasrwydd i ymarfer** | | | | | | | | | | |
| Amser canolrif a gymer (mewn wythnosau) o dderbyn cwyn cyntaf i benderfyniad y pwyllgor archwilio terfynol | 62.5 | 83 | 28.6 | 55 | 41 | 102 | 78.6 | 80 | 85 | 103 |
| Amser canolrif o dderbyn cwyn cyntaf (mewn wythnosau) i benderfyniad gwrandawiad addasrwydd i ymarfer terfynol | 112 | 147 | 108.9 | 71 | 67 | 153 | 167.3 | 151 | 104 | 193.2 |
| Amser canolrif a gymer (mewn wythnosau) o dderbyn cwyn cychwynnol i benderfyniad gorchymyn dros dro | 56.5 | 30 | 11.7 | 26 | 30 | 10.9 | 28.4 | 5 | 3 | 44 |
| Amser canolrif a gymer (mewn wythnosau) o dderbyn gwybodaeth yn dynodi fod angen gorchymyn dros dro i benderfyniad gorchymyn dros dro | 3.5 | 3 | 2.9 | 3 | 4 | 2.8 | 4.3 | Amh | 2 | 3.9 |
| Nifer o apeliadau personau cofrestredig a | 0 | 3 | 5 | 0 | 0 | 0 | 2 | 21 | 0 | 3 |

| Data ar gyfer 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025 | GCC | GDC | GMC* | GOC | GOsC | GPhC | HCPC | NMC | PSNI | SWE |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| agorwyd yn erbyn penderfyniadau terfynol addasrwydd i ymarfer | | | | | | | | | | |
| Nifer apeliadau yr Awdurdod a agorwyd yn erbyn penderfyniadau addasrwydd i ymarfer terfynol | 0 | 1 | 2 (un apêl ar y cyd) | 0 | 0 | 2 | 2 | 13 | Amh | 1 |

* mae data ar gyfer GMC yn cynnwys meddygon yn unig. O 2025/26 bydd hyn hefyd yn cynnwys cymdeithion meddygol (PAs) a chymdeithion anaesthesia (AAs)

3.34 Mae amrywiaethau yn y data perfformiad ystadegol ar gyfer y gwahanol reolyddion yn adlewyrchu maint eu cofrestrau, eu cyfyngiadau deddfwriaethol a'r gwahanol amgylcheddau maent yn gweithio ynddynt. Rydym yn cydnabod y gall rheolyddion gyda llwyth achosion llai ganfod bod eu perfformiad cyffredinol wedi ei sgiwio gan ambell i achos hir na ellir eu hosgoi neu hyd yn oed rai byr iawn.

## Penodiadau

3.35 Gwneir penodiadau i wyth o gynghorau'r rheolyddion gan y Cyfrin Gyngor (yr eithriadau yw'r PSNI a Social Work England). Mae'r Cyfrin Gyngor yn gwneud y penodiadau hyn ar sail argymhellion y mae'n eu cael gan y rheolyddion. Gall yr argymhellion hyn fod ar gyfer ymgeiswyr i ddod yn aelodau cyngor newydd neu ar gyfer ailbenodi aelodau presennol y cyngor sy'n gymwys am dymor pellach.

3.36 Rôl yr Awdurdod yw craffu ar y broses a ddefnyddir gan reolyddion i ddewis ymgeiswyr i'w hargymell i'r Cyfrin Gyngor. Pan fyddwn wedi cwblhau ein craffu, rydym yn cynghori'r Cyfrin Gyngor os gall fod â hyder ym mhroses y rheoleiddiwr.

3.37 Rydym yn gosod y safon ofynnol ar gyfer prosesau penodi rheolyddion ac yn gweithio'n agos gyda rheolyddion, gan gynnig cyngor a thrwy hyrwyddo arfer gorau. Ar gyfer penodiadau newydd a wneir trwy gystadleuaeth agored, mae gennym gam rhybudd ymlaen llaw sy'n ein galluogi i graffu ar gynlluniau'r rheoleiddiwr a chynnig cyngor cyn iddynt wahodd ceisiadau.

3.38 Yn 2024/25, darparom gyngor i'r Cyfrin Gyngor parthed 19 o brosesau penodi. Roedd pob un o'r wyth rheoleiddiwr yr ydym yn craffu ar eu penodiadau yn rhedeg o leiaf un broses.

| Math | Nifer y prosesau | Aelodau’r Cyngor | Cadeiryddion y Cyngor |
|---|---|---|---|
| Penodiadau | 10 | 18 | 1 |
| Ailbenodiadau | 9 | 15 | 3 |
| Cyfansymiau | 19 | 33 | 4 |

3.39 Rydym yn pwysleisio bod angen i gynghorau rheolyddion adlewyrchu'n fras eu cleifion a'r cyhoedd yn ogystal â'u grwpiau o unigolion cofrestredig. Rydym wedi bod yn falch o nodi cynnydd parhaus rheolyddion tuag at restrau byr a phenodiadau mwy amrywiol.

## Pryderon

3.40 Er na all yr Awdurdod ymchwilio i gwynion am y rheolyddion rydym yn eu goruchwylio, mae unigolion sydd am rannu eu profiad o’r rheolyddion gyda ni yn cysylltu â ni bron yn ddyddiol. Gwnawn ein gorau i ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol mewn ymateb i'r pryderon hynny a byddwn, o bryd i'w gilydd, yn cysylltu â rheoleiddiwr ynghylch pryder a gawn.

3.41 Mae'r adborth a gawn yn darparu tystiolaeth werthfawr ar gyfer ein hadolygiadau perfformiad. Rydym yn coladu'r wybodaeth a gawn yn ofalus ac yn archwilio'r themâu a nodir gennym drwy ein proses adolygu perfformiad. Os yw gwybodaeth a ganfyddwn o bryderon yn dynodi mater o bryder posibl am reoleiddiwr, efallai y byddwn yn ceisio gwybodaeth bellach gan y rheoleiddiwr, targedu ein hadolygiadau neu archwilio prosesau neu achosion perthnasol.

3.42 Yn ystod 2024/25 cawsom 346 o bryderon am reolyddion, gostyngiad bach o gymharu â’r flwyddyn flaenorol (2023/24: 388). Roedd y gostyngiad hwn yn bennaf oherwydd lleihad yn nifer y pryderon a dderbyniwyd am brosesau cofrestru’r rheolyddion.

3.43 Roedd y nifer fwyaf o'r pryderon hyn wedi'u crynhoi yn y categorïau canlynol.

| Categori | Rhif |
|---|---|
| Pryderon gydag ymchwiliad addasrwydd i ymarfer parhaus, gan gynnwys oedi | 97 |
| Penderfyniadau a wneir yn ystod camau cynnar ymchwiliadau addasrwydd i ymarfer | 75 |
| Pryderon cofrestru, gan gynnwys oedi. | 27 |

3.44 Rydym yn parhau i weld oedi ym mhroses addasrwydd i ymarfer y rheolyddion yn darparu cyfran fwy o bryderon nag a wnaethom cyn-bandemig, gan adlewyrchu anawsterau llawer o reolyddion i symud achosion yr ydym wedi adrodd arnynt yn ein hadolygiadau perfformiad yn eu blaen.

3.45 Cysylltodd 12 o unigolion â ni yn dymuno mynegi eu pryderon am ganlyniad terfynol gwrandawiad addasrwydd i ymarfer. Fe wnaethom gymryd y pryderon hyn i ystyriaeth yn ystod ein hadolygiadau Adran 29.

## Cofrestrau Achrededig

3.46 Mae rhaglen Cofrestrau Achrededig (CA) yr Awdurdod yn cwmpasu bron i 130,000 o ymarferwyr dros ystod o fwy na 60 o rolau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Cynyddodd nifer yr ymarferwyr tua 12% dros 2024/25.

3.47 Mae cael eich achredu yn golygu bod sefydliad wedi ein bodloni ei fod yn ateb ein holl Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig[11]. Unwaith y bydd wedi’i hachredu, mae gan y Gofrestr a’i hunigolion cofrestredig hawl i ddefnyddio Marc Ansawdd achredu’r Awdurdod (a ddangosir isod). Mae hyn yn galluogi'r cyhoedd, cyflogwyr a chomisiynwyr i ddewis ymarferwr sy'n hyderus yn eu hymrwymiad i safonau uchel.

3.48 Mae'n ofynnol i bob Cofrestr yr ydym wedi'i hachredu wella ei harfer mewn un maes neu fwy er mwyn bodloni'r Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig cyn ennill achrediad. Gellir cyhoeddi amodau (newidiadau y mae’n rhaid eu gwneud o fewn amserlen benodol i gynnal achrediad) ac Argymhellion (camau a fyddai’n hyrwyddo arfer gorau ond nad oes angen eu cwblhau i gynnal achrediad) yn ystod achrediad cychwynnol ac mewn asesiadau adnewyddu i wella arfer yn erbyn y Safonau. Rhaid bodloni amodau i gynnal achrediad.

3.49 Ym mis Gorffennaf 2021, fe wnaethom gyflwyno newidiadau i’r rhaglen yn dilyn adolygiad strategol. Roedd y rhain yn cynnwys model ffioedd newydd a oedd yn adlewyrchu maint cofrestrau yn well; newidiadau i'r cylch asesu sy'n golygu bod pob cofrestr bellach yn cael asesiad llawn unwaith bob tair blynedd yn hytrach na bob blwyddyn, gyda gwiriad blynyddol yn y blynyddoedd rhwng hynny; a chyflwyno ‘prawf lles y cyhoedd’ newydd (Safon 1b), i asesu effaith achredu’n well.

3.50 2024/25 oedd trydedd flwyddyn lawn gweithredu’r prosesau newydd hyn. Roedd ffioedd adnewyddu yn destun cynnydd o 4% yn gysylltiedig â chwyddiant o gymharu â’r flwyddyn flaenorol ac yn cynnwys ffi sylfaenol o £11,356.80 ac elfen fesul unigolyn cofrestredig o £6.17, gyda chap cyfanswm o £64,896. Y ffioedd ar gyfer ceisiadau newydd oedd £14,924 am asesiad llawn.

3.51 Gall cofrestrau hefyd wneud cais am benderfyniad cychwynnol, dros dro yn erbyn 'prawf budd y cyhoedd' newydd cyn cyflwyno cais llawn. Y ffi am hyn yn 2024/25 oedd £1,406.08 sy'n ad-daladwy yn erbyn cost lawn y cais. Mae hwn yn llwybr poblogaidd ar gyfer Cofrestrau newydd, gyda nifer o geisiadau Safon Un yn dod i law yn ystod 2024/25 fel y nodir isod.

[11] https: //www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/accredited-registers/standards-for-accredited-registers/standards-for-accredited-registers.pdf?sfvrsn=cc2c7f20_6

### *Penderfyniadau achredu yn 2024/25*

3.52 Gellir dod o hyd i adroddiadau am benderfyniadau achredu ar ein tudalen we Penderfyniadau Achredu.[12]

### *Ceisiadau newydd a newidiadau i sefydliadau wedi'u hachredu*

3.53 Ni achredwyd unrhyw gofrestrau newydd yn ystod 2024/25. Fodd bynnag, cynhaliwyd nifer o geisiadau Safon Un gennym.

3.54 Ym mis Gorffennaf 2024 cyhoeddom ganlyniad dros dro Safon Un ar gyfer y Gymdeithas Gwyddonwyr Darlifiad Clinigol. Mae Gwyddonwyr Darlifiad Clinigol yn gweithio fel rhan o dimau llawfeddygol cardiothorasig ac yn rheoli'r peiriant calon-ysgyfaint (dargyfeirio cardio-pwlmonaidd) yn ystod gweithdrefnau dargyfeirio cardio-pwlmonaidd.

3.55 Ym mis Hydref 2024, cyhoeddom ganlyniad Safon Un dros dro gan y Gymdeithas Meddygaeth Tsieineaidd Draddodiadol (ATCM). Mae'r ATCM yn cofrestru tri math o ymarferydd: aciwbigwyr, ymarferwyr meddygaeth lysieuol Tsieineaidd, ac ymarferwyr Tui Na (tylino therapiwtig Tsieineaidd).

3.56 Ym mis Hydref 2024, cyhoeddom ganlyniad Safon Un dros dro Interpersonal Psychotherapy UK (IPTUK). Mae Seicotherapi Rhyngbersonol (IPT) yn ymyriad seicolegol strwythuredig, â chyfyngiad amser, a ddatblygwyd ar gyfer trin iselder difrifol.

3.57 Yn ystod 2024/25, rydym wedi bod yn ystyried cais cymhleth gan y Ffederasiwn Rhyngwladol Cwnsela a Dewis Therapiwtig, a oedd yn destun apêl.

3.58 Ym mis Mawrth 2025, cawsom gais gan Gyngor Cenedlaethol y Seicotherapyddion Integreiddiol am asesiad yn erbyn Safon Un.

3.59 Ni thynnodd unrhyw Gofrestrau Achrededig yn ôl o'r rhaglen

### *Asesiadau adnewyddu*

3.60 Fe wnaethom gynnal 20 o wiriadau blynyddol yn 2024/25. Arweiniodd tri o'r rhain at Adolygiadau wedi'u Targedu. Mae Adolygiad wedi'i Dargedu yn adolygiad manwl o un neu fwy o Safonau, a all gael eu sbarduno gan newidiadau neu bryderon sylweddol yn cael eu nodi mewn gwiriad blynyddol, neu drwy ein proses Rhannu Eich Profiad (SYE).

3.61 Mae'r Adolygiadau wedi'u Targedu a gychwynnwyd yn ymwneud â Bwrdd Caplaniaeth Iechyd y DU, y Cyngor Gofal Iechyd Cyflenwol a Naturiol a Sefydliad y Tricolegwyr. Roedd y tri Adolygiad wedi'u Targedu yn dal i fynd rhagddynt ar ddiwedd 2024/25 a disgwylir iddynt gael eu cwblhau yn chwarter cyntaf 2025/26.

3.62 Cwblhawyd asesiadau adnewyddu llawn ar gyfer Ffederasiwn Rhyngwladol Aromatherapyddion, COSCA (Counselling and Psychotherapy in Scotland), Cymdeithas Cristnogion mewn Cynghori a Phroffesiynau Cysylltiedig, Cymdeithas Seicotherapyddion Plant, Cymdeithas Cynghori a Seicotherapi Prydain, Play Therapy UK, Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Cenedlaethol, a Rhwydwaith Gweithwyr Adsefydlu Proffesiynol.

[12] www.professionalstandards.org.uk/organisations-we-oversee/our-work-accredited-registers/accreditation-decisions

3.63 Mae'r tabl isod yn dangos y rhestr lawn o Gofrestrau Achredededig, a'r nifer o amodau ac argymhellion oedd yn weithredol ar 31 Mawrth 2025,[13] gan gynnwys argymhellion a roddwyd fel rhan o'r asesiadau Safon 9 newydd.

**Tabl 7**

| Cofrestr Achrededig | Asesiad diwethaf | Math o asesiad | Amodau[14] | Argymhellion[15] |
|---|---|---|---|---|
| Academi Gwyddor Gofal Iechyd | Mawrth 2025 | Gwiriad blynyddol | 0 | 0 (Gwiriad Blynyddol)<br>1 (Safon 9) |
| Cymdeithas Seicotherapyddion Plant | Gorffennaf 2024 | Adnewyddiad llawn | 0 | 1 (Adnewyddiad llawn)<br>2 (Safon 9) |
| Cymdeithas Cristnogion mewn Cynghori a Phroffesiynau Cysylltiedig | Mehefin 2024 | Adnewyddiad llawn | 0 | 2 (Adnewyddiad llawn)<br>2 (Safon 9) |
| Sefydliad Athena Herd | Ionawr 2025 | Gwiriad blynyddol | 0 | 0 (Gwiriad blynyddol)<br>0 (Safon 9) |
| Cyngor Aciwbigo Prydain | Mai 2024 | Gwiriad blynyddol | 1 | 3 (Gwiriad blynyddol)<br>2 (Safon 9) |
| Cymdeithas Cynghori a Seicotherapi Prydain | Rhagfyr 2024 | Adnewyddiad llawn | 1 | 2 (Adnewyddiad Llawn)<br>4 (Safon 9) |
| Cymdeithas Therapyddion Chwarae Prydain | Chwefror 2025 | Gwiriad blynyddol | 0 | 3 (Gwiriad blynyddol)<br>4 (Safon 9) |
| Cymdeithas Adferwyr a Hyfforddwyr Chwaraeon Prydain | Rhagfyr 2024 | Gwiriad blynyddol | 0 | 0 (Gwiriad blynyddol)<br>6 (Safon 9) |
| Cymdeithas Hylendid Galwedigaethol Prydain | Rhagfyr 2024 | Gwiriad blynyddol | 0 | 0 (Gwiriad blynyddol)<br>3 (Safon 9) |
| Cyngor Seicdreiddiol Prydain | Ebrill 2024 | Gwiriad blynyddol | 0 | 3 (Gwiriad blynyddol)<br>3 (Safon 9) |
| Cofrestr Lles Seicolegol Ehangach Cymdeithas Seicolegol Prydain | Awst 2024 | Gwiriad blynyddol | 0 | 0 (Gwiriad blynyddol)<br>4 (Safon 9) |
| Y Cofrestrau CBT | Gorffennaf 2024 | Gwiriad blynyddol | 0 | 0 (Gwiriad blynyddol)<br>2 (Safon 9) |
| Cyngor Gofal Iechyd Cyflenwol a Naturiol | Rhagfyr 2024 | Gwiriad blynyddol | 0 | 0 (Gwiriad blynyddol) |

[13] Mae hyn yn cynnwys Amodau sydd wedi'u cynnwys mewn adroddiadau cyhoeddedig yn unig. Ar ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad blynyddol, rydym yn adrodd "I'w gadarnhau" os nad yw adroddiad yn cynnwys amodau wedi'i gyhoeddi.
[14] Mae amodau yn newidiadau sy'n rhaid eu gwneud o fewn cyfnod amser penodedig i gynnal achrediad.
[15] Mae argymhellion yn weithredoedd a fyddai'n hyrwyddo arfer da ond nad oes rhaid eu cwblhau i gynnal achrediad.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | (Adolygiad wedi'i Dargedu wedi'i gychwyn) | | 2 (Safon 9) |
| COSCA (Counselling & Psychotherapy in Scotland) | Mehefin 2024 | Adnewyddiad llawn | 0 | 6 (Adnewyddiad llawn)<br>2 (Safon 9) |
| Human Givens Institute | Mehefin 2024 | Gwiriad blynyddol | 0 | 0 (Gwiriad blynyddol)<br>12 (Safon 9) |
| Sefydliad y Tricolegwyr | Rhagfyr 2024 | Gwiriad blynyddol (Adolygiad wedi'i Dargedu wedi'i gychwyn) | 3 | 0 (Gwiriad blynyddol)<br>3 (Safon 9) |
| Ffederasiwn Rhyngwladol Aromatherapyddion | Mai 2024 | Adnewyddiad llawn | 0 | 0 (Adnewyddiad llawn)<br>7 (Safon 9) |
| Cyd-Gyngor Ymarferwyr Cosmetig | Mawrth 2025 | Gwiriad blynyddol | 0 | 0 (Gwiriad blynyddol)<br>10 (Safon 9) |
| Cymdeithas Cynghori a Seicotherapi Cenedlaethol / Cymdeithas Hypnotherapi Cenedlaethol | Hydref 2024 | Adnewyddiad llawn | 5 | 3 (Adnewyddiad llawn)<br>6 (Safon 9) |
| Play Therapy UK | Medi 2024 | Adnewyddiad llawn | 0 | 9 (Adnewyddiad llawn)<br>8 (Safon 9) |
| Cofrestr y Technolegwyr Clinigol | Ionawr 2025 | Gwiriad blynyddol | 5 | 2 (Gwiriad blynyddol)<br>6 (Safon 9) |
| Rhwydwaith Gweithwyr Adsefydlu Proffesiynol | Mawrth 2025 | Adnewyddiad llawn | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau (Gwiriad Blynyddol)<br>6 (Safon 9) |
| Save Face | Mawrth 2025 | Gwiriad blynyddol | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau (Gwiriad Blynyddol)<br>7 (Safon 9) |
| Cymdeithas y Deyrnas Unedig ar gyfer Ymarferwyr Seicoleg Ddyneiddiol | Mawrth 2025 | Gwiriad blynyddol | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau (Gwiriad Blynyddol)<br>5 (Safon 9) |
| Bwrdd Caplaniaid gofal Iechyd y Deyrnas Unedig | Tachwedd 2024 | Gwiriad blynyddol (Adolygiad wedi'i Dargedu wedi'i gychwyn) | 0 | 0 (Gwiriad blynyddol)<br>7 (Safon 9) |
| Cyngor Seicotherapi'r Deyrnas Unedig | Ionawr 2025 | Gwiriad blynyddol | 0 | 1 (Gwiriad blynyddol)<br>2 (Safon 9) |
| Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y Deyrnas Unedig | Mawrth 2025 | Gwiriad blynyddol | 0 | 1 (Gwiriad blynyddol)<br>2 (Safon 9) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cymdeithas y DU ar gyfer Dadansoddi Ymddygiad | Ionawr 2025 | Gwiriad blynyddol | 0 | 2 (Gwiriad blynyddol)<br>2 (Safon 9) |

### *Asesiadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant*

3.64 Yn 2024/25, fe wnaethom asesu pob un o'r 29 Cofrestr Achrededig yn erbyn y Safon Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) newydd (Safon Naw). Yn y flwyddyn gyntaf hon o asesu, ni wnaethom nodi unrhyw achosion lle'r oedd angen uwchgyfeirio neu Adolygiad wedi'i Dargedu. Rydym wedi cyhoeddi cyfanswm o 120 o argymhellion a fydd yn cael eu hadolygu mewn asesiadau yn 2025/26 ar gyfer cynnydd.

### *Gwiriadau diogelu a chofnodion troseddol*

3.65 Yn 2024/25, fe wnaethom barhau â'n gwaith i ystyried sut i gryfhau trefniadau diogelu ar gyfer y cyhoedd drwy wiriadau cofnodion troseddol drwy ein harolygiad o reolyddion a Chofrestrau Achrededig.

3.66 Mewn blynyddoedd blaenorol, cwblhawyd cynllun peilot[16] gennym gyda'r nod o fynd i'r afael â'r bwlch presennol o ran gwiriadau ymarferwyr Cofrestr Achrededig hunangyflogedig a chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus[17] i geisio barn ynghylch a ddylid ehangu'r gwiriadau hyn yn y dyfodol drwy gyflwyno gofynion newydd ar gyfer Cofrestrau yn ein Safonau. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, fe wnaethom ehangu'r prosiect i gynnwys ystyriaeth o'r trefniadau sydd ar waith yn y rheolyddion.

3.67 Yn 2024/25 rydym wedi bod yn casglu tystiolaeth o faint y risg sy'n deillio o'r system bresennol o ddatganiadau drwy gynnal arolwg o'r rheolyddion, adolygu ein data ein hunain o achosion a dderbyniwn i'n swyddogaeth Adran 29 a lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar ddiwygiadau i'n Safonau. Rydym yn aros am ymateb y Llywodraeth i argymhellion Adolygiad Bailey ac yn parhau i gysylltu â'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfamser.

### *Adolygu ein safonau ar gyfer rheolyddion a chofrestrau*

3.68 Yn 2024/25 fe ddechreuom waith i adolygu'r safonau a ddefnyddiwn i asesu perfformiad rheolyddion a chofrestrau. Dechreuodd y prosiect drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y cyhoedd drwy bartneriaeth â Chymdeithas y Cleifion.

3.69 O'r gwaith ymgysylltu hwn, fe baratowyd ymgynghoriad eang a oedd yn ceisio archwilio i ba raddau yr oedd ein rhanddeiliaid yn meddwl bod angen i'r safonau newid, yn ogystal â phrofi rhai cynigion penodol ar gyfer newid. Lansiwyd yr ymgynghoriad ym mis Chwefror 2025 a daeth i ben ym mis Mai 2025.

3.70 Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu dadansoddi a'u hadrodd yn cael eu cynnal yn 2025/26 ac yn cael eu dilyn gan ymgysylltu wedi'i dargedu ymhellach dros ddrafft o'r safonau cyn eu rhoi ar waith o ddechrau 2026/27.

---

[16] https://www.professionalstandards.org.uk/what-we-do/accredited-registers/accredited-registers-safeguarding-pilot
[17] PSA | Adroddiad ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad Diogelu (professionalstandards.org.uk)

*Codi ymwybyddiaeth a chydnabyddiaeth*

3.71 Yn unol â pholisi'r llywodraeth, rydym yn hyrwyddo'r neges, wrth ddewis ymarferwyr sy'n gweithio mewn rolau heb eu rheoleiddio, y dylai'r cyhoedd, cyflogwyr ac eraill ddewis ymarferwyr ar Gofrestrau Achrededig, lle bynnag y bo modd, iddynt elwa ar y diogelwch cynyddol y mae'n ei gynnig.

3.72 Rydym yn parhau i weithio i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen, y manteision a pham ei bod yn bwysig defnyddio ymarferwyr sydd wedi'u cofrestru o dan fantell y rhaglen Cofrestrau Achrededig.

3.73 Rydym yn hyrwyddo'r Marc Safon – arwydd clir bod rhywun wedi'i achredu a'i fod wedi cyrraedd ein safonau. Yn 2024/25, parhaodd ein gwaith i godi ymwybyddiaeth a defnydd o'r Marc Safon. Yn dilyn ymlaen o ymchwil a gynhaliwyd yn 2023/24, lansiwyd dwy ymgyrch wedi'u targedu gennym yn hyrwyddo defnydd o'r nod ansawdd gan unigolion cofrestredig a'r cyhoedd.

3.74 Mae'r cyfleuster gwirio ymarferwr[18] ar ein gwefan yn caniatáu i'r holl randdeiliaid chwilio am gofrestr, neu ymarferydd sy'n gweithio mewn rôl benodol.

3.75 Rydym yn defnyddio ein blog a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r rhaglen ac amlygu meysydd risg i'r cyhoedd wrth geisio iechyd a gofal gan ymarferwyr annibynnol.

## Polisi, Cyfathrebu ac Ymgysylltu

3.76 Mae ein gwaith i ddatblygu a chynghori ar bolisi rheoleiddio, ac i ddatblygu dulliau cyfathrebu effeithiol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein swyddogaethau statudol ac yn ein helpu i wella rheoleiddio. Mae'r adran hon yn nodi sut y gwnaethom gyflawni yn erbyn ein hamcanion ar gyfer 2024/25 yn y meysydd hyn.

### Diwygio rheoleiddio

3.77 Roedd rhaglen o ddiwygio deddfwriaethol i'r rheolyddion yr ydym yn eu goruchwylio wedi'i chyhoeddi o dan Lywodraeth flaenorol y DU yn 2017.[19] Cyflwyno rheoleiddio statudol ar gyfer Cymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygol gan y GMC, a gwblhawyd ym mis Rhagfyr 2024, oedd cam cyntaf y diwygiadau hyn, fodd bynnag ym mis Gorffennaf 2024, etholwyd Llywodraeth newydd yn y DU. Ar 31 Mawrth 2025, rydym yn aros am gyhoeddiad ynghylch a fydd cam nesaf y diwygio yn mynd yn ei flaen.

3.78 Ym mis Mai 2024, gwnaethom ymateb[20] i ymgynghoriad y GMC ar y rheolau a fyddai'n llywodraethu rheoleiddio Cymdeithion Meddygol ac Anesthesia, yn dilyn pasio Gorchymyn Cymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygol 2024.[21] Roedd ein pryderon allweddol yn ymwneud â defnyddio penderfynwyr unigol yn y broses addasrwydd i ymarfer, cynnig, a dynnwyd wedyn o'r rheolau yn dilyn adborth o'r ymgynghoriad.

3.79 Cwblhawyd prosiect i ddatblygu canllawiau i reolyddion y mae eu deddfwriaeth wedi'i diweddaru, i gefnogi penderfyniadau ynghylch a ddylid cyfeirio achos i wrandawiad, a

[18] Gwirio Ymarferydd | PSA
[19] Regulatory_Reform_Consultation_Document.pdf
[20] Ymateb i ymgynghoriad y GMC ar Reolau y Gorchymyn AA a PA | PSA
[21] Y Gorchymyn Cymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygol 2024

datblygu rheolau sy'n diogelu'r cyhoedd. Ar adeg ysgrifennu hwn, nid ydym wedi cyhoeddi'r canllawiau hyn eto oherwydd yr ansicrwydd ynghylch statws y rhaglen ddiwygio.

### Rheoleiddio Cyffyrddiad Cywir

3.80 Ym mis Tachwedd 2024 fe gychwynnom brosiect i adolygu ein dogfen ganllaw rheoleiddio Cyffyrddiad Cywir 2015. Dechreuwyd ar y gwaith drwy ymgysylltu â nifer o randdeiliaid allweddol gan gynnwys y rhai oedd wedi gweithio gyda ni ers ei gyhoeddi, i nodi meysydd allweddol i'w gwella a'u diweddaru. Ar ôl clywed amrywiaeth o safbwyntiau, fe wnaethom wedyn ysgrifennu dogfen drafod a ddosbarthwyd i ystod ehangach o randdeiliaid yn gynnar ym mis Mawrth 2025 yn gofyn am sylwadau a chyfraniadau erbyn dechrau mis Mai 2025. Byddwn yn gweithio i gyhoeddi a lledaenu fersiwn newydd o'r ddogfen ym mis Hydref 2025

### Cynhadledd Ymchwil

3.81 Ym mis Hydref 2024 cynhaliwyd ein cynhadledd ymchwil flynyddol a fynychwyd gan dros 140 o bobl. Eleni buom mewn partneriaeth â'r tîm ymchwil a oedd wedi arwain y prosiect Tystion i Niwed a ariannwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal, gan edrych ar brofiad aelodau'r cyhoedd oedd wedi dod â phryderon i sylw'r rheolyddion, o'r atgyfeiriad cychwynnol hyd at y gwrandawiad terfynol. Er bod un edefyn o'r drafodaeth ar y diwrnod yn canolbwyntio ar ganlyniadau'r ymchwil hwnnw, clywsom hefyd gan ymchwilwyr sy'n gweithio ar agweddau eraill ar ymchwil a gwelliant addasrwydd i ymarfer, ac ar gamymddwyn rhywiol gan weithwyr iechyd a gofal proffesiynol.

### Gofal mwy diogel i bawb

3.82 Fe wnaethom barhau i gyflawni yn erbyn ymrwymiadau a nodir yn ein hadroddiad Gofal Mwy Diogel i Bawb[22] 2022, gyda'r nod o wneud rheoleiddio'n well ac yn decach.

### Deall y rhwystrau a'r galluogwyr i wneud cwyn

3.83 Fe wnaethom gomisiynu ymchwil i archwilio'r rhwystrau a'r galluogwyr i bobl sydd am gwyno i reoleiddiwr proffesiynol. Roedd ein sampl yn cynnwys y cyhoedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae'r adroddiad terfynol yn nodi camau y gallai rheolyddion, yr Awdurdod ac eraill eu cymryd i wella mynediad at y prosesau cwyno lle mae gan bobl bryder difrifol am weithiwr iechyd neu ofal proffesiynol. Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad yn 2025/26 ochr yn ochr â datganiad sefyllfa am y canfyddiadau a'r argymhellion. Byddwn hefyd yn defnyddio'r ymchwil i lywio ein hadolygiad o'r safonau yr ydym yn asesu rheolyddion a chofrestrau yn eu herbyn.

### Ailffocysu rheoleiddio

3.84 Buom yn gweithio gyda'r Gyfarwyddiaeth Rheoleiddio ac Achredu i gefnogi lansiad Chwefror 2025 ein hymgynghoriad Adolygu Safonau o safbwynt polisi, a chyfathrebu ac ymgysylltu.

3.85 Mae'r ddwy set o Safonau a ddefnyddiwn i asesu perfformiad y rheolyddion a'r Cofrestrau Achrededig (ARs) rydym yn eu goruchwylio yn arfau hanfodol ar gyfer cyflawni ein swyddogaeth oruchwylio ac fe wnaethom ymgysylltu ymlaen llaw â rheolyddion,

---

[22] Gofal mwy diogel i bawb - atebion o reoleiddio proffesiynol a thu hwnt| PSA

Cofrestrau Achrededig, cyrff proffesiynol a chleifion i lunio’r cynigion y byddem yn eu cyflwyno ar gyfer ymgynghoriad. Yn ogystal, buom yn gweithio mewn partneriaeth â Chymdeithas y Cleifion i gynnal grwpiau ffocws gyda chleifion a defnyddwyr gwasanaeth i sicrhau bod eu barn yn cael ei chlywed.

3.86 Fel rhan o’r ymgynghoriad, cyhoeddom ‘alwad am dystiolaeth’ i helpu nodi’r newidiadau y mae angen inni eu gwneud i’r Safonau. Mae hyn yn rhan o’n prosiect Ailffocysu rheoleiddio ac mae’n darparu ffordd i ni edrych ar faterion a nodwyd yn Gofal Mwy Diogel i Bawb, megis y tensiwn rhwng creu diwylliannau cyfiawn yn y gweithle a’r angen i gynnal systemau atebolrwydd unigol, y mae rheoleiddio proffesiynol yn rhan allweddol ohonynt. Yn fwy cyffredinol, nod y prosiect yw nodi ffyrdd y gall rheoleiddio atgyfnerthu ei swyddogaethau ataliol, a chyfyngu ar unrhyw ganlyniadau anfwriadol negyddol, megis ofn addasrwydd i ymarfer, a allai fod yn gweithio yn erbyn ei ddiben craidd o ddiogelu’r cyhoedd.

3.87 Ar ôl i ymgynghoriad yr Adolygiad Safonau ddod i ben ym mis Mai 2025, byddwn yn cynnal rhagor o ymgysylltu wedi’i dargedu. Byddwn hefyd yn adolygu ac yn dadansoddi'r dystiolaeth a gyflwynwyd i lywio argymhellion am newidiadau i'r Safonau.

### Strategaethau rheoleiddio i gefnogi newid yn y gweithlu

3.88 Nododd Gofal Mwy Diogel i Bawb yr angen am ddull mwy strategol o ymdrin â pholisi rheoleiddio, fel ei fod yn cyd-fynd â newid gweithlu diogel ac wedi’i gynllunio i’w alluogi. Rydym wedi bod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i drafod ffyrdd y gall strategaethau rheoleiddio gefnogi gwelliannau mewn gofal, ac i sicrhau cefnogaeth i’n hymagwedd mewn meysydd polisi allweddol.

3.89 Er enghraifft, rydym wedi bod yn ymgysylltu ag NHS England ar eu gwaith i ddatblygu fframwaith arweinyddiaeth a rheolaeth, fel ei fod yn cael ei lywio gan ddealltwriaeth o reoleiddio proffesiynol. Defnyddiwyd ein hymateb[23] hefyd i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar reoleiddio rheolwyr y GIG yn Lloegr i annog dull cydgysylltiedig a strategol o wneud penderfyniadau yn y maes hwn.

### Ymchwil ar god ymddygiad cyffredin

3.90 Yng ngoleuni canfyddiadau’r adroddiad Gofal Mwy Diogel i Bawb am ba mor ganolog yw diwylliant y gweithle i ansawdd a diogelwch gofal, roeddem am archwilio, drwy ymchwil canfyddiadau, fanteision ac anfanteision posibl cod ymddygiad cyffredin. Comisiynwyd yr ymchwil hwn gennym yn 2023, a chyhoeddwyd[24] yr adroddiad, ynghyd â datganiad sefyllfa ym mis Tachwedd 2024.

3.91 Archwiliodd yr ymchwil farn y cyhoedd, unigolion cofrestredig a rhanddeiliaid ehangach ar gyflwyno cod cyffredin a’i fanteision tebygol. Canfu, er y byddai rhai manteision i gael un cod ymddygiad ar draws proffesiynau iechyd a gofal, na fyddai o reidrwydd yn lleihau cymhlethdod. Roedd risg hefyd y byddai angen gwanhau cod cyffredin i gwmpasu cymaint o broffesiynau ac mor amrywiol.

3.92 Adolygom ganfyddiadau’r adroddiad yn ogystal â’r safbwyntiau a rannwyd gan randdeiliaid a daethom i’r casgliad na fyddai’r gwaith sydd ei angen i oresgyn yr heriau hyn yn cael ei

[23] Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar Arwain y GIG: cynigion i reoleiddio rheolwyr y GIG | PSA
[24] Safbwyntiau ar God Ymddygiad Cyffredin ar gyfer Gweithwyr Iechyd a Gofal Proffesiynol | PSA

gyfiawnhau gan fanteision posibl cod cyffredin. Yn lle hynny, gellid sicrhau manteision tebyg drwy ddefnydd doeth o ddatganiadau ar y cyd gan reolyddion a, lle bo'n berthnasol, cofrestrau achrededig. Bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda'r rheolyddion yn ystod 2025/26 i ddatblygu dull o flaenoriaethu a chytuno ar ddatganiadau ar y cyd.

## Cyngor a thystiolaeth reoleiddiol

### *Ymgysylltu a chyngor polisi ledled y Deyrnas Unedig*

3.93 Fe wnaethom barhau i gyflawni yn erbyn ein Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid 2023-26 ar draws pedair gwlad y DU i rannu ein syniadau ar ddull strategol o ddatblygu polisi rheoleiddio i gefnogi twf ac arloesedd.

3.94 Rydym wedi parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid ar draws y sector i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein swyddogaethau statudol gan gynnwys drwy gyfarfodydd rheolaidd, yn ogystal â siarad a mynychu digwyddiadau allanol fel cynhadledd flynyddol y Cyngor ar Drwyddedu, Gorfodi a Rheoleiddio (CLEAR) a'r Fforwm Diogelwch Cleifion.

3.95 Ar 25 Chwefror 2025, cynhaliwyd ein seminar blynyddol ar gyfer Cofrestrau Achrededig. Roedd y digwyddiad yn gyfle i Gofrestrau gyfrannu at yr Adolygiad Safonau ac i ddatblygiad Cynllun Strategol yr Awdurdod 2026-29.

3.96 Ymatebwyd i 21 o ymgynghoriadau a galwadau am farn gan gyrff eraill. Cynhaliwyd tri chyfarfod o'n Fforwm Polisi hefyd, gan gwmpasu pynciau fel deallusrwydd artiffisial a rheoleiddio, ein hymchwil a gomisiynwyd ar fanteision ac anfanteision posibl cod ymddygiad cyffredin, a data atgyfeirio addasrwydd i ymarfer.

3.97 Ym mis Ionawr 2025, gofynnwyd i'n Prif Weithredwr ymddangos gerbron Ymchwiliad Thirlwall, a sefydlwyd i archwilio digwyddiadau yn Ysbyty Countess of Chester a arweiniodd at euogfarnau'r cyn-nyrs newyddenedigol Lucy Letby o lofruddio a cheisio llofruddio babanod. Cafodd ei alw i roi tystiolaeth ar safonau ac atebolrwydd rheolwyr y GIG, a'r ddyletswydd gonestrwydd. Roedd y cwestiynau hyn yn arbennig o bwysig i'r Ymchwiliad wrth iddo ystyried sut i gryfhau trefniadau atebolrwydd ar gyfer uwch reolwyr.[25]

### *Camymddygiad rhywiol*

3.98 Yn ogystal â'r trafodaethau yn ein cynhadledd ymchwil, rydym wedi bod yn cynnal cyfres o weminarau fel rhan o brosiect ar gamymddwyn rhywiol gan weithwyr iechyd a gofal proffesiynol. Mae'r sesiynau hyn wedi bod yn gyfle i glywed gan siaradwyr arbenigol ar wahanol agweddau o'r broblem hon, a byddant yn parhau yn 2025/26. Yn Ch3 rydym yn bwriadu dod â'r mewnwelediadau sydd wedi dod i'r amlwg drwy'r trafodaethau hyn ynghyd a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant yn y dyfodol o ran atal, canfod a thrin y digwyddiadau hyn pan fyddant yn codi.

[25] Cylch gorchwyl | Ymchwiliad Thirlwall

### *Lloegr*

3.99 Mae gwaith sy’n benodol i bob un o bedair gwlad y DU wedi’i nodi yn yr adran hon, gan ddechrau gyda Lloegr.

3.100 Mae’r Llywodraeth wedi bod yn datblygu cynigion ar gyfer rheoleiddio rheolwyr y GIG yn Lloegr, a chyflwynodd ymgynghoriad cyhoeddus yn hwyr yn 2024. Fel y soniwyd uchod, fe wnaethom ymateb i’r ymgynghoriad hwn, gan gytuno bod angen sicrwydd ychwanegol, o ran codi safonau a chryfhau atebolrwydd. Ochr yn ochr â hyn, rydym hefyd wedi bod yn ymgysylltu â GIG Lloegr ar eu gwaith i ddatblygu fframwaith arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer rheolwyr, i roi persbectif rheoleiddio proffesiynol.

3.101 Buom hefyd yn ymgysylltu ag ymgynghoriad Newid y GIG. Amlygodd ein hymateb ysgrifenedig i’r alwad am syniadau bwysigrwydd ystyried sut y gallai rheoleiddio gefnogi’r newidiadau i’r gweithlu y byddai eu hangen i roi’r ‘tri newid’ ar waith.

### *Gogledd Iwerddon*

3.102 Ym mis Mawrth 2025, fe wnaethom gynnal digwyddiad yn Belfast ‘Gweithwyr Proffesiynol a’r Cyhoedd: Mewn Partneriaeth ar gyfer Diogelwch Cleifion’, a gynhaliwyd gennym ar y cyd â Chyngor Cleifion a Chleientiaid Gogledd Iwerddon (PCC).

3.103 Adeiladodd y digwyddiad ar sgyrsiau parhaus, gan ganolbwyntio ar sut y gallem wella diogelwch cleifion trwy gofleidio’r cyhoedd fel asedau a datblygu diwylliant y gweithle. Mae'r pynciau a drafodir yn cynnwys gonestrwydd mewn gofal iechyd, gwrando ar y cyhoedd a'u cynnwys er diogelwch a phwysigrwydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

3.104 Buom yn cydweithio â’r PCC gan fod gennym amcanion sefydliadol cyflenwol o ddiogelu’r cyhoedd a chynrychioli buddiannau’r cyhoedd mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd y digwyddiad yn llwyddiannus iawn a chafwyd llawer o adborth cadarnhaol. Roedd gennym dros 75 o fynychwyr yn rhithwir ac yn bersonol, yn dod o amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys Adran Iechyd Gogledd Iwerddon, ymddiriedolaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol, yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd (RQIA) yn ogystal ag amrywiol elusennau a rheolyddion ar draws y sector. Gwahoddwyd y cyhoedd i fod yn bresennol hefyd, a chafwyd cyfraniadau hynod werthfawr a phersonol ganddynt i’r trafodaethau.

### *Yr Alban*

3.105 Roeddem yn gyfranwyr ar y cyd, ynghyd â’r rheolyddion a oruchwyliwn, i Gynhadledd Rheoleiddio Llywodraeth yr Alban, a gynhaliwyd yn Glasgow ym mis Tachwedd. Y thema oedd “Rôl Rheoleiddio yng Ngweithlu’r Dyfodol”, ac roedd yr Awdurdod yn ymwneud â chynnal dwy sesiwn, gan gynnwys un ar ein dull Strategaeth Reoleiddio. Roedd y digwyddiad yn gyfle pwysig i rannu ein syniadau ag ystod eang o randdeiliaid yn yr Alban, ac i ystyried sut y gallwn barhau i alinio ein gwaith â’r heriau a’r cyfleoedd yn y rhan hon o’r Deyrnas Unedig.

3.106 Gwnaethom ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth yr Alban ar reoleiddio triniaethau cosmetig nad ydynt yn llawfeddygol, gan gefnogi’r dull gweithredu arfaethedig, a oedd yn ymddangos yn gymesur ac yn cyd-fynd â’r hyn a gynigiwyd ar gyfer Lloegr mewn

ymgynghoriad yn 2023. Gobeithiwn y bydd y cynigion hyn yn cael eu gweithredu heb oedi gormodol.

### *Cymru*

3.107 Ym mis Mawrth cynhaliwyd ein hwythfed seminar 'Datblygiadau Rheoleiddiol a'r Cyd-destun Cymreig', a gynhelir ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Roedd digwyddiad eleni yn archwilio sut y gall rheoleiddio proffesiynol hyrwyddo diwylliant diogelwch. Roedd y digwyddiad yn cynnwys un ar ddeg o wahanol siaradwyr yn cynrychioli ystod eang o sefydliadau, gan gynnwys grwpiau cleifion, rheolyddion, cyflogwyr gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, undebau, a darparwyr hyfforddiant. Daeth dros 100 o bobl o bob rhan o Gymru a thu hwnt i'r digwyddiad, a oedd yn cynnwys cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg drwyddi draw.

3.108 Ym mis Gorffennaf 2024, cynhaliwyd ein cyfarfod Bwrdd yng Nghaerdydd. Ochr yn ochr â hyn, cynhaliom sesiwn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn canolbwyntio ar wella diwylliant y gweithle, ac ystyried meysydd lle mae diwylliant y gweithle a rheoleiddio proffesiynol yn croestorri. Roedd hyn yn cynnwys ystyried codau ymddygiad, rheoleiddio rheolwyr y GIG, a mynd i'r afael ag ymddygiad gwahaniaethol ac amhriodol. Roedd amrywiaeth o randdeiliaid o bob rhan o Gymru yn bresennol yn y sesiwn ford gron.

3.109 Yn dilyn cyfarfod y Bwrdd a'r ford gron rhanddeiliaid, cynhaliwyd cyfarfodydd dwyochrog gyda rhai o'n partneriaid allweddol yng Nghymru, gan gynnwys Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Phrif Weithredwr Llais.

### *Codi ymwybyddiaeth a gwella ein sianeli cyfathrebu*

3.110 Lansiwyd ein gwefan newydd ym mis Ionawr 2025. Roedd hwn yn brosiect mawr gyda'r nod o gael gwefan sy'n amlygu ein gweithgareddau a'n hadnoddau yn well, yn haws i ddefnyddwyr ei llywio ac yn gwella hygyrchedd ein cynnwys. Fel rhan o'r broses ddatblygu, casglwyd adborth gan randdeiliaid allanol (gan gynnwys grŵp amrywiol o gleifion/defnyddwyr gwasanaeth) ar ein hen wefan ac awgrymwyd gwelliannau i'w hymgorffori yn yr un newydd. Mae adborth cychwynnol yn dangos bod rhanddeiliaid o'r farn bod y wefan newydd yn haws ei defnyddio, yn hygyrch ac yn fwy deniadol.

3.111 Cynhaliom ymgyrch i annog ymarferwyr sy'n rhan o'r rhaglen Cofrestrau Achrededig i arddangos eu Marc Ansawdd i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr eu hadnabod. Dilynwyd hyn gan hysbysebion wedi'u hanelu at ddefnyddwyr yn hyrwyddo manteision diogelwch cleifion y rhaglen a'u hannog i chwilio am y Nod Ansawdd wrth geisio gwasanaethau iechyd a gofal.

3.112 Ym mis Gorffennaf 2024 fe gyflwynom System Rheoli Rhanddeiliaid (SRM) newydd i'w defnyddio ar draws y sefydliad. Mae'r SRM yn ein galluogi i rannu gwybodaeth am randdeiliaid yn haws a gwella cydgysylltu ar draws timau o ran sut rydym yn rheoli perthnasoedd â rhanddeiliaid. Oherwydd y gallu i gadw gwybodaeth gyfoethocach gan ddefnyddio'r system, bydd yn cefnogi dull mwy soffistigedig o reoli'r perthnasoedd hynny wrth symud ymlaen.

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI)

3.113 Rydym yn parhau i weithio tuag at ein dau amcan cydraddoldeb, sef datblygu ein harweinyddiaeth EDI ac adeiladu gweithle cynhwysol.

3.114 Roedd ein cynllun gweithredu EDI ar gyfer 2024/2025 yn cynnwys 14 cam allweddol ar gyfer eleni: wyth cam gweithredu i symud ymlaen â’n hamcan i ddatblygu ein harweinyddiaeth EDI a chwe cham gweithredu pellach i symud ymlaen â’n gwaith ar adeiladu gweithle cynhwysol. Ymhlith y canlyniadau allweddol a welwyd o gyflawni’r cynllun gweithredu EDI eleni mae:

- Gwerthusiad parhaus o berfformiad EDI rheolyddion a chofrestrau achrededig yn erbyn ein safonau EDI
- Archwiliad mewnol o'n pwerau i apelio o dan brosesau Adran 29 i nodi unrhyw ragfarnau posibl mewn prosesau
- Ymchwil defnyddwyr wedi'i gomisiynu i ddeall y rhwystrau a'r galluogwyr i gyflwyno cwyn i reolyddion a chofrestrau achrededig
- Dadansoddiad o'n data EDI ar addasrwydd i ymarfer a phanelwyr adolygu perfformiad
- Grwpiau ffocws, mewn partneriaeth â Chymdeithas y Cleifion, gyda set amrywiol o gleifion a defnyddwyr gwasanaeth i gasglu mewnbwn ar ein Hadolygiad Safonau
- Datblygu a chyflwyno rhaglen hyfforddi EDI
- Cyflwyno rhaglen gynhwysiant yn dathlu ac yn nodi digwyddiadau cenedlaethol allweddol ar gyfer EDI trwy gydol y flwyddyn.

### TG

3.115 Yn 2024/25 cwblhawyd camau archwilio diogelwch TG cynhwysfawr gennym yn llwyddiannus, oedd yn cynnwys adolygiadau polisi, profion treiddiad trwyadl a chynllunio parhad busnes system. Yn ogystal, fe weithredom system Rheoli Perthynas â Rhanddeiliaid a lansio'r wefan gorfforaethol newydd.

## Crynodeb ariannol

3.116 Roedd ein hincwm gweithredu ar gyfer 2024/25 yn cynnwys £4.869 miliwn mewn ffioedd a dalwyd gan y rheolyddion a £1.201 miliwn o incwm heb fod yn ffioedd. Yn 2023/24 ein cyllid oedd £4.637 miliwn o ffioedd a godwyd gan y rheolyddion a £1.006 miliwn o gyllid nad yw’n ffioedd.

3.117 Ar 31 Mawrth 2025, gwnaethom gario ymlaen gyfanswm cronfeydd wrth gefn o £2.308 miliwn, yr oedd £0.884 miliwn ohono yn anghyfyngedig a £1.424 miliwn yn gyfyngedig (2023/24: £2.355 miliwn i gyd, £0.807 miliwn anghyfyngedig a £1.548 miliwn yn gyfyngedig), ar ôl diffyg o £0.047 miliwn (2023/24: diffyg gweithredu net o £0.047 miliwn). Dychwelom £0.290 miliwn i'r rheolyddion yn ymarfer cynllunio busnes 2024/25 (£0.100 miliwn yn 2023/24). Cyfrifir gwariant gweithredu ar gyfer 2024/25 yn net o ffioedd a dderbyniwyd gan y rheolyddion, a gofnodir fel incwm yn unol ag IFRS 15.

3.118 Dangosir disgrifiad o bolisïau cyfrifyddu yn nodyn 1 y cyfrifon.

## Tryloywder

3.119 Rydym yn ymroddedig i ddarparu gwybodaeth i’r cyhoedd.

3.120 Cynhelir ein polisi taliad credydwr yn unol â Pholisi Taliad Gwell y llywodraeth, sydd ar hyn o bryd yn darparu tâl ar gyfer cyflenwyr o fewn pum niwrnod gwaith i dderbyn anfoneb, ac eithrio ble gall fod ymholiad neu anghydfod am anfoneb.

3.121 Mae’r targed hwn yn heriol, yn arbennig i sefydliad bach fel ni, a dim ond trwy gyflogi mwy o staff y gellid cyflawni hyn. Felly, ein nod yw talu 60% o anfonebau diamheuol o fewn pum niwrnod a 100% o fewn 10 niwrnod.

3.122 Yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25, talwyd 99% (yn ôl nifer yr anfonebau) a 97% (yn ôl gwerth anfonebau) mewn 10 diwrnod a 46% (yn ôl nifer yr anfonebau) a 47% (yn ôl cyfanswm gwerth yr anfoneb) o fewn pum diwrnod. Ceir manylion ein cofnod taliadau ar ein gwefan.

3.123 Ni thalwyd unrhyw log dan y Ddeddf Taliadau Hwyr o Ddyledion Masnachol (Llog) 1998.

3.124 Y balans oedd yn ddyledus i gredydwyr masnach ar 31 Mawrth 2025 oedd £144,013. (2023/24: balans net £18,718). Fel cyfran o’r cyfanswm a anfonebwyd gan gyflenwyr yn y flwyddyn, mae hyn yn cyfateb i 25.20 diwrnod (2023/24: 6.04 diwrnod). Mae hyn oherwydd cynnydd yn nifer yr anfonebau cyflenwyr sydd wedi cynyddu'r gyfradd brosesu.

3.125 Mae gwybodaeth arall y gellir ei gweld ar adrannau datgeliad a thryloywder llywodraeth ein gwefan yn cynnwys:

- Gwariant dros £25,000
- Treuliau aelodau’r Bwrdd
- Treuliau’r tîm gweithredol
- Lletygarwch.

## Cynaliadwyedd

3.126 Mae Defra wedi rhoi eithriad i ni rhag adrodd ar wybodaeth gynaliadwyedd o dan Ymrwymiadau Gwyrddu’r Llywodraeth, o dan y meini prawf de minimis. Mae’r Awdurdod yn cyflogi llai na 50 o staff Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) ac yn defnyddio arwynebedd llawr swyddfa o 3123 troedfedd sgwâr. O ganlyniad, nid ydym wedi cynnwys adroddiadau cynaliadwyedd yn yr adroddiad blynyddol hwn.

3.127 Fodd bynnag, rydym yn ceisio lleihau effaith ein gweithgareddau ar yr amgylchedd. Crynhoir y defnydd o drydan a dŵr yn y tabl canlynol.

| | 2024/25 | 2023/24 |
|---|---|---|
| **Trydan** | 12430 kWh | 13215 kWh |
| **Dŵr** | 244.67 $m^3$. | 274.54 $m^3$ |

3.128 Mae gan ein adeilad Dystysgrif Perfformiad Ynni gradd B, yn unol â'r Safonau Isafswm Effeithlonrwydd Ynni (MEES). Ystyrir bod yr eiddo'n cydymffurfio â MEES.

3.129 Mae glanhau ac ailgylchu ein swyddfa yn cael ei wneud gan Greenzest. Mae Greenzest wedi bod yn garbon niwtral ers 2021. Maent yn defnyddio dulliau cynaliadwy o ddosbarthu nwyddau glanhau ac eitemau traul ac yn cyflwyno cerbydau dosbarthu trydan. Maent wedi partneru â BioHygiene sy'n cynhyrchu asiantau glanhau sy'n seiliedig ar blanhigion sy'n effeithiol ac yn gyfeillgar i'r amgylchedd.

3.130 Rydym wedi rhoi cyfleusterau ar waith i wahanu gwastraff i’w ailgylchu, ac i annog staff i wneud hyn, nid oes unrhyw wastraff yn cael ei gasglu o finiau wrth ddesgiau. Mae gwastraff yn cael ei wahanu i ailgylchadwy, nid i’w ailgylchu a gwastraff bwyd. Mae ein

contractwr, Greenzest, yn gwahanu'r deunyddiau ailgylchu cymysg. Nid oes unrhyw wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi. Mae gwastraff na ellir ei ailgylchu yn cael ei losgi.

3.131 Yn 2024/25, cafodd 75% o’r holl wastraff ei ailgylchu, cafodd 25% ei adennill (o wastraff i ynni ) ac aeth 0% i safleoedd tirlenwi.

3.132 Rydym yn ceisio lleihau effaith ein gweithgareddau ar yr amgylchedd. Pan fyddwn yn prynu offer, rhoddir ystyriaeth i ddefnydd ynni. Defnyddiwn ddeunydd wedi ei ailgylchu ble bynnag fo’n bosibl a’i fod yn cynnig gwerth am arian.

3.133 Rydym yn parhau i geisio lleihau’r defnydd o bapur trwy wneud y defnydd gorau posibl o’n safle mewnrwyd a gwefan i ddosbarthu gwybodaeth. Rydym hefyd yn defnyddio fersiynau electronig o bapurau cyfarfod ble fo’n dechnegol ymarferol. Ble defnyddir papur, rydym yn anelu at leihau defnydd ohono trwy reolaeth weithredol o argraffwyr yn gorfodi argraffu dwyochrog.

## Hawliau dynol

3.134 Rydym yn ymroddedig i barchu hawliau dynol fel yr ymgorfforwyd yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol a’i ddau gyfamod cyfatebol, Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol a’r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol.

3.135 Rydym yn ymdrechu i sicrhau nad ydym yn troseddu ar hawliau dynol, yn osgoi cymryd rhan mewn tramgwyddau ar hawliau dynol eraill, ac yn cydymffurfio gyda chyfreithiau'r gwledydd yr ydym yn gweithio ynddynt.

## Gwrthlygredd a gwrthlwgrwobrwyaeth

3.136 Rydym yn ymroddedig i gyflawni ein gwaith mewn modd onest a moesol. Yn unol â Deddf Llwgrwobrwyo 2010, rydym yn gweithredu llywodraethu trwy weithredu a gorfodi polisïau a gweithdrefnau cadarn i ddiogelu yn erbyn unrhyw ymddygiad anghyfreithiol.

3.137 Mae ein polisi chwythu’r chwiban yn cael ei adolygu’n flynyddol gan ein Pwyllgor Archwilio a Risg a’n neges i’n staff yw y bydd unrhyw faterion a godir yn cael eu trin gyda’r pwys mwyaf.

3.138 Mae ein polisi Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Llygredd yn cael ei adolygu’n flynyddol gan ein Pwyllgor Archwilio a Risg ac mae’n cynnwys ystyriaeth o’r meysydd busnes risg uchel fel caffael.

## Risg

3.139 Ceir manylion hyn ym mharagraffau 4.21 to 4.24.



Alan Clamp

Swyddog Cyfrifyddu

1 Gorffennaf 2025

## 4. Adroddiad Atebolrwydd

### Adroddiad llywodraethu corfforaethol

4.1 Sefydlir ein trefniadau llywodraethu mewn Fframwaith Llywodraethu ffurfiol sy'n disgrifio'r amrywiol rolau a chyfrifoldebau yn yr Awdurdod.

### Adroddiad y Cyfarwyddwyr

4.2 Mae gennym dîm gweithredol fel y nodir isod, yn ymdrin â'n tri maes gwaith: Gwasanaethau Corfforaethol; Polisi a Chyfathrebu; a Rheoleiddio ac Achredu.

4.3 Mae cofrestr buddiannau Swyddogion Gweithredol[26] ac Anweithredol[27] ar gael ar ein gwefan.

4.4 Mae cyfarwyddwyr yn aelodau o staff ac yn cael eu talu yn unol â pholisïau staff.

| | |
|---|---|
| Alan Clamp | Prif Weithredwr |
| Jane Carey | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| Graham Mockler | Cyfarwyddwr Rheoleiddio ac Achredu |
| Melanie Venables | Cyfarwyddwr Polisi a Chyfathrebu |

#### *Y Bwrdd*

4.5 Mae'r Bwrdd yn cynnwys saith aelod anweithredol ac un aelod gweithredol. Ni all unrhyw aelodau anweithredol o'n Bwrdd fod nac erioed wedi bod yn aelod o broffesiwn a reoleiddir gan unrhyw un o'r 10 rheoleiddiwr a oruchwylir gennym, fel ein bod yn awdurdod annibynnol o broffesiynau a rheolyddion iechyd a gofal cymdeithasol. Ym mis Mai 2024, penodwyd ein hail aelod Cyswllt o'r Bwrdd am dymor o ddwy flynedd.

4.6 Y Bwrdd yw ein fforwm penderfyniadau uchaf, ble trafodir materion strategol a gweithredol arwyddocaol, ac y gwneir penderfyniadau canlyniadol.

4.7 Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb corfforaethol am sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol ac am hyrwyddo defnydd effeithiol ac effeithlon o'i adnoddau.

4.8 I'r diben hwn, ac ar drywydd ei gyfrifoldebau corfforaethol ehangach, mae'r Bwrdd:

- Yn gosod cyfeiriad strategol cyffredinol yr Awdurdod o fewn statud a'r fframwaith polisi ac adnoddau
- Yn sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw ofynion statudol neu weinyddol i ddefnyddio cyllid cyhoeddus; ein bod yn gweithredu o fewn terfynau ein hawdurdod statudol, ac yn unol ag unrhyw amodau eraill yn ymwneud â defnydd o gyllid cyhoeddus
- Yn sicrhau ein bod yn derbyn ac adolygu gwybodaeth ariannol reolaidd parthed rheolaeth yr Awdurdod; yn cael ei hysbysu mewn modd amserol am unrhyw bryderon

[26] https://www.professionalstandards.org.uk/sites/default/files/attachments/Directors%20Register%20of%20Interests%20January%202025.pdf
[27] https://www.professionalstandards.org.uk/sites/default/files/attachments/Board%20members%20Register%20of%20Interests%20February%202025.pdf

am weithgareddau'r sefydliad; ac yn darparu sicrwydd positif y cymerwyd camau priodol ar bryderon o'r fath

- Yn arddangos safonau uchel o lywodraethu corfforaethol ar bob adeg, yn cynnwys sefydlu pwyllgor archwilio i'w helpu i ddelio â risgiau ariannol allweddol ac eraill sy'n ei wynebu
- Penodi'r Prif Weithredwr. Yn gosod amcanion perfformiad a thelerau cydnabyddiaeth sy'n gysylltiedig â'r amcanion hyn ar gyfer y Prif Weithredwr, sy'n rhoi pwys dyledus ar reoli a defnyddio arian cyhoeddus yn briodol.

4.9 Yn hanesyddol, gwnaed penodiadau i'r Bwrdd am gyfnod cychwynnol o bedair blynedd, y gellid ei ymestyn am ail dymor. Ni ddylai cyfanswm yr amser a wasanaethir fod yn fwy nag wyth mlynedd. Yn 2024, adolygodd y Bwrdd hyn a chytunwyd y dylid lleihau cyfnodau penodi i dair blynedd.

4.10 Rhodda Atodlen 7 Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 gyfarwyddiadau ar gyfer penodi aelodau i'r Awdurdod.

4.11 Ail-benodwyd Caroline Corby gan y Cyfrin Gyngor yn Gadeirydd ar 1 Chwefror 2025.

4.12 Ceir manylion penodiadau'r Bwrdd a pwy sy'n eu gwneud yn y tabl isod.

4.13 Ceir manylion swyddi cyfarwyddwyr a buddiannau arwyddocaol sydd gan y Bwrdd yn y gofrestr buddiannau ar ein gwefan.

*Aelodau'r Bwrdd*

| Aelod o'r Bwrdd | Penodwyd gan | Term |
|---|---|---|
| Caroline Corby (Cadeirydd) | Cyfrin Gyngor (ailbenodwyd 2025) | 1 Mawrth 2021 hyd 28 Chwefror 2028 |
| Frances Done CBE | Cyfrin Gyngor (ailbenodwyd 2021) | 1 Ionawr 2017 hyd 31 Gorffennaf 2024 |
| Thomas Frawley CBE | Adran Iechyd Gogledd Iwerddon (ailbenodwyd 2021) | 1 Ionawr 2017 hyd 31 Rhagfyr 2024 |
| Moiram Ali | Gweinidogion yr Alban (ailbenodwyd 2021) | 1 Ionawr 2017 hyd 31 Rhagfyr 2024 |
| Marcus Longley | Gweinidogion Cymru (ailbenodwyd 2021) | 1 Mai 2017 hyd 30 Ebrill 2025 |
| Alan Clamp | Bwrdd yr Awdurdod (2018) | Amh Aelod gweithredol |
| Amrat Khorana (Aelod Cyswllt) | Bwrdd yr Awdurdod | 2 Mai 2022 hyd 01 Mai 2024 |
| Juliet Oliver | Cyfrin Gyngor | 1 Ionawr 2023 hyd 31 Rhagfyr 2026 |
| Nick Simkins | Cyfrin Gyngor Penodwyd yn Gadeirydd ARC 2024 | 1 Mawrth 2023 hyd 30 Mehefin 2028[28] |
| Candace Imison | Cyfrin Gyngor | 1 Medi 2024 hyd 31 Awst 2027 |
| Geraldine Campbell | Adran Iechyd Gogledd Iwerddon | 01 Ionawr 2025 – 31 Rhagfyr 2027 |
| Ali Jarvis | Gweinidogion yr Alban | 01 Ionawr 2025 – 31 Rhagfyr 2027 |
| Ruth Ajayi (Cydymaith) | Bwrdd yr Awdurdod | 7 Mai 2024 hyd 06 Mai 2026 |

4.14 Mae ein Prif Weithredwr yn weithiwr i'r Awdurdod. Prif swyddogaethau, dyletswyddau a phwerau'r Prif Weithredwr yw:

- I sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau statudol
- I baratoi a chyhoeddi safonau rheoleiddio da
- I drefnu cyhoeddi cyngor ac arweiniad polisi
- I anfon adroddiad blynyddol i'r Senedd ar berfformiad y rheolyddion a oruchwylir gennym
- I gadw cyfrifon cywir a chofnodion cywir parthed y cyfrifon, i baratoi datganiad o gyfrifon parthed pob blwyddyn ariannol, ac i anfon copi o'r cyfrifon blynyddol at y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

[28] Penodwyd Nick Simkins yn Gadeirydd ARC o 1 Gorffennaf 2024 ac felly estynnwyd ei dymor i 30 Mehefin 2028.

- Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb dros ddarparu arweinyddiaeth effeithiol ar bob mater yn ymwneud â dyletswyddau statudol a gweinyddol. Mae hyn yn cynnwys gweithredu'r strategaeth, arwain ar faterion gweithredol, hyrwyddo defnydd effeithiol ac effeithlon o staff ac adnoddau eraill, annog safonau uchel o gywirdeb a chynrychioli’r Awdurdod yn gyhoeddus.


## Datganiad o Gyfrifoldebau’r Swyddog Cyfrifyddu

4.15 Mae'r Cyfrin Gyngor wedi penodi’r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys ei gyfrifoldeb ar gyfer cywirdeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus mae’n atebol amdanynt ac am gadw cofnodion cywir. Gan fod yr Awdurdod yn endid a ddosberthir i lywodraeth ganolog ac yn rhan o ffin gyfrifo’r Adran Iechyd, mae’n cydymffurfio â’r egwyddorion a nodir ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu Cyrff Cyhoeddus Anadrannol a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi ac a gyhoeddwyd yn ‘Managing Public Money’.

4.16 Dan Atodlen 7 Paragraff 15 Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y’i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a’r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, mae’r Cyfrin Gyngor wedi cyfeirio’r Awdurdod i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf a’r sail a gyfarwyddir gan y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae’n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa’r Awdurdod ynghyd â’i incwm a’i wariant, Datganiad Sefyllfa Ariannol a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

4.17 Wrth baratoi’r cyfrifon, mae’n ofynnol i’r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn neilltuol:

- Arsylwi'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan y Cyfrin Gyngor, gan gynnwys y gofynion perthnasol o ran cadw cyfrifon a datguddiadau, a gweithredu polisïau cyfrifyddu perthnasol a’u defnyddio’n gyson
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- Paratoi’r cyfrifon ar sail gweithredu fel busnes parhaus
- Datgan a gyflawnwyd y safonau cyfrifyddu cymwys fel y’u nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw achosion perthnasol o beidio â gwneud hynny yn y cyfrifon
- Cadarnhau bod yr Adroddiad a’r Cyfrifon Blynyddol ar y cyfan yn deg, cytbwys a dealladwy a chymryd cyfrifoldeb am yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol a’r penderfyniadau gofynnol i bennu ei fod yn deg, cytbwys a dealladwy.
- Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd pob cam posibl i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr yr Awdurdod Safonau Proffesiynol yn ymwybodol o’r wybodaeth honno. Felly hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw’r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.



Alan Clamp
Swyddog Cyfrifyddu
1 Gorffennaf  2025

## Datganiad llywodraethu

### *Cwmpas cyfrifoldeb*

4.18 Fel Swyddog Cyfrifyddu i'r Awdurdod, rwy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad ein polisïau, nodau ac amcanion wrth ddiogelu arian ac asedau sefydliadol yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt. Rwy'n talu sylw gofalus i'r canllaw a sefydlwyd yn Managing Public Money.

4.19 Rydym yn adrodd i Senedd y Deyrnas Unedig ac yn cydweithio'n agos â'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr ac i'r Adran Addysg i gyflenwi'n hoblygiadau statudol ac amcanion allweddol ein cynllun busnes. Mae hyn yn cynnwys nodi ac ymateb yn briodol i risgiau mewnol ac allanol.

### *Cydymffurfiad â chod llywodraethu corfforaethol Trysorlys Ei Mawrhydi*

4.20 Rydym wedi cydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol Trysorlys Ei Mawrhydi cyn belled â'i fod yn berthnasol i ni.

### *Dull rheoli risg a'r Gofrestr risgiau*

4.21 Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol yn adolygu'r gofrestr risg strategol yn fisol. Ystyrir y gofrestr wedi ei ddiweddaru gan y Pwyllgor Archwilio a Risg (ARC), ac yna gan y Bwrdd. Bydd risgiau yn cael eu hychwanegu, diweddaru neu ddileu tu allan i'r broses hon wrth i'r angen godi.

4.22 Mae'r risgiau mwyaf arwyddocaol ar gyfer 2024/25 yn parhau o'r flwyddyn flaenorol ac yn ymwneud â:

- Ôl-groniadau Addasrwydd i Ymarfer, yn arbennig y gallent beryglu effeithiolrwydd rheoleiddiol ac felly leihau diogelwch y cyhoedd
- Nid yw diwygio rheoleiddio yn parhau neu ei fod yn cael ei weithredu'n wael, gan leihau effeithiolrwydd rheoleiddio a lleihau diogelwch y cyhoedd
- Dulliau anghyson o gael mynediad at wiriadau cofnodion troseddol, a'r risg y gallai hynny arwain at unigolyn sy'n peri risg i ddiogelwch cleifion yn gallu cofrestru
- Mae canfyddiadau Adolygiad Diwylliant Annibynnol yr NMC yn awgrymu bod materion sy'n effeithio ar berfformiad rheolyddion a allai arwain at risgiau diogelu'r cyhoedd nad ydynt yn cael sylw.

4.23 Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol yn datblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol ac yn darparu sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg, sydd yn ei dros yn darparu cyngor strategol i'r Bwrdd, ble cynhelir cyfrifoldeb cyffredinol bod trefniadau'r Awdurdod yn effeithiol.

4.24 Mae elfennau allweddol y system reolaeth fewnol yn cynnwys:

- Gweithdrefnau ariannol yn manylu rheoliadau ariannol, ar gyfer y cyfrifoldebau ac awdurdodau a ddirprwywyd i'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol
- Prosesau cynllunio busnes yn sefydlu amcanion yr Awdurdod, wedi eu cefnogi gan incwm blynyddol manwl, gwariant, cyfalaf a chyllidebau llif arian

- Adolygiadau rheolaidd o berfformiad, ynghyd ag adrodd amrywiant, cynllunio senario ac ail-ddarogan
- Y fframwaith sicrwydd.

*Fframwaith sicrwydd*

4.25 Mae’r fframwaith sicrwydd yn fodd i roi sicrwydd i aelodau’r Bwrdd sut rydym yn gweithredu.

4.26 Mae'r fframwaith wedi'i nodi yn nhermau'r model tair llinell amddiffyn. Mae’r fframwaith wedi ei strwythuro o amgylch y meysydd llywodraethu da hynny a fydd angen cymorth ar bob adeg, yn hytrach nag amcanion blynyddol y Bwrdd a fydd yn esblygu’n barhaus.

4.27 Mae’r dulliau sicrwydd a restrir yn fewnbynnau y mae’r Bwrdd yn defnyddio i ddyfarnu ar eu lefel sicrwydd. Nid yw’r fframwaith yn anelu i fod yn rhestr hollgynhwysol nac yn offeryn i’r gweithgor gyflawni gweithrediadau.

*Cadeirydd y Bwrdd*

4.28 Mae gan y Cadeirydd gyfrifoldeb arweinyddiaeth ar y materion canlynol:

- Arwain y Bwrdd o ran llunio ein strategaeth
- Sicrhau bod y Bwrdd, wrth wneud ei benderfyniadau, yn cymryd sylw dyledus o unrhyw ganllaw perthnasol
- Hyrwyddo defnydd effeithiol, economaidd, ac effeithlon o adnoddau, yn cynnwys staff
- Annog safonau uchel o gywirdeb
- Sicrhau fod y Bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn a bod cofnodion y cyfarfodydd yn gofnod cywir o’r penderfyniadau a wnaed a, ble fo’n briodol, trafodaethau'r Bwrdd
- Sicrhau yr adroddir yn flynyddol ar waith yr Awdurdod i'r Senedd fel sy'n ofynnol dan statud.

*Presenoldeb yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd*

4.29 Cynhaliwyd chwech cyfarfod o’r Bwrdd rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

4.30 Roedd presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn ystod 2024/25 fel a ganlyn:

| Aelod o’r Bwrdd | Nifer o gyfarfodydd a fynychwyd | Posibl |
|---|---|---|
| Caroline Corby (Cadeirydd) | 6 | 6 |
| Frances Done CBE | 2 | 2 |
| Thomas Frawley CBE | 3 | 3 |
| Moiram Ali | 4 | 4 |
| Marcus Longley | 6 | 6 |
| Alan Clamp | 6 | 6 |

| | | |
|---|---|---|
| Juliet Oliver | 6 | 6 |
| Nick Simkins | 5 | 6 |
| Candace Imison | 3 | 3 |
| Ruth Ajayi | 6 | 6 |
| Geraldine Campbell | 2 | 2 |
| Ali Jarvis | 2 | 2 |

4.31 Yn ystod y flwyddyn a adolygir, roedd y Bwrdd yn weithredol o ran sicrhau y cynhaliwyd ein swyddogaethau statudol a bod y risgiau yr oeddem yn eu hwynebu yn cael sylw. Cyflawnodd hyn trwy ddefnydd effeithiol a monitro’r gofrestr risg a fframwaith sicrwydd a thrwy fod yn wyliadwrus ynglŷn ag ansawdd ein hallbynnau.

4.32 Mae’r Bwrdd yn hyderus ei fod yn dal i dderbyn adroddiadau priodol, cyflawn a pherthnasol gan y gweithgor i sicrhau y gall gyflawni ei rôl strategol ac y gall ddal y gweithgor yn atebol. Darperir sicrwydd ansawdd gan y Pwyllgor Craffu a’r Pwyllgor Archwilio a Risg, sy’n adrodd i’r Bwrdd. Mae’r Bwrdd hefyd yn adolygu'r holl bapurau polisi ac adroddiadau allweddol cyn cyhoeddi i sicrhau eu bod yn bodloni’r safonau uchel disgwyliedig. Mae’r Bwrdd yn derbyn adroddiadau ariannol ym mhob cyfarfod ac yn adolygu’r gofrestr risg ddwywaith y flwyddyn.

4.33 Mae'r Bwrdd yn talu sylw arbennig i gyflawniad ein hymchwiliadau ac adolygiadau arbennig ac yn sicrhau ei hun yn ofalus ynghylch ansawdd yr adroddiadau terfynol.

4.34 Mae’r Bwrdd yn chwarae rôl bwysig o ran sefydlu’r cyfeiriad strategol ar gyfer yr Awdurdod ac mae’n ystyried hyn a materion eraill cysylltiedig yn ei digwyddiad cynllunio blynyddol.

4.35 Mae’r Bwrdd hefyd yn adolygu ei berfformiad ei hun yn rhan o’i gynllunio strategol. Yn chwarter olaf 2023/24, cwblhawyd hunanasesiad o effeithiolrwydd y Bwrdd. Roedd y canfyddiadau'n gadarnhaol iawn. Canfu'r hunanasesiad fod y Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithredu'n effeithiol a gwnaeth nifer o argymhellion ar gyfer gwelliannau pellach. Datblygwyd cynllun gweithredu yn seiliedig ar hyn ar gyfer 2024/25 a chwblhawyd yr holl gamau gweithredu.

4.36 Mae cynnal ansawdd ein gwaith yn ystyriaeth bwysig i’r Bwrdd. Mae’n cyfrannu i gyhoeddiadau ac adroddiadau cyn eu cyhoeddi ac yn cymryd diddordeb mewn ymchwil ac mewn datblygiad polisi.

4.37 Mae’r Bwrdd hefyd yn adolygu gwybodaeth a dderbynia am ein perfformiad gan bartïon allanol yn cynnwys y rheolyddion statudol, y Cofrestrau Achrededig, yr Adrannau Iechyd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon a’r Adran Addysg yn Lloegr.

4.38 Mae holl aelodau’r Bwrdd yn cael eu harfarnu yn flynyddol gan y Cadeirydd ac yn gallu rhoi sylw ar berfformiad y Cadeirydd a’r Prif Weithredwr. Mae'r Cadeirydd yn cael ei arfarnu gan y Dirprwy Gadeirydd, gan ddefnyddio adborth gan aelodau'r Bwrdd, uwch aelodau o staff a rhanddeiliaid allanol.

4.39 Mae manylion sicrwydd ansawdd wedi ei ddirprwyo i’r Pwyllgor Craffu ac i’r Pwyllgor Archwilio a Risg. Adroddwn ar eu gweithgareddau ar wahân. Adolygir Cylch Gorchwyl y ddau bwyllgor yn flynyddol.

## Pwyllgorau a gweithgorau'r Bwrdd

### *Pwyllgor Archwilio a Risg*

4.40 Mae gan y Bwrdd Bwyllgor Archwilio a Risg i'w gefnogi yn ei gyfrifoldebau i reoli risg a llywodraethu. Mae'r pwyllgor yn arolygu pa mor gynhwysfawr yw sicrwydd o ran bodloni anghenion sicrwydd y Bwrdd a'r Swyddog Atebolrwydd ac adolygu dibynadwyedd a chywirdeb y sicrwydd hwn.

4.41 Cynhaliwyd pedwar cyfarfod Pwyllgor Archwilio a Risg rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

4.42 Roedd presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y pwyllgor yn ystod 2024/2025 fel a ganlyn:

| Aelod o'r pwyllgor | Nifer o gyfarfodydd a fynychwyd | Posibl |
|---|---|---|
| Frances Done CBE | 2 | 2 |
| Tom Frawley | 2 | 3 |
| Nick Simkins | 4 | 4 |
| Ruth Ajayi | 3 | 3 |
| Geraldine Campbell | 1 | 1 |

4.43 Adroddir ar gofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor yn ffurfiol i'r Bwrdd yn ogystal â barn y Pwyllgor ar y gofrestr risg a'r newidiadau a wnaed iddi.

4.44 Mae'r Pwyllgor yn adolygu ei Gylch Gorchwyl a rhaglen waith yn flynyddol ac yn adrodd unrhyw newidiadau y bydd yn cynnig i'r Bwrdd. Pob blwyddyn, mae'n adrodd yn ffurfiol i'r Bwrdd ar:

- Ei waith yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf
- Asesiad o drefniadau llywodraethu gwybodaeth
- Yr adroddiadau archwiliad mewnol a gyflwynwyd iddo
- Barnau'r archwilwyr.

4.45 Mae'r Pwyllgor yn gosod ei raglen waith ei hun ar gyfer y flwyddyn i ddod ac mae hyn yn dylanwadu ar y rhaglen waith a osodir gan yr archwilwyr mewnol.

4.46 Fel arfer, bydd y Bwrdd yn dirprwyo cymeradwyaeth derfynol o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon i'r Pwyllgor hwn.

### *Archwiliad mewnol*

4.47 RSM oedd ein harchwilwyr mewnol ar gyfer 2024/2025.

4.48 Roedd y gwaith archwilio mewnol ar gyfer eleni yn canolbwyntio ar:

- Proses gwneud penderfyniadau adran 29 (a29)
- Cofrestrau Achrededig
- Rheoliadau ariannol allweddol
- Ennyn ymlyniad rhan-ddeiliaid a chyfathrebu.

*Cofrestrau Achrededig*

4.49 Derbyniodd yr adolygiad hwn Sicrwydd Rhesymol. Gwnaed dau argymhelliad blaenoriaeth ganolig. Roedd un yn ymwneud â diweddaru canllawiau i adlewyrchu newidiadau yn y Safonau, a'r ail oedd creu rhestr wirio i gasglu cofnodion asesu. Rhoddwyd yr holl argymhellion ar waith erbyn mis Tachwedd 2024.

*Rheoliadau Ariannol Allweddol*

4.50 Derbyniodd yr adolygiad hwn Sicrwydd Rhesymol. Gwnaed un argymhelliad blaenoriaeth Uchel a thri Chanolig. Y flaenoriaeth uchel oedd gweithredu gwiriadau annibynnol ar gyfer cyflenwyr newydd. Roedd y lleill i fod i ddiweddaru cyfarwyddiadau, dangos tystiolaeth o gysoniadau ac adolygu'r rhestr o ddirprwyaethau. Rhoddwyd yr holl argymhellion ar waith erbyn mis Mawrth 2025.

*Proses gwneud penderfyniadau a29*

4.51 Derbyniodd yr adolygiad hwn Sicrwydd Rhesymol. Gwnaethpwyd un argymhelliad blaenoriaeth Ganolig i ddiweddaru'r canllawiau proses i gynnwys manylion prosesau Awdurdod i sicrhau yr ystyrir EDI drwy gydol y broses a29.

*Ymgysylltu â rhanddeiliaid*

4.52 Derbyniodd yr adolygiad Sicrwydd Rhesymol. Gwnaed pedwar argymhelliad blaenoriaeth Canolig a phedwar argymhelliad blaenoriaeth Isel. Roedd y pedwar argymhelliad blaenoriaeth ganolig yn ymwneud â darparu arweiniad/hyfforddiant ar ddefnyddio'r system Rheoli Cofnodion Rhanddeiliaid (SRM), adolygu gweithrediad y system SRM, datblygu cynllun gweithredu yn dilyn dadansoddiad o'r arolwg rhanddeiliaid, datblygu proses adrodd ffurfiol.

***Pwyllgor Craffu***

4.53 Mae'r Pwyllgor Craffu yn derbyn adroddiadau ar ein gweithrediad craffu a throsolwg o'r 10 rheoleiddiwr gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a'r Cofrestrau Achrededig. Mae hefyd yn darparu sicrwydd ansawdd ar benderfyniadau Adran 29 a'r rhaglen Cofrestrau Achrededig ac adolygiadau perfformiad y rheolyddion.

4.54 Cynhaliwyd pedwar cyfarfod Pwyllgor Craffu rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

4.55 Roedd presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y pwyllgor yn ystod 2024/25 fel a ganlyn:

| Aelod o'r pwyllgor | Nifer o gyfarfodydd a fynychwyd | Posibl |
|---|---|---|
| Marcus Longley | 4 | 4 |
| Moiram Ali | 3 | 3 |
| Juliet Oliver | 4 | 4 |

| | | |
|---|---|---|
| Amrat Khorana | 1 | 1 |
| Candace Imison | 1 | 1 |

*Penodiadau i gynghorau rheolyddion*

4.56 Yn ystod blwyddyn gyda gweithgarwch penodi uwch na'r arfer, ystyriodd y Pwyllgor Craffu adroddiadau ar weithgarwch penodi diweddar ym mhob un o'i bedwar cyfarfod. Adolygodd y Pwyllgor hefyd y gwaith a wnaed mewn prosesau penodi mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant er mwyn creu darlun o ba un a yw amrywiaeth aelodaeth cynghorau yn gwella. Y casgliad cyffredinol oedd, er bod gwaith i'w wneud o hyd, mae cynghorau wedi gwneud gwelliannau sylweddol yn amrywiaeth eu haelodaeth ac yn eu hymagwedd at eu prosesau. Yn dilyn hynny, gofynnodd y Pwyllgor am opsiynau i roi cyhoeddusrwydd i'r gwaith hwn, gan arwain at gyhoeddi blog ar ein gwefan. Roedd hyn yn cynnwys enghraifft o arfer da a gyfrannwyd gan y GPhC.

*Adolygiad o benderfyniadau terfynol addasrwydd i ymarfer (awdurdodaeth Adran 29 yr Awdurdod)*

4.57 Ym mhob cyfarfod, derbyniodd y Pwyllgor Craffu ddiweddariad ar gynnydd apeliadau a llwyth achosion presennol y tîm. Mae adolygiad o brosesau Adran 29 yn mynd rhagddo, gyda'r Pwyllgor yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd ar unrhyw newidiadau, a disgwylir adroddiad terfynol yn ddiweddarach yn 2025. Bu'r Pwyllgor yn ystyried a chymeradwyo cynllun peilot cyfarfodydd achos a fydd yn rhedeg o fis Ebrill i fis Hydref 2025, gyda'r Pwyllgor yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd ar ei gynnydd ac yn cymeradwyo unrhyw newidiadau parhaol a argymhellir ar ôl iddo ddod i ben. Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr archwiliad EDI allanol a gynhaliwyd o brosesau ac achosion Adran 29 a'i argymhellion.

*Adolygiad perfformiad blynyddol y rheolyddion*

4.58 Derbyniodd y Pwyllgor Craffu adroddiadau rheolaidd ar gynnydd Adolygiadau Perfformiad. Parhaodd y Pwyllgor â'i arolygiaeth o'n gwaith adolygu perfformiad mewn perthynas ag amseroldeb prosesau addasrwydd i ymarfer y rheolyddion, sy'n parhau i fod yn bryder difrifol. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ystyried sut y gallwn gael cipolwg pellach ar y digwyddiadau mewnol o fewn y cyrff rheoleiddio.

4.59 Roedd y Pwyllgor wedi goruchwylio'r prosiect Adolygu Safonau, gan gymeradwyo'r cynllun i fabwysiadu dull cydgysylltiedig o adolygu'r Safonau Rheoleiddio Da a'r Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig. Dyma'r tro cyntaf i'r Awdurdod fabwysiadu'r dull hwn.

4.60 Cymeradwyodd y Pwyllgor y newidiadau i'r broses uwchgyfeirio a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2025, sy'n symud y broses o wneud penderfyniadau i'r panel ac oddi wrth y Pwyllgor a'r Bwrdd. Roedd y Pwyllgor o'r farn ei bod yn briodol i'r penderfyniad ar uwchgyfeirio gael ei wneud gan y rhai sy'n gwneud y penderfyniad ar y Safonau.

*Cofrestrau Achrededig*

4.61 Cyflawnodd y Pwyllgor Craffu ei graffu ar y rhaglen Cofrestrau Achrededig. Derbyniodd ddiweddariadau cynnydd ar geisiadau yn mynd trwy asesiadau cychwynnol ac adolygiadau blynyddol o achrediad. Adolygodd y Pwyllgor samplau o benderfyniadau achredu fel rhan o'i drosolwg.

4.62 Adolygodd y Pwyllgor waith cyfathrebu a sganio’r gorwel y rhaglen yn ei gyfarfodydd. Adolygodd y Pwyllgor hefyd ddiweddariadau i ddogfennau gweithredol, gan gynnwys y canllawiau ar Adnewyddu Achredu, a chyflawnodd archwiliad dwfn i gysondeb y broses o wneud penderfyniadau yn ystod y rownd gyntaf o asesiadau yn erbyn Safon 9 (Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant)

## Rheoliadau cynllun pensiwn

4.63 Fel cyflogwr, mae gan ein staff hawl i aelodaeth o Gynllun Pensiwn y GIG neu NEST. Mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau y cydymffurfir â holl rwymedigaethau cyflogwyr a gynhwysir yn y ddau gynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau fod didyniadau o gyflogau, cyfraniadau cyflogwr a thaliadau i’r cynlluniau yn unol â’r rheolau a bod cofnodion cynllun pensiwn aelodau yn cael eu diweddaru’n gywir yn unol â’r amserlen a fanylir yn y rheoliadau.

## Trin data

4.64 Mae’n system o reolaeth fewnol yn seiliedig ar Fframwaith Polisi Diogelwch Llywodraeth EF ac rydym yn parhau i fonitro ac adolygu ein cydymffurfiad â hyn.

4.65 Ychydig o wybodaeth bersonol a gedwir gennym. Mae’r prif fath o ddata personol sydd gennym yn ymwneud â’n staff ein hun. Mae’n ofynnol i staff weithio trwy fynediad o bell i'n gweinydd ac mae dilysiadau aml-ffactor ar waith i ddarparu haen arall o ddiogelwch.

4.66 Mae staff yn parhau i gyflawni cyfuniad o hyfforddiant ar-lein ‘Diogelu Gwybodaeth’ y llywodraeth a hyfforddiant diogelwch gwybodaeth mewnol yr Awdurdod. Mae’r hyfforddiant ‘Diogelu Gwybodaeth’ yn seiliedig ar asesiad.

4.67 Rhaid i’r holl staff gwblhau’r lefel sy’n briodol i’w lefel o gyfrifoldeb ar gyfer trin data. Cwblhaodd pob aelod o staff yr hyfforddiant yn 2024/25.

4.68 Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi darparu datganiad ei fod yn fodlon bod gennym bolisïau priodol i’r staff ddilyn, cyn belled â’u bod yn berthnasol i’r Awdurdod, a bod prosesau priodol yn eu lle i liniaru risgiau i’n gwybodaeth.

4.69 Paratowyd y datganiad hwn wedi ystyriaeth o Asesiad Blynyddol yr Awdurdod o Reolaeth Risg Gwybodaeth ar gyfer 2024/25 a’r sicrwydd a geir trwy hynny.

4.70 Ni chyrhaeddodd unrhyw ddigwyddiadau data personol y trothwy i’w hadrodd i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn 2024/25.

## Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth

4.71 Mae safonau swyddogaethol yn nodi beth sydd angen ei wneud, a pham, ar gyfer gwahanol fathau o waith swyddogaethol. Maent wedi’u mandadu i’w defnyddio mewn adrannau a’u cyrff hyd braich ers mis Mawrth 2022. Mae’r Awdurdod yn cydymffurfio â holl elfennau'r safon sy'n berthnasol iddo.

## Pwrpas y system rheolaeth fewnol

4.72 Cynlluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risg i'r graddau y bo hynny'n rhesymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu cyflawni polisïau, amcanion a nodau; felly gall roi sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gall ei wneud, ond nid sicrwydd llwyr.

4.73 Mae'r system o reolaeth fewnol wedi ei chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion sefydliadol, i werthuso'r tebygolrwydd y cyflawnir y risgiau hynny a'r effaith pe byddant yn cael eu cyflawni, ac i'w rheoli'n effeithiol, effeithlon ac economaidd.

4.74 Mae'r system o reolaeth fewnol wedi bod yn weithredol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a chyfrifon blynyddol ac yn cyd-fynd â chanllaw Trysorlys EF. Mae elfennau allweddol y system reolaeth fewnol yn cynnwys:

- Gweithdrefnau ariannol yn manylu rheoliadau ariannol ar gyfer cyfrifoldebau dros, ac awdurdodaeth a ddirprwywyd i, y tîm Gweithredol
- Prosesau cynllunio busnes sy'n nodi amcanion Awdurdod wedi'u hategu gan fanylion cyllidebau incwm, gwariant, cyfalaf a llif arian blynyddol
- Adolygiadau rheolaidd o berfformiad ynghyd ag adrodd amrywiant, cynllunio senario ac ail-ddarogan.

## Adolygu effeithiolrwydd

4.75 Fel Swyddog Atebolrwydd, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Hysbysir fy adolygiad o waith yr archwilwyr mewnol, a'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y rheoliadau mewnol, a sylwadau gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Bwrdd wedi fy nghynghori o oblygiadau canlyniadau fy adolygiad ar y system o reolaeth fewnol.

4.76 Cynhaliwyd ac adolygwyd effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol trwy:

- Bwrdd yr Awdurdod, a gyfarfu chwech o weithiau
- Y Pwyllgor Archwilio a Risg, sy'n cynnwys tri aelod o'r Bwrdd. Rwyf hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ynghyd â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, y Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth AD a Llywodraethu. Mae cynrychiolwyr o'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'n harchwilwyr mewnol hefyd yn bresennol
- Trefniadau rheoli risg sy'n nodi risgiau allweddol allai effeithio ar gyflawniad ein hamcanion a bod y risgiau hynny wedi eu rheoli'n weithredol, gan adrodd ar gynnydd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg a, thrwyddo, i Fwrdd yr Awdurdod
- Ein hasesiad blynyddol o reolaeth risg gwybodaeth a gyflawnwyd yn unol â chanllaw Swyddfa'r Cabinet
- Adroddiadau rheolaidd gan yr archwilwyr mewnol, RSM, yn cydymffurfio gyda Safonau Archwilio Mewnol y llywodraeth
- Sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol, yr NAO, yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.


4.77 RSM fu ein harchwilwyr mewnol ar gyfer y flwyddyn dan sylw. Dywedodd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn ei adroddiad ar gyfer 2024/2025: 'Mae gan y sefydliad fframwaith

digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Fodd bynnag, mae ein gwaith wedi nodi gwelliannau pellach i'r fframwaith rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddigonol ac yn effeithiol'.

4.78 Nid wyf o'r farn fod gennym wendidau arwyddocaol yn ein system o reoliadau mewnol. Mae rhaglen o fonitro rheolaidd yn bodoli, mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Archwilio a Risg, archwilwyr mewnol ac archwilwyr allanol, i sicrhau ein bod yn bodloni safonau arfer gorau ym mhob maes o'n gweithrediadau.

4.79 Mae ein fframwaith sicrwydd yn cael ei monitro ynghyd â'r gofrestr risg gan y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Bwrdd. Ystyrir dylanwadau mewnol ac allanol gan drafod unrhyw risgiau allai fod yn arwyddocaol gyda rhanddeiliaid allweddol cyn gynted ag y'i gwelir. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi adolygu ein fframwaith sicrwydd yn ystod y flwyddyn i sicrhau ei fod yn darparu lefel briodol o sicrwydd i'r Pwyllgor a'r Bwrdd.

4.80 Rwy'n fodlon bod yr asesiad blynyddol o reoli risg gwybodaeth yn adlewyrchu'r risgiau gwybodaeth yr ydym wedi eu rheoli'n ddigonol a'n bod wedi ystyried risgiau yn y dyfodol. Ystyriaf ein bod wedi cymryd y camau angenrheidiol i reoli risgiau gwybodaeth yn effeithiol. Rwy'n hyderus fod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i storio, rhannu a dinistrio gwybodaeth yn ddiogel.



Alan Clamp

Swyddog Cyfrifyddu

1 Gorffennaf 2025

## Adroddiad cydnabyddiaeth a staff

### *Polisi tâl*

4.82 Mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn ymdrin â materion cydnabyddiaeth y Bwrdd a staff.

4.83 Yn gyffredinol fe gynigir cytundebau cyflogaeth parhaol. Os y'i cynigir ar sail cyfnod sefydlog, mae hyn i adlewyrchu natur a chyd-destun y gwaith dan sylw. Pennir y cyfnod hysbysiad gofynnol gan swydd y deiliad.

### *Pwyllgor Enwebiadau*

4.84 Mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn sicrhau bod gan yr Awdurdod aelodaeth Bwrdd priodol trwy oruchwylio perfformiad y Bwrdd a recriwtio ar gyfer y Bwrdd.

4.85 Cynhaliwyd tri chyfarfod Pwyllgor Enwebiadau rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Dangosir presenoldeb aelodau isod.

| Aelod o'r Bwrdd | Nifer o gyfarfodydd a fynychwyd | Posibl |
|---|---|---|
| Caroline Corby | 3 | 3 |
| Frances Done CBE | 1 | 1 |
| Marcus Longley | 3 | 3 |
| Nick Simkins | 2 | 2 |

### *Cytundebau uwch reolwyr*[29]

| Enw | Teitl | Dyddiad cytundeb | Tymor heb ddod i ben | Cyfnod rhybudd |
|---|---|---|---|---|
| Alan Clamp | Prif Weithredwr | 01 Tachwedd 2018 | Contract parhaol | 6 mis |
| Jane Carey | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | 11 Ionawr 2021 | Contract parhaol | 3 mis |
| Graham Mockler | Cyfarwyddwr Rheoleiddio ac Achredu | 01 Ebrill 2023 | Contract parhaol | 3 mis |
| Christine Braithwaite | Cyfarwyddwr Polisi a Chyfathrebu | 18 Gorffennaf 2023 – 5 Gorffennaf 2024[30] | Contract parhaol | 3 mis |
| Melanie Venables | Cyfarwyddwr Polisi a Chyfathrebu | 01 Gorffennaf 2024 | Contract parhaol | 3 mis |

[29] Staff Gwasanaeth Sifil Uwch neu gyfatebol
[30] Roedd wedi ei chyflogi o'r blaen o 17 Mai 2010 i 16 Gorffennaf 2023, cyn cymryd 'opsiwn ymddeol a dychwelyd' y GIG

### Cyflogau uwch reolwyr[31] yn amodol ar archwiliad

| Enw | Cyflog 2024/25 £’000 | Taliadau treuliau (trethadwy) Cyfanswm £’000 | Tâl perfformiad a bonws £’000 | Hirdymor a bonws hirdymor £’000 | Holl fuddion sy'n ymwneud â phensiwn £’000 | CYFANS WM 2024/25 £’000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Alan Clamp | 195-200 | 0 | 0 | 0 | 54 | 250-255 |
| Jane Carey | 115-120 | 0 | 0 | 0 | 31 | 145-150 |
| Graham Mockler | 120-125 | 0 | 0 | 0 | 35 | 155-160 |
| Christine Braithwaite * | 30-35 | 0 | 0 | 0 | 1 | 30-35 |
| Melanie Venables** | 105-110 | 0 | 0 | 0 | 121*** | 225-230*** |

* Wedi ymddeol Gorffennaf 2024 (Cyfateb i flwyddyn lawn 120-125).

** Dechreuwr o 01/07/2024 (Cyfateb i flwyddyn lawn 110-115)

***Mae buddion sy'n gysylltiedig â phensiwn yn cynrychioli tua 3 blynedd o fuddion .

| Enw | Cyflog 2023/24 £’000 | Taliadau treuliau (trethadwy) Cyfanswm £’000 | Tâl perfformiad a bonws £’000 | Hirdymor a bonws hirdymor £’000 | Holl fuddion sy'n ymwneud â phensiwn £’000 | CYFANS WM 2023/24 £’000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Alan Clamp | 185-190 | 0 | 0 | 0 | 49 | 235-240 |
| Jane Carey | 110-115 | 0 | 0 | 0 | 28 | 135-140 |
| Christine Braithwaite | 125-130 | 0 | 0 | 0 | 0 | 125-130 |
| Graham Mockler | 115-120 | 0 | 0 | 0 | 31 | 145-150 |

4.86 Roedd pob uwch reolwr yn aelod o Gynllun Pensiwn y GIG ar 31 Mawrth 2025.

4.87 Mae cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog a buddion cysylltiedig â phensiwn a gyfrifir yn unol â chanllaw Pensiynau y GIG, sy’n ceisio meintoli’r cynnydd mewn buddion pensiwn yn y

[31] Staff Gwasanaeth Sifil Uwch neu gyfatebol

flwyddyn trwy gymharu'r buddion pensiwn cyffredinol ar ddechrau'r flwyddyn gyda'r rhai ar ddiwedd y flwyddyn. Ni chafwyd unrhyw gyflog sy'n gysylltiedig â pherfformiad heb ei gydgrynhoi buddion mewn da yn ystod 2024/25.

**Pensiynau yn amodol ar archwiliad**

| Enw | Teitl | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 60 oed (bandiau o £2,500) | Cynnydd gwirioneddol mewn cyfandaliad pensiwn yn 60 oed (bandiau o £2,500) | Cyfanswm y pensiwn a gronnwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth 2025 (bandiau o £5,000) | Cyfandaliad yn 60 oed yn gysylltiedig â phensiwn a gronnwyd ar 31 Mawrth 2025 (bandiau o £5,000) | Gwerth Trosglwyddo Cyfateb i Arian ar 1 Ebrill 2024 (i'r £1,000 agosaf) | Gwerth Trosglwyddiad yn Cyfateb i Arian ar 31 Mawrth 2025 (i'r £1,000 agosaf) | Cynnydd real yn y Gwerth Trosglwyddiad sy'n Cyfateb i Arian yn y flwyddyn a drodd (i'r £1,000 agosaf) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Alan Clamp | Prif Weithredwr | 2.5-5 | Amh* | 25-30 | Amh* | 334 | 426 | 45 |
| Jane Carey | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | 0-2.5 | Amh* | 10-15 | Amh* | 132 | 178 | 23 |
| Graham Mockler | Cyfarwyddwr Rheoleiddio ac Achredu | 2.5-5 | Amh* | 15-20 | Amh* | 175 | 218 | 16 |
| Christine Braithwaite ** | Cyfarwyddwr Safonau a Pholisi | 0-2.5 | 0-2.5 | 35-40 | 95-100 | 107 | Amh** | Amh** |
| CMelanie Venables*** | Cyfarwyddwr Polisi a Chyfathrebu | 5-7.5 | Amh* | 5-10 | Amh* | Amh*** | 76 | 72*** |

* Ddim yn berthnasol yng nghynllun 2008 a 2015.

**Dim gwerth CETV gan fod gweithiwr wedi cyrchu buddion Cynllun Pensiwn y GIG ar 16 Gorffennaf 2024.

*** Cychwynnwr o 1 Gorffennaf 2024, buddion pensiwn y flwyddyn flaenorol yn anhysbys

*Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod*

4.88 Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf prisiad yr actwari manteision cynllun pensiwn cronedig aelod ar bwynt penodol mewn amser. Y manteision a brisir yw manteision cronnol aelodau ac unrhyw bensiwn cymar dilynol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i

sicrhau manteision pensiwn mewn cynllun arall neu drefniant pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r manteision a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae a wnelo'r ffigurau pensiwn a ddangosir â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, ac nid dim ond y cyfnod a dreuliwyd mewn uwch swydd y mae'r datgeliad yn gymwys iddo.

4.89 Mae'r ffigwr CETV, ac o 2005/06, y manylion pensiwn eraill, yn cynnwys gwerth unrhyw fanteision pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall mae'r unigolyn wedi trosglwyddo i Gynllun Pensiwn y GIG. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fanteision pensiwn atodol i'r aelodau yn deillio o brynu blynyddoedd atodol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun o'u poced eu hunain. Cyfrifir CETV o fewn y canllawiau a fframwaith a ragnodwyd gan Sefydliad a Chyfadran yr Actwari.

*Cynnydd/(gostyngiad) gwirioneddol mewn CETV*

4.90 Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd/(lleihad) real yn CETV. Mae'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn cronnol oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogwr a'r gweithiwr (yn cynnwys gwerth unrhyw fanteision a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant arall) ac yn defnyddio ffactorau cyffredin gwerthuso'r farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

4.91 Ni thalwyd unrhyw iawndal i gyn uwch reolwyr na gwneud taliadau i drydydd parti ar gyfer gwasanaethau uwch reolwr.

4.92 Mae'r wybodaeth hon wedi ei harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

4.93 Nid oedd gan unrhyw uwch reolwr dreuliau oedd yn amodol i dreth yn y Deyrnas Unedig.

***Taliadau cydnabyddiaeth aelodau'r Bwrdd***

4.94 Mae'r Cadeirydd yn derbyn taliad cydnabyddiaeth o £37,719 y flwyddyn (2023/24: £36,269 y flwyddyn); mae aelodau Gweinyddiaethau Datganoledig yn derbyn tâl blynyddol o £10,924 (2023/24: £10,504), mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn derbyn tâl blynyddol o £14,709 (2023/24: £14,114), mae Cadeirydd y Pwyllgor Craffu yn derbyn tâl blynyddol o £14,709 (2023/24: £14,114). Mae aelodau eraill yn derbyn cydnabyddiaeth flynyddol o £8,824 (2023/24: £8,485). Daeth cyfanswm taliadau i aelodau trwy gydol y flwyddyn i £122,053 (2023/24: £118,667) yn cynnwys costau nawdd cymdeithasol.

4.95 Mae taliad cydnabyddiaeth aelodau yn amodol i dreth ac yswiriant gwladol trwy TWE.

4.96 Yn ogystal, ad-dalwyd costau yn dod i £5,754 (2023/24: £6,807) i aelodau'r Bwrdd. Mae costau teithio sy'n gysylltiedig â theithio i swyddfeydd yr Awdurdod yn destun treth, a delir gan Awdurdod ar eu rhan, drwy gytundeb â CThEF.

4.97 Datgelir taliadau a wnaed i aelodau unigol isod.

4.98 Nid oedd unrhyw aelodau o'r bwrdd yn aelodau o gynlluniau pensiwn y GIG neu NEST yn 2024/2025.

**Taliadau a wnaethpwyd i aelodau'r Bwrdd yr yn ystod 2024/25** **yn amodol ar archwiliad**

| | Cyflog 2024/25 (bandiau o £5,000) | 2024/25 Costau teithio (bandiau o £5,000) | Cyflog 2023/24 (bandiau o £5,000) | 2023/24 Costau teithio (bandiau o £5,000) |
|---|---|---|---|---|
| **Cadeirydd** | | | | |
| Caroline Corby | 35-40 | 0-5 | 35-40 | 0-5 |
| **Aelodau** | | | | |
| Frances Done CBE (Cadeirydd Archwilio a Risg) | 5-10 | 0-5 | 10-15 | 0-5 |
| Thomas Frawley CBE***** | 5-10 | 0-5 | 10-15 | 0-5 |
| Moiram Ali***** | 5-10 | 0-5 | 10-15 | 0-5 |
| Marcus Longley | 10-15 | 0-5 | 10-15 | 0-5 |
| Amrat Khorana****** | 0-5 | 0-5 | 5-10 | 0-5 |
| Juliet Oliver | 5-10 | 0-5 | 5-10 | 0-5 |
| Nick Simkins******* | 10-15 | 0-5 | 5-10 | 0-5 |
| Ruth Ajayi* | 5-10 | 0-5 | Amh | Amh |
| Candace Imison** | 5-10 | 0-5 | Amh | Amh |
| Alison Jarvis*** | 0-5 | 0-5 | Amh | Amh |
| Geraldine Campbell *** | 0-5 | 0-5 | Amh | Amh |

* Ymunodd 7fed Mai 2024

**Ymunodd 1af Medi 2024

***Ymunodd 1af Ionawr 2025

****Gadawodd 31ain Gorffennaf 2024

*****Gadawodd 31ain Rhagfyr 2024

******Gadawodd 3ydd Mai 2024

*******Cadeirydd Archwilio a Risg o 1af Gorffennaf 2024

## Adroddiad staff

4.100 Rydym oll yn ymroddedig i alluogi gweithwyr i gyflawni eu llawn botensial mewn amgylchedd a nodweddir gan urddas a pharch i'w gilydd. Mae ein polisïau cyflogaeth yn ceisio creu gweithle ble gall pob gweithiwr wneud ei orau a chyfrannu i'n llwyddiant ni a'u llwyddiant eu hunain. Fe adolygir y rhain a'u diweddaru'n rheolaidd gydag arbenigwyr allanol er mwyn sicrhau cydymffurfiad gyda deddfwriaeth.

4.101 Rydym yn defnyddio gwasanaethau Right Corecare, rydym wedi cael cydnabyddiaeth allanol fel cyflogwr ystyrlon ac mae gan ein staff i gyd fynediad at gymorth a chynghori os oes angen ac ystafell dawel fel gofod myfyriol.

4.102 Rydym wedi cyflawni Gwobr Gweithlu Iach Llundain i adlewyrchu ein hymroddiad i lesiant ein staff ac wedi derbyn Achrediad Hyderus o ran Anabledd Lefel 2.

4.103 Rydym yn cydnabod manteision busnes cael gweithlu amrywiol ac yn ymroddedig i gynnal diwylliant ble mae amrywiaeth a chydraddoldeb yn cael ei hyrwyddo'n weithredol a ble na oddefir gwahaniaethu. Rydym yn gweithredu polisi dethol teg ac agored ar gyfer ceisiadau am gyflogaeth a dyrchafiadau mewnol.

4.104 Ar ddiwedd 2024/25, roedd dau aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn fenywod (40%) (2023/24, 40%) tra'n gyffredinol, roedd 36 o weithwyr yn fenywod (71%) (2023/24, 71%).

4.105 Ceir rhagor o wybodaeth am y tîm gweithredol yn adran Taliadau'r adroddiad hwn.

4.106 Ein trosiant staff eleni oedd 10.5% [5/47.5]

### ***Datgeliadau cyflogau teg*** *yn amodol ar archwiliad*

4.107 Mae'n ofynnol i ni ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf (yn ein hachos ni, y Prif Weithredwr) a'r gweithwyr ar y 25ain, 50fed a'r 75ain canradd o gydnabyddiaeth ariannol gweithwyr yr endid ar gyfer y flwyddyn ariannol.

4.108 Mae hefyd yn ofynnol i ni ddatgelu

- Canran y newid ers y flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf (yn ein hachos ni, y Prif Weithredwr)
- Y newid canrannol cyfartalog o'r flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â gweithwyr yr endid a gymerwyd fel cyfan (ac eithrio'r Prif Weithredwr).

4.109 Tâl y Prif Weithredwr ym mlwyddyn ariannol 2024/25 oedd £197,500 (a gyfrifwyd fel canol y band) a £187,500 ym mlwyddyn ariannol 2023/24 (a gyfrifir fel canol y band) felly cafwyd cynnydd o 5.33% yn nhâl y Prif Weithredwr.

4.110 Y cynnydd canrannol cyfartalog o'r flwyddyn flaenorol mewn perthynas â chyfanswm cost gweithwyr yr endid a gymerwyd fel cyfan oedd 2.8%.

4.111 Roedd y wybodaeth am y gymhareb gyflog yn y flwyddyn 2024/25 (a 2023/24) fel a ganlyn:

| Blwyddyn | Cymhareb gyflog 25ain canradd | Cymhareb gyflog canolrifol | Cymhareb gyflog 75ain canradd |
|---|---|---|---|
| 2024/25 | 4.03:1 | 3.81:1 | 2.45:1 |
| 2023/24 | 3.98:1 | 3.57:1 | 2.60:1 |

4.112 Ni dderbyniodd unrhyw aelod o staff yr Awdurdod dâl perfformiad na bonysau yn 2024/25 (dim yn 2023/24), felly mae cyfanswm tâl a buddion staff (ac eithrio pensiynau) yn hafal i gydran cyflog tâl a buddion.

4.113 Roedd elfen cyflog a thâl cydnabyddiaeth y gweithlu ar y 25ain canradd oedd £49,016 (£47,131 yn 2023/24) a £51,899 (£52,534 yn 2023/24) a £80,732 (£72,082 yn 2023/24) ar y canolrif a 75ain canradd. Mae'r gydran cyflog yn unig a chyfanswm y gydnabyddiaeth yr un fath ar gyfer 2024/25 (a oedd yr un peth yn 2023/24).

4.114 Tâl y Prif Weithredwr ym mlwyddyn ariannol 2024/25 oedd £197,500 (a gyfrifwyd fel canol y band) (£187,500 yn 2023/24). Roedd hyn 3.81 (3.57 yn 2023/24) yn fwy na thâl canolrifol y gweithlu, sef £51,899 (£52,534 yn 2023/24).

4.115 Ni dderbyniodd unrhyw weithiwr dâl oedd yn fwy na'r Prif Weithredwr yn 2024/25 na 2023/24. Roedd tâl yn amrywio o £34,600 i £197,500 (2023/24: £33,269 i £187,500).

### *Absenoldeb salwch*

4.116 Collwyd cyfanswm o 158.5 niwrnod (2023/24 255.5 niwrnod) o ganlyniad i absenoldeb salwch yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i 3.5 niwrnod (2023/24 5.6 niwrnod) y pen.

### *Polisïau yn ymwneud ag anabledd*

4.117 Rydym yn ymroddedig i weithredu ein polisi cyfle cyfartal ar bob cam o recriwtio a dethol.

4.118 Rydym wedi ennill achrediad Hyderus o ran Anabledd lefel 2 ac wedi ymrwymo i Siarter y Cyflogwr Ystyriol.

4.119 Rydym yn gweithio i sicrhau:

- Y penodir yr ymgeisydd mwyaf addas i bob swydd, gan dalu sylw i wir anghenion y swydd
- Fod y broses yn agored, teg a gonest
- Ein bod yn gwneud addasiadau rhesymol i drechu rhwystrau wrth gynnal cyfweliadau a chyflogaeth
- Y rhoddir cyfle cyfartal i bob ymgeisydd
- Yr asesir ymgeiswyr mewnol ac allanol ar sail yr un meini prawf dethol
- Mae gwahaniaethu a rhagfarn wedi eu dileu o'r broses, i'r fath raddau ag y mae'n bosibl gwneud hynny
- Y bodlonir amcanion cyfreithiol, ac y dilynir arferion cyflogaeth da
- Mae ein ffurflen gais yn darparu adran ble gall ymgeiswyr posibl gadarnhau p'un a ydynt yn ystyried eu hunain i fod ag anabledd neu beidio ac os felly os ydynt angen gwneud addasiadau rhesymol.

4.120 Os caiff ei nodi ar y ffurflen gais, bydd pob ymgeisydd sy'n bodloni'r meini prawf dethol lleiaf ar gyfer swydd wag yn cael eu cyfweld o dan y Cynllun Hyderus o ran Anabledd.

4.121 Er ein bod yn ymroddedig i'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd, nid yw'r gofyniad hwn yn ymestyn i'r penderfyniad penodi, ble bydd yr unigolyn gorau ar gyfer y swydd yn cael ei benodi yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb.

### *Uchafbwyntiau Arolwg Staff 2024*

- Cyfradd ymateb 2024 oedd 68%, (84% ar gyfer 2023)

- Cyfradd bodlonrwydd cyffredinol oedd 80% (91% ar gyfer 2023).
- Roedd y canlyniadau'n dda ar y cyfan, gyda llawer o sylwadau cadarnhaol am y gwerthoedd sefydliadol a diwylliant yr Awdurdod. Dywedodd rhai aelodau o staff ei bod yn anodd rheoli beichiau gwaith ac ym mis Ionawr 2025, cynhaliodd yr holl staff gyfarfodydd unigol gyda rheolwyr llinell i geisio mynd i’r afael ag unrhyw faterion llwyth gwaith.

### *Iechyd a diogelwch yn y gweithle*

4.122 Mae gan yr Awdurdod bolisi iechyd a diogelwch yn y gwaith ac mae'r holl staff wedi derbyn cyflwyniad a hyfforddiant ar hyn.

4.123 Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau iechyd a diogelwch i'w hadrodd.

### *Perthynas undeb llafur*

4.124 Nid yw'r Awdurdod yn gysylltiedig ag unrhyw undeb llafur ac felly nid oes ganddo ddim i'w adrodd.

## Pobl

4.125 2024/25 oedd ail flwyddyn ein Strategaeth Pobl 2023-26. Y cyflawniadau allweddol ym mlwyddyn dau oedd:

- Cyflawni ein hail raglen profiad gwaith gyda’r nod o hyrwyddo cyfleoedd i bobl o gefndiroedd amrywiol gael profiad a dealltwriaeth o’r sector
- Penodi ein hail Aelod Cyswllt o'r Bwrdd
- Cynnal adolygiad dysgu a datblygu i nodi gofynion busnes ac unrhyw fylchau mewn dysgu hanfodol gan ddefnyddio cyfuniad o adborth o arfarniadau a'r Fforwm Ymgysylltu â Staff a oedd yn sail i’n cynllun hyfforddi 2024/25
- Gwella’r defnydd o offer e-gymorth i hyrwyddo lles staff megis adnoddau ar-lein gan gynnwys cyflwyno Vivup, ein platfform buddion staff newydd
- Gwella defnydd o becynnau e-ddysgu i wneud hyfforddiant rheolaidd ar feysydd allweddol yn hygyrch i bawb
- Diweddaru a gwella'r Polisïau sy'n Ystyriol o Deuluoedd gydag ymgynghoriad gan staff

4.126 Yn 2024/25 roedd yr holl staff yn gweithredu dan ein polisi hybrid gyda chyfuniad o weithio yn y cartref ac yn y swyddfa.

### *Niferoedd staff a chostau cysylltiedig*

*Nifer cyfartalog y bobl a gyflogwyd yn amodol ar archwiliad*

4.127 Mae cyfartaledd y nifer o staff llawn amser a rhan amser a gyflogir (yn cynnwys staff dros dro) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | Cyflogir yn barhaol | Arall | Cyfanswm 2024/25 | Cyflogir yn barhaol | Arall | Cyfanswm 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 47.52 | 0.84 | 48.36 | 45.54 | 0.15 | 45.69 |

4.128 Ni chyflogwyd unrhyw staff ar brosiectau cyfalaf yn y cyfnod i 31 Mawrth 2025.

***Costau personau a gyflogir** yn amodol ar archwiliad*

| | Cyflogir yn barhaol | Arall | Cyfanswm 2024/25 | Cyflogir yn barhaol | Arall | Cyfanswm 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyflogau | 3,104 | | 3,104 | 2,956 | | 2,956 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 348 | | 348 | 333 | | 333 |
| Costau pensiynau | 561 | | 561 | 505 | | 505 |
| Staff asiantaeth/ dros dro | | *92 | *92 | | 10* | 10* |
| **Cyfanswm** | **4,013** | ***92** | **4,105** | **3,794** | **10*** | **3,804** |

*Staff dros dro. Nid oedd unrhyw gostau ymgynghoriaeth yn 2024/25.

4.129 Ni thalwyd unrhyw becynnau ymadael yn 2024/25 (dim yn 2023/24).

4.130 Ni chododd unrhyw gostau diswyddo yn y flwyddyn ariannol 2024/25 (dim yn 2023/24).

4.131 Ni chyflogwyd unrhyw bersonau oddi ar y gyflogres nac ar sail ymgynghorol yn ystod y flwyddyn (dim yn 2023/24).

## Atebolrwydd seneddol ac adroddiad archwilio

### *Eglurhad*

*Colledion a thaliadau arbennig yn amodol ar archwiliad*

4.132 Roedd colledion a thaliadau arbennig yn unigol ac yn gyfan gwbl islaw'r trothwy adrodd o £300,000.

*Rheoleidd-dra gwariant yn amodol ar archwiliad*

4.133 Mae'r Awdurdod yn gweithredu gyda phedwar ffrwd gwaith penodol a adlewyrchir yn segmentiad ein cyfrifon:

- Gwaith rheoleiddiol a gosod safonau – a delir amdano trwy ffioedd a gesglir gan y rheolyddion
- Cofrestrau Achrededig – yn cael eu talu fel ffioedd gan y Cofrestrau Achrededig
- Comisiynau gan Lywodraeth(au) – telir amdanynt gan y corff comisiynu
- Cyngor i sefydliadau eraill – enillir trwy ffioedd.

4.134 Rhoddir cyfrif ar gyfer yr incwm a gwariant ar gyfer pob segmentiad ar wahân ac rydym yn gweithio i sicrhau nad oes unrhyw draws gymorthdalu.

*Ffioedd a thaliadau yn amodol ar archwiliad*

4.135 Darparodd y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 i'r Awdurdod gael ei ariannu gan y rheolyddion y mae'n eu goruchwylio.

4.136 Y swyddogaethau o fewn cwmpas y Rheoliadau Ffioedd yw'r rhai o fewn ein ffrwd waith gyntaf; sef goruchwylio rheoleiddio a gwaith gwella a gyflawnwyd parthed cyrff iechyd proffesiynol a reoleiddir dan statud.

4.137 Blwyddyn ariannol 2024/25 oedd y nawfed flwyddyn lawn yr ydym wedi ei gyllido'n bennaf trwy ffioedd. Bydd y cyfnod ffioedd ar gyfer 2025/26 rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026 yn cwmpasu’r un cyfnod â’n blwyddyn ariannol.

4.138 Rhoddir manylion y costau gweithredu cysylltiedig ar gyfer ein swyddogaeth rheoleiddio a gosod isod.

| **31 Mawrth 2025** | **Gwaith rheoleiddio a gosod safonau** |
|---|---:|
| | **£’000** |
| Costau gweithredu | 5,374 |
| Incwm gweithredol | (5,166) |
| **(Incwm) gweithredu net/gwariant** | **208** |

*Newidiadau i'n deddfwriaeth*

4.139 Mae posibiliad y gallai newidiadau i ddeddfwriaeth effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar ein gwaith. Byddai cyflwyno newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth naill ai i ni neu'r rheolyddion yn gofyn am ddadansoddiad ac ystyriaeth. Mae yna gynigion ar gyfer newidiadau i reoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, ond nid yw'r rhain wedi eu datblygu i gyflwr fyddai'n galluogi'r Awdurdod i ystyried yr effaith ar ein gwaith neu wariant ar hyn o bryd.

4.140 Gan dybio fod ein llwyth gwaith yn dal yn gyson gyda'r flwyddyn gyfredol, nid ydym yn rhagweld newidiadau arwyddocaol i'n gwariant.

4.141 Wrth ysgrifennu’r adroddiad hwn, rwy’n hyderus iawn ynghylch gallu’r sefydliad i barhau fel busnes gweithredol ac rwy’n rhagweld y bydd darpariaeth ein gwasanaeth yn parhau am y dyfodol rhagweladwy. Mae’r holl ffioedd gan y 10 rheoleiddiwr statudol ar gyfer 2025/26 wedi eu talu, sy'n cynrychioli oddeutu 88% o’r incwm disgwyliedig ar gyfer y flwyddyn. Mae'r rhaglen Cofrestrau Achrededig yn cyfrif am 12% yn unig o incwm yr Awdurdod. Ar hyn o bryd rydym yn dal cronfeydd anghyfyngedig o tua £884,000.

4.142 Mae’r Awdurdod yn parhau i gyflawni ei swyddogaethau statudol. Y newid mwyaf arwyddocaol yn ystod 2025/26 fydd amrywiaethau yn y nifer o achosion addasrwydd i ymarfer a ddaw gan y rheolyddion. Efallai y bydd yna newidiadau i amseriad a chwmpas adolygiadau perfformiad ar gyfer rhai rheolyddion yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag ar hyn o bryd, rwy'n rhagweld y byddwn yn cwblhau’r holl adolygiadau sydd ar y gweill o fewn y flwyddyn fusnes.

4.143 Yn olaf, nid wyf yn disgwyl unrhyw newidiadau polisi na deddfwriaeth arwyddocaol a fydd yn effeithio ar allu'r Awdurdod i barhau fel busnes gweithredol dros y 12 mis nesaf.



Alan Clamp,

Swyddog Cyfrifyddu

1 Gorffennaf 2025

## 5. TYSTYSGRIF Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL I'R SENEDD, SENEDD YR ALBAN, CYNULLIAD GOGLEDD IWERDDON A SENEDD CYMRU

### Barn ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025 o dan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y canlynol gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2025;
- Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o Lifoedd Arian Parod a Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y gyfraith gymwys a'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y Deyrnas Unedig yw'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel yr oedd ar 31 Mawrth 2025 ac o'r gwariant cynhwysfawr net am y flwyddyn ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 a chyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a ddyroddwyd odani.

### Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (UK) (ISAs UK), y gyfraith gymwys a Nodyn Ymarfer 10 *Audit of Financial Statements and Regularity of Public Sector Bodies in the United Kingdom (2022).* Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi'u disgrifio ymhellach yn yr adran *Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol* yn fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â *Revised Ethical Standard 2019* y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwy'n annibynnol ar yr Awdurdod Safonau Proffesiynol

ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig. Mae fy staff a mi wedi cyflawni'n cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Rwy'n credu bod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i sicrhau yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'm barn.

## Casgliadau ynglŷn â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi casglu bod defnydd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol ynglŷn â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth arwyddocaol ar allu'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Mae'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu ar gyfer yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi'i fabwysiadu drwy ystyried y gofynion a nodir yn *The Government Financial Reporting Manual* gan Drysorlys Ei Fawrhydi, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle rhagwelir y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth Arall

Gwybodaeth arall yw'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol a'm tystysgrif archwilio i ar y rhain.  Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall.

Nid yw fy marn i ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson mewn modd perthnasol â'r datganiadau ariannol neu â'm gwybodaeth i a sicrhawyd yn yr archwiliad, neu fel arall yn ymddangos fel pe bai wedi'i chamddatgan mewn modd perthnasol.

Os byddaf yn nodi anghysonderau perthnasol neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol o'r fath, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain.  Os byddaf, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod yna gamddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â  chyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a ddyroddwyd o dan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a wnaed o dan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002; ac
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt fel eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'i amgylchedd a sicrhawyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad ar Berfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd o ran y materion canlynol, sef materion yr wyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol neu nad oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi dod i law gan ganghennau nad ymwelodd fy staff â nhw; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- na wnaed datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth ariannol a bennir gan *The Government Financial Reporting Manual* gan Drysorlys Ei Fawrhydi neu nad yw'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys Ei Fawrhydi.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu dros y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, yr Awdurdod a'r Swyddog Cyfrifo sy'n gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;

- darparu mynediad i’r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r holl wybodaeth y mae’r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennau a materion eraill;
- rhoi gwybodaeth ac esboniadau ychwanegol i’r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol sydd eu hangen ar gyfer ei archwiliad;
- darparu mynediad anghyfyngedig i’r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i bersonau o fewn yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol y mae'r archwilydd yn penderfynu bod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod unrhyw reolaethau mewnol ar waith y bernir bod eu hangen i alluogi datganiadau ariannol i gael eu paratoi sy’n rhydd rhag camddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad;
- paratoi datganiadau ariannol sy’n rhoi darlun gwir a theg yn unol â chyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a ddyroddir o dan Ddeddf Diwygio’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002;
- paratoi’r adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff, yn unol â chyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a ddyroddir o dan Ddeddf Diwygio’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002; ac
- asesu gallu'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhag-weld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau’r archwilydd dros archwilio’r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio ac ardystio’r datganiadau ariannol ac adrodd arnynt yn unol â Deddf Diwygio’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002.

Fy amcanion i yw sicrhau sicrwydd rhesymol ynghylch a yw’r datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd rhag camddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a dyroddi tystysgrif sy’n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw’n warant y bydd archwiliad a gyflawnir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo’n bodoli. Gall camddatganiadau godi oherwydd twyll neu gamgymeriad a bernir eu bod yn berthnasol os byddai’n rhesymol disgwyl iddyn nhw, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

**I ba raddau y barnwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll**

Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â’m cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau,

gan gynnwys twyll. Manylir isod ar i ba raddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

**Nodi ac asesu risgiau posibl sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll**

Wrth nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad perthnasol mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, yr wyf:

- wedi ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a'r perfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol;
- wedi holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys sicrhau ac adolygu dogfennau ategol ynglŷn â pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y canlynol:
    - nodi a gwerthuso cyfreithiau a rheoliadau a chydymffurfio â nhw;
    - canfod risgiau twyll ac ymateb iddyn nhw; a
    - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynglŷn â chydymffurfiaeth yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol â Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, *Managing Public Money*, a Rheoliadau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ffioedd) 2015;
- wedi holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu:
    - a oeddent yn ymwybodol o unrhyw enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau;
    - a oeddent yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, twyll a amheuir neu dwyll honedig.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli o fewn yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer twyll a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth a rhagfarn yn amcangyfrifon y rheolwyr. Yn yr un modd â phob archwiliad o dan ISAs (UK), mae'n ofynnol imi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg y bydd rheolaethau'n cael eu diystyru gan y rheolwyr.

Sicrheais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gweithredu o'u mewn. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a

datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennyf yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, *Managing Public Money*, Rheoliadau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ffioedd) 2015, cyfraith cyflogaeth, y ddeddfwriaeth ar bensiynau a'r ddeddfwriaeth dreth.

**Ymateb yr archwiliad i'r risgiau a nodwyd**

I ymateb i'r risgiau a nodwyd o ganlyniad i'r gweithdrefnau uchod:

- adolygais y datgeliadau yn y datganiadau ariannol a'r profion ar y dogfennau ategol i asesu'r gydymffurfiaeth â darpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holais y rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- adolygais gofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd ac adroddiadau archwilio mewnol;
- rhoddais sylw i'r risg o dwyll am fod y rheolwyr yn diystyru rheolaethau drwy brofi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill; trwy asesu a yw'r dyfarniadau ar amcangyfrifon yn awgrymu rhagfarn bosibl; a thrwy werthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol; ac
- ymgymerais â phrofion perthnasol ar sampl o drafodion refeniw lle llwyddais i wrthbrofi'r risg o dwyll, gan gytuno'n ôl â'r dogfennau gwreiddiol.

Mynegais gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm archwilio gan barhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol i'w gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

**Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd**

Mae'n ofynnol imi sicrhau tystiolaeth archwilio briodol ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, rychwant ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfieithiad Cymraeg

Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffurf wreiddoil. Mae’r fersiwn hon yn gyfieithiad o’r fersiwn Saesneg wreiddiol. Mae yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hyn.

**Gareth Davies** **Dyddiad: 1 Gorffennaf 2025**

**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP

## 6. Datganiadau Ariannol

### 1. Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025

| | Nodyn | 2024/25 £'000 | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|
| ***Gwariant*** | | | |
| Costau staff | 3 | 4,105 | 3,804 |
| Costau gweinyddol eraill | 5 | 1,987 | 1,858 |
| ***Incwm*** | | | |
| Incwm Ffioedd | 6 | (4,869) | (4,637) |
| Incwm gweithredol | 7 | (1,090) | (956) |
| **Gwariant gweithredu net** | | **133** | **69** |
| Cost ariannol | 15 | 27 | 28 |
| Incwm ariannol | | (111) | (50) |
| **Gwariant cynhwysfawr net** | | **49** | **47** |

**Gwariant net cynhwysfawr arall**

6.1 Nid oedd unrhyw wariant net cynhwysfawr arall yn y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 (dim yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024).

Mae'r nodiadau ar dudalennau 81 i 98 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## 7. Datganiadau Ariannol - datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2025

| | | 31 Mawrth 2025 | | 31 Mawrth 2024 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nodyn** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | | | |
| **Asedau anniriaethol** | 8 | 67 | | 92 | |
| **Eiddo, offer a chyfarpar** | 9 | 66 | | 68 | |
| **Hawl i ddefnyddio ased** | 19 | 475 | | 635 | |
| ***Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol*** | | | ***608*** | | ***795*** |
| | | | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| **Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill** | 10 | 590 | | 374 | |
| **Buddsoddiadau** | 11 | 250 | | 750 | |
| **Arian parod a chyfatebol i arian parod** | 12 | 8,410 | | 7,157 | |
| ***Cyfanswm asedau cyfredol*** | | | ***9,250*** | | ***8,281*** |
| **Cyfanswm Asedau** | | | **9,858** | | **9,076** |
| | | | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| **Masnach ac elfennau taladwy eraill** | 13 | (6,960) | | (5,981) | |
| **Rhwymedigaeth prydles** | 15 | (191) | | (183) | |
| **Darpariaethau** | 14 | (51) | | (23) | |
| ***Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol*** | | | ***(7,202)*** | | ***(6,187)*** |
| | | | | | |
| **Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | | | | |
| **Rhwymedigaeth prydles** | 15 | (350) | | (534) | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | | | (350) | | (6,721) |
| **Asedau llai'r rhwymedigaethau** | | | **2,306** | | **2,355** |
| | | | | | |
| **Cronfeydd** | | | | | |
| **Cronfa wrth Gefn Gyffredinol** | **16** | | **2,306** | | **2,355** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 81 i 98 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.



Alan Clamp
Swyddog Cyfrifyddu
1 Gorffennaf 2025

## 8. Datganiadau ariannol – datganiad o lif arian ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025

| | Nod yn | 2024/25 | 2023/24 |
|---|---|---|---|
| | | **£'000** | **£'000** |
| **Llif arian o weithgareddau gweithredol** | | | |
| (Costau)/incwm gweithredu net ar gyfer y flwyddyn | | (133) | (69) |
| Addasiad ar gyfer trafodion heb fod yn arian parod | 5 | 216 | 240 |
| Colled ar waredu NCA | 9 | 1 | 0 |
| (Cynnydd) mewn masnach a derbynion eraill | 10 | (216) | 29 |
| Cynnydd mewn masnach ac elfennau taladwy eraill | 13 | 979 | 295 |
| Cynnydd mewn darpariaethau | 14 | 28 | 10 |
| **Mewnlif (all-lif) arian net o weithgareddau gweithredol** | | **875** | **505** |
| | | | |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Pryniant eiddo, cyfarpar, offer ac eitemau anniriaethol | 8.9 | (30) | (43) |
| Buddsoddiad | 11 | 500 | 6 |
| Incwm llog | | 111 | 44 |
| **Mewnlif (all-lif) arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **581** | **7** |
| | | | |
| **Llif arian parod o weithgareddau ariannu** | | | |
| Prif daliad o rwymedigaethau prydles | 15 | (203) | (113) |
| ***Llif arian net o weithgareddau ariannu*** | | ***(203)*** | ***(113)*** |
| **Cynnydd/(lleihad) net mewn arian a chyfatebol i arian** | 12 | 1,253 | 399 |
| Arian a chyfatebol i arian ar ddechrau'r flwyddyn ariannol | 12 | 7,157 | 6,758 |
| **Arian parod a chyfatebol i arian parod ar ddiwedd y cyfnod ariannol** | 12 | **8,410** | **7,157** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 81 i 98 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## 9. Datganiadau ariannol – datganiad o newidiadau yn ecwiti'r trethdalwr ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025

| | Nodyn | Cronfa wrth gefn gyffredinol |
|---|---|---|
| | | **£'000** |
| **Balans ar 01 Ebrill 2023** | | **2,402** |
| | | |
| **Newidiadau mewn cronfeydd yn y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2024** | | |
| **Net (costau)/incwm** | | (47) |
| | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | | **2,355** |
| | | |
| **Newidiadau mewn cronfa wrth gefn yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025** | | |
| | | |
| **Net (costau)/incwm** | | (49) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | 16 | **2,306** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 81 i 98 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## 10. 5. Nodiadau ar y cyfrifon

### 1. Polisïau cyfrifo

**Sail paratoi**

10.1 Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2024/25 a gyhoeddir gan Drysorlys EF ac yn unol â Deddf Diwygio'r GIG a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002.

10.2 Mae'r polisïau cyfrifo sydd wedi eu cynnwys yn y FReM yn cymhwyso'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'i haddaswyd neu dehonglwyd ar gyfer cyd-destun sector cyhoeddus y Deyrnas Unedig.

10.3 Ble fo'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, dewiswyd y polisi cyfrifo a fernir i fod fwyaf priodol i amgylchiadau penodol yr Awdurdod i'r diben o roi golwg wir a theg.

10.4 Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd ar gyfer y cyfnod adrodd isod. Maent wedi eu gweithredu yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

**Dyfarniadau cyfrifo critigol a ffynonellau allweddol ansicrwydd amcangyfrif**

10.5 Wrth gymhwyso ein polisïau cyfrifo, rhaid i reolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynglŷn â chario symiau o asedau ac atebolrwydd nad ydynt yn amlwg o ffynonellau eraill.

10.6 Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill a ystyrir i fod yn berthnasol.

10.7 Efallai y bydd y gwir ganlyniadau yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny. Adolygir yr amcangyfrifon a'r tybiaethau sylfaenol yn barhaus.

10.8 Cydnabyddir adolygiadau i'r amcangyfrifon cyfrifo yn y cyfnod pan adolygir yr amcangyfrif os yw'r adolygiad yn effeithio ar y cyfnod hwnnw yn unig, neu yng nghyfnod yr adolygiad a chyfnodau yn y dyfodol sy'n adlewyrchu cyfnodau presennol ac yn y dyfodol.

**Asedau anniriaethol**

***Asedau anghyffwrddadwy ac eraill a grëwyd yn fewnol***

10.9 Cydnabyddir unrhyw ased anghyffwrddadwy ac eraill a grëwyd yn fewnol o'n gweithgareddau a gwariant pan fydd yr holl amodau canlynol wedi eu bodloni:

- Crëir ased y gellir ei hadnabod (megis meddalwedd neilltuol)
- Mae'n debygol y bydd yr ased a grëwyd yn creu manteision economaidd yn y dyfodol, h.y. mae gan yr Awdurdod reolaeth dros yr ased. Gellir mesur cost (yn cynnwys cost datblygu) yr ased yn ddibynadwy.

10.10 Mesurir asedau annirweddol sefydlog yn gychwynnol ar gost ac yna eu prisio yn defnyddio cost amnewid wedi dibrisio neu a bennir i fod yn gyfwerth ar gyfer gwerth teg. Ar gyfer asedau anghyffwrddadwy gyda bywydau defnyddiol cyfyngedig, cyfrifir amorteiddiad er mwyn gallu dileu cost ased, llai ei werth gweddilliol a amcangyfrifir, dros ei fywyd economaidd defnyddiol.

10.11 Adolygir cyfnod amorteiddiad a dull amorteiddiad ased anniriaethol yn ystod diwedd pob blwyddyn ariannol. Os yw oed defnyddiol disgwyliedig ased yn wahanol i amcangyfrifon blaenorol, bydd y cyfnod a dull amorteiddiad yn cael ei newid i adlewyrchu'r patrwm newydd.

**Asedau nad ydynt yn gyfredol**

***Eiddo, offer a chyfarpar***

10.12 Cyfalafir asedau nad ydynt yn gyfredol ac eithrio meddalwedd cyfrifiadurol fel eiddo, peiriannau ac offer fel a ganlyn:

- Offer gyda gwerth unigol o £1,000, neu fwy
- Asedau mewn grŵp o natur debyg gyda gwerthu cytûn o £1,000 neu fwy
- Costau ailwampio gyda gwerth o £1,000 neu fwy.

10.13 Fe wnaethom fabwysiadu IFRS 13 ac yn unol â FReM rydym wedi pennu bod cost hanesyddol dibrisiedig yn ddewis amgen addas i werth cyfredol mewn defnydd cyfredol neu werth teg ble mae gan yr ased oes economaidd ddefnyddiol byr neu os yw o werth isel. Nid yw mynegeio wedi ei gymhwyso ers 31 Mawrth 2008 gan na fyddai hyn yn faterol. Bydd gwerthusiad asedau yn cael eu hadolygu yn flynyddol, ar ddyddiad pob datganiad o safle ariannol, i sicrhau bod y gwerth i'w gario yn adlewyrchiad teg o'r gost bresennol.

10.14 Darperir dibrisiant ar sail linol, wedi ei gyfrifo ar y swm a ddatgelwyd i ddileu asedau, llai unrhyw falans gweddilliol a amcangyfrifir, yn ystod eu bywyd defnyddiol sy'n weddill.

10.15 Mae bywydau defnyddiol asedau nad ydynt yn gyfredol wedi eu hamcangyfrif fel a ganlyn:

- Dodrefn a gosodiadau yn ystod gweddill tymor prydles y llety
- Offer cyfrifiadurol – tair blynedd.

10.16 Mae'r rhain yn darparu adlewyrchiad realistig o fywydau'r asedau.

10.17 Codir dibrisiant o'r mis pan gaffaelwyd yr ased.

**Buddsoddiadau**

10.18 Mae'r rhain yn adneuon tymor byr a gedwir gyda sefydliadau ariannol gyda dyddiad aeddfedu o dros dri mis ac yn ddim hirach na naw mis.

**Arian yn y banc a cyfatebol i arian parod**

10.19 Mae arian yn arian mewn llaw ac arian a gadwyd mewn unrhyw sefydliad ariannol gyda dyddiad aeddfedu o lai na thri mis.

**Polisi wrth gefn**

10.20 Nid yw amseriad pennu ffioedd yn gyfan gwbl o fewn ein rheolaeth ac os bydd unrhyw oedi wrth dderbyn yr incwm ffioedd, byddwn yn wynebu problemau llif arian a gallai fod yn anodd bodloni ein gofynion gwariant a dyletswyddau statudol.

10.21 Mae'r materion llif arian yn gysylltiedig i dderbyn yr incwm ffioedd. Os na chwblheir y broses ymgynghori mewn pryd gan y cyfrin gyngor er mwyn pennu erbyn dechrau Mawrth, yna byddwn yn wynebu'r posibiliad o fod heb arian ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

10.22 Efallai y bydd rhaid i ni hefyd ddelio â diffygion ariannol yn deillio yn codi yn ystod y flwyddyn ariannol. Rhaid amcangyfrif y gyllideb ar gyfer unrhyw flwyddyn benodol cyn cychwyn yr ymarfer ymgynghori, a gan ei fod yn broses maith rhaid cychwyn yn gynnar yn y flwyddyn flaenorol, felly gall fod amgylchiadau pan fydd rhaid i ni daclo gwariant annisgwyl yn ystod y flwyddyn wedi pennu'r ffi, er enghraifft, costau'n deillio o gynnydd mewn llwyth gwaith, yr angen i gyflawni ymchwiliad neu newidiadau i ddeddfwriaeth.

10.23 Er bod gennym y pŵer i ymgynghori ar ffi atodol yn ystod y flwyddyn, mae'r amser y byddai hyn yn ei gymryd yn ei wneud yn anymarferol o ran ymdrin â materion o'r fath. Golyga ceisio ffioedd atodol hefyd y byddai gofyn i'r rheolyddion ddarparu cyllid nad oeddynt wedi cyllidebu ar ei gyfer, gan arwain at bwysau ar eu cyllidebau eu hunain.

10.24 I ddarparu ar gyfer uchafbwyntiau gwariant annisgwyl a diffygion llif arian, ac i leihau'r posibiliad o fod angen casglu ffioedd atodol, mae'r Bwrdd wedi cytuno y dylem gadw lefel a gytunir o gronfeydd cyllid, a fyddai'n ddigonol i sicrhau y gallwn ddal i weithredu ein swyddogaethau statudol.

10.25 Bydd cael cronfeydd y gellir eu defnyddio hefyd yn diddymu'r angen i dalu ffioedd trefnu a lles ar unrhyw arian a fenthycwyd.

10.26 Rydym wedi cytuno i gadw cronfeydd o gyllideb tri mis o gostau gweithredu, sef tua £1.2 miliwn, ble rydym wedi nodi gwahaniaeth rhwng y canlynol:

- Elfen gyfyngedig yn gysylltiedig i waith rheoleiddio a safonau
- Elfen anghyfyngedig yn gysylltiedig i holl waith yr Awdurdod.

10.27 Y bwriad yw, gydag amser, bydd yr elfen gyfyngedig yn cyfateb i gyfanswm o ddau fis o gostau gweithredu.

10.28 Mae lefel a lluniad ein cronfeydd yn cael eu hadrodd trwy ein Hadroddiad Blynyddol.

10.29 Bydd angen rhoi unrhyw arian a gymerir o'r cronfeydd yn ystod y flwyddyn sy'n ei leihau i lai na’r isafswm gofynnol yn ôl yn y flwyddyn neu flynyddoedd dilynol.

10.30 Os bydd angen galw am ddefnyddio elfen gyfyngedig y cronfeydd, byddwn yn adrodd am hyn i'r rheolyddion ar bwynt priodol.

**Incwm ffioedd**

10.31 Mae’r FReM yn ymestyn y diffiniad o gontract o fewn IFRS 15 Incwm o gontractau gyda chwsmeriaid i gynnwys deddfwriaeth (Rheoliadau Ffioedd 2015) sy'n ein galluogi i dderbyn arian parod neu asedau ariannol eraill. Mae ffioedd a dderbynnir gan y 10 corff statudol yn cael eu cydnabod yn fisol, ar sail llinell syth, dros y flwyddyn ariannol a nodir yn y penderfyniad ffioedd blynyddol. Mae’r ffioedd hyn, sydd fel arfer yn cael eu derbyn cyn cychwyn y cyfnod ariannol maent yn berthnasol iddynt, yn cael eu cydnabod fel incwm gohiriedig (atebolrwydd contract) tan bydd y rhwymedigaethau perfformiad fel y nodwyd yn y pennu ffioedd blynyddol dros amser wedi eu cyflawni. Bydd unrhyw warged yn cael ei ystyried wrth gyfrifo cyfraddau ffioedd yn y dyfodol i'r fath raddau nad yw'n angenrheidiol i gynnal lefel briodol o gronfa wrth gefn yn unol â’n polisi.

### Incwm gweithredol

10.32 Mae'r incwm gweithredu yn cynnwys: Adferiadau costau achosion Adran 29; llog a dderbyniwyd o fuddsoddiadau, ffioedd a dderbyniwyd o gynnal cynadleddau; ffioedd a dderbyniwyd o ddarparu gwasanaethau i aelodau eraill y gymuned rheoleiddio iechyd; a ffioedd achredu a dderbyniwyd gan ymgeiswyr y sector wirfoddol sydd eisiau cael eu hachredu.

10.33 Cydnabyddir incwm a dderbyniwyd o'r contractau ar gyfer comisiwn i lywodraeth a chyngor i sefydliadau eraill yn unol â'r broses pum cam o fewn IFRS 15 pan fydd goblygiadau perfformiad pob contract unigol wedi eu bodloni. Mae incwm o'r contractau hyn naill ai'n cael ei gydnabod yn llawn ar y pwynt hwnnw mewn amser e.e. cyflwyno'r adroddiad terfynol dros amser gan fod y costau yn codi le mae'r contract yn dynodi y bydd y cwsmer yn atebol am yr holl gostau tan y dyddiad terfynu. Mae cydnabyddiaeth incwm yn ystod y cyfnod yn seiliedig ar gostau staff a gwariant uniongyrchol sy'n codi ac wedi ei gydnabod yn y cyfrifon. Dyma yw costau cyflawni'r gwaith. Yn gyffredinol fe dderbynnir taliadau cyn y bodlonir rhwymedigaethau perfformiad ac felly mae'r rhain yn cael eu cydnabod fel incwm gohiriedig ac fel incwm wedi bodloni rhwymedigaethau perfformiad.

10.34 Mae incwm Cofrestrau Achrededig yn cynnwys ffioedd achredu sefydlog ar gyfer cofrestrau newydd na ellir eu had-dalu, sy'n daladwy pan fydd dogfennau cais wedi eu cyflwyno, a ffioedd adnewyddu, sy'n daladwy cyn daw blwyddyn yr achrediad i ben. Cydnabyddir incwm o ffioedd ceisiadau cychwynnol yn y datganiad cost gweithredu ar bwynt ein penderfyniad achredu yn unol ag IFRS 15 a chydnabuwyd incwm o ffioedd adnewyddu ar adeg y penderfyniad achredu adnewyddu.

10.35 Rhoddwyd y model ffioedd newydd ar waith ar 1 Gorffennaf 2021 fel rhan o newidiadau ehangach i swyddogaeth y Cofrestrau Achrededig; ac mae'n cynnwys proses asesu ac achredu tair blynedd newydd yn seiliedig ar risg. Mae incwm o ffioedd adnewyddu bellach yn cael ei gydnabod yn y datganiad cost gweithredu bob mis, ar sail llinell syth, dros y flwyddyn ariannol, gan fod y rhwymedigaeth perfformiad bellach yn cael ei chyflawni dros amser yn unol ag IFRS 15. Mae'r ffioedd hyn, sydd fel arfer yn cael eu derbyn cyn cychwyn y cyfnod ariannol maent yn berthnasol iddynt, yn cael eu cydnabod fel incwm gohiriedig (atebolrwydd contract) hyd nes y cyflawnir y rhwymedigaeth dros amser, fel y nodir yn yr anfonebau ffioedd.

### Costau ac adferiadau Adran 29

10.36 Dan ein grymoedd Adran 29, gallwn apelio i'r Uchel Lys yn erbyn penderfyniad disgyblu rheoleiddiwr. Mae costau a dynnir gennym wrth ddod ag apeliadau Adran 29 yn cael eu codi ar y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr ar sail croniadau.

10.37 O ganlyniad i farnwriaeth a wneir gan y Llysoedd, gallwn ddyrannu costau os yw'r achos yn llwyddiannus, neu gellir dyrannu costau yn ein herbyn os collir yr achos. Ble dyrannir costau i ni, neu yn ein herbyn, gellir diddymu neu leihau'r Ni rhain yn hwyrach o ganlyniad i apêl lwyddiannus naill ai gan yr amddiffynnydd neu ni. Cyn ystyried naill ai incwm na gwariant, rydym yn ystyried canlyniad tebygol pob achos yn ôl ei rinweddau.

10.38 Yn achos costau a ddyfarnwyd i'r Awdurdod, ni chaiff yr incwm ei ddwyn i gyfrif oni bai bod dyfarniad terfynol diwrthwynebiad o'n plaid neu gytundeb rhwng y partïon ynghylch cyfran y costau a fydd yn cael eu talu a'u cyflwyno i'r Llysoedd a bod swm y setliad wedi'i gytuno gan y ddwy ochr. Pan fydd achos wedi ei ennill ond y canlyniad terfynol yn dal yn amodol i

apêl, a'i bod bron yn sicr y bydd yr achos cael ei ennill ar apêl a chostau'n cael eu dyfarnu i ni, fe ddatgelir ased amodol.

10.39 Yn achos costau a ddyfarnwyd yn erbyn yr Awdurdod, caiff gwariant ei gydnabod mewn incwm a gwariant lle ceir dyfarniad terfynol diwrthwynebiad yn ein herbyn. Yn ogystal, os collwyd achos ond bod y canlyniad terfynol yn dal yn amodol i apêl, a'i bod yn debygol y bydd costau yn cael eu dyfarnu yn ein herbyn, cydnabyddir darpariaeth yn y cyfrifon. Ble'i bod yn bosibl ond nid yn debygol y bydd yr achos yn cael ei golli ar apêl ac y gallwn fod yn amodol i gostau, datgelir atebolrwydd amodol.

**Dileu dyledion drwg Adran 29**

10.40 Mewn amgylchiadau prin pan fo'r Awdurdod yn ystyried bod ased Adran 29 yn anadferadwy (gallai hyn fod oherwydd cost ariannol a gweinyddol casglu neu resymau moesegol) bydd dyled yn cael ei dileu'n uniongyrchol yn y datganiad incwm yn y cyfnod pan fo'r Ni wedi penderfynu peidio ceisio casglu.

**Treth ar Werth**

10.41 Ni ellir adfer treth ar werth (TAW) ar bwrcasau, felly mae'n gost yn y datganiad gwariant net cynhwysfawr ac wedi ei gynnwys dan y pennawd perthnasol i'r math o wariant, na'i gyfalafu os yw'n ymwneud ag ased.

**Costau budd-daliadau ymddeoliad**

10.42 Mae darpar weithwyr a gweithwyr presennol yn dod o dan ddarpariaethau cynlluniau pensiwn y GIG a NEST.

10.43 Mae gweithwyr a ymunodd â'r Awdurdod cyn 1 Ebrill 2023 neu sydd wedi bod yn aelodau o gynllun pensiwn y GIG o'r blaen wedi'u cynnwys yng nghynllun Pensiwn y GIG.

10.44 Mae cynllun pensiwn y GIG yn gynllun budd-daliadau diffiniedig, di-nawdd sy'n cwmpasu gweithwyr y GIG, meddygfeydd a chyrff eraill, a ganiateir dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol, yng Nghymru a Lloegr. Ni fwriedir i'r cynllun gael ei redeg mewn unrhyw fodd fyddai'n galluogi cyrff y GIG i adnabod eu cyfran o'r asedau ac atebolrwydd sylfaenol y cynllun.

10.45 Felly, cyfrifir ar gyfer y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniad diffiniedig; cymerir y gost i'r GIG o gymryd rhan yn y cynllun fel cyfartal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu.

10.46 Ar gyfer ymddeol yn gynnar, ac eithrio oherwydd salwch, ni ariennir y taliadau atebolrwydd pensiwn atodol gan y cynllun. Codir swm llawn yr atebolrwydd ar gyfer costau atodol i'r datganiad o wariant net cynhwysfawr ar yr un pryd ag y mae'r Awdurdod yn ymroi ei hun i ymddeoliad, waeth beth yw'r dull talu.

10.47 Mae cynllun pensiwn NEST ar gael i'r gweithwyr a ymunodd â'r Awdurdod ar ôl 1 Ebrill 2023. Mae cynllun pensiwn NEST yn gynllun cyfraniadau diffiniedig y rhoddir cyfrif amdano fel y cyfryw.

10.48 Bydd y cynllun pensiwn hwn yn cau o 1 Ebrill 2025 a bydd pob aelod yn trosglwyddo i gynllun pensiwn newydd Standard Life Group. Mae hwn yn gynllun cyfraniadau diffiniedig a rhoddir cyfrif amdano felly.

10.49 Disgwylir i gyfraniadau i gynllun pensiwn y GIG yn y cyfnod adrodd nesaf fod yn £562k.

10.50 Disgwylir i gyfraniadau i gynllun pensiwn Standard Life yn y cyfnod adrodd nesaf fod yn £79k.

**Prydlesi**

10.51 Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu IFRS 16, fel y'i dehonglir ac a addaswyd yn y FreM, o 1 Ebrill 2022.

10.52 Lle mae prydles wedi'i nodi, rydym yn cydnabod yr ased hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth brydles gyfatebol, ac eithrio prydlesi (gan gynnwys prydlesi sy'n weddill) sy'n fyrrach na 12 mis neu/ac o werth llai na £5,000. Mae prydlesi tymor byr a gwerth isel yn cael eu trin fel prydlesu gweithredol gyda thaliadau prydles yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

10.53 Mae costau prydlesau gweithredu blaenorol wedi'u disodli gan dâl dibrisiant a chostau llog ar rwymedigaethau prydles.

10.54 Ein cyfradd fenthyca gynyddrannol a ddiffinnir gan Drysorlys EF ar hyn o bryd yw 3.51%. Bydd yr ased hawl i ddefnyddio cysylltiedig yn cael ei fesur yn gyfartal â'r rhwymedigaeth les wedi'i haddasu ar gyfer unrhyw daliadau prydles rhagdaledig neu gronedig.

10.55 Mae ein trefniadau prydlesu cyllid presennol mewn perthynas â'r eiddo yn 16-18 New Bridge Street i fod i ddod i ben ar 14 Mawrth 2033 gyda chymal terfynu ar 14 Mawrth 2028. Nid oedd unrhyw drefniadau prydles eraill wedi'u cadarnhau ar waith ar 31 Mawrth 2025.

10.56 Nid ydym yn cymhwyso IFRS 16 i brydlesi asedau anniriaethol ac yn cydnabod y rhain yn unol ag IAS 38.

**Hawl i ddefnyddio asedau**

10.57 Mae asedau hawl i ddefnyddio yn cael eu dibrisio ar sail llinell syth dros y cyfnod prydles lleiaf na ellir ei ganslo.

10.58 Fel y caniateir gan y FreM, caiff asedau hawl i ddefnyddio (ROU) eu mesur wedyn gan ddefnyddio'r model cost fel procsi ar gyfer mesur gwerth cost y defnydd, gan fod oes ddefnyddiol a gwerthoedd asedau ROU yn fyrrach na'u hasedau sylfaenol priodol.

10.59 Mae asedau hawl i ddefnyddio yn ymwneud ag asedau prydles mewn perthynas ag eiddo yn 16-18 New Bridge Street, Llundain.

10.60 Yn unol â'r FReM nid ydym wedi cydnabod unrhyw asedau neu rwymedigaethau ar gyfer prydlesi lle mae'r ased gwaelodol o werth isel ac nid ydym wedi gwneud unrhyw addasiad ar gyfer prydlesi o'r fath. Yn yr un modd, nid ydym wedi cydnabod unrhyw ased neu rwymedigaethau gyda thymor o 12 mis neu lai yn weddill ac nid ydym wedi gwneud unrhyw addasiadau ar eu cyfer.

**Cytundebau yswiriant**

10.61 Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddodd y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) ddiwygiadau i IFRS 17, sy'n disodli IFRS 4 ac sy'n sefydlu egwyddorion ar gyfer cydnabod, cyflwyno a datgelu contractau yswiriant. Mae'r Awdurdod wedi asesu effaith IFRS 17 ac wedi dod i'r casgliad nad yw'n cael unrhyw effaith sylweddol ar y Datganiadau Ariannol.

**Prisiadau asedau nad ydynt yn ymwneud â buddsoddi**

10.62 Yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2025/26, mae'r Awdurdod wedi diweddaru ei bolisi cyfrifyddu ar gyfer prisio asedau nad ydynt yn ymwneud â buddsoddi. O 1 Ebrill 2025 bydd asedau nad ydynt yn fuddsoddiadau yn cael eu mesur yn ôl gwerth cyfredol y defnydd presennol, gan ddefnyddio methodoleg asedau modern cyfatebol lle bo'n briodol.

**Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), addasiadau a dehongliadau dan sylw ond nid eto'n effeithiol neu wedi eu mabwysiadu**

10.63 Mae Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS8), polisïau cyfrifo, newidiadau mewn amcangyfrifon a gwallau cyfrifyddu, yn gofyn am ddatgeliadau parthed IFRS newydd, addasiadau a dehongliadau sydd, neu a fydd yn berthnasol wedi'r cyfnod cyfrifyddu. Mae yna nifer o IFRS, addasiadau a dehongliadau a gyhoeddir gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo Rhyngwladol sy'n effeithiol ar gyfer datganiadau ariannol wedi'r cyfnod cyfrifo hwn. Nid yw'r canlynol wedi eu mabwysiadu'n gynnar gan yr Awdurdod:

- IFRS 18 Cyflwyniad a Datgeliad mewn Datganiadau Ariannol
- IFRS 19 Is-gwmnïau heb Atebolrwydd Cyhoeddus: Datgeliadau
- IFRS 7 a 9 – Diwygiadau i Ddosbarthiad a Mesur Offerynnau Ariannol
- IAS 21 – Diffyg Cyfnewidadwyedd

10.64 Ni ddisgwylir i effaith y newidiadau hyn fod yn berthnasol i gyfrifon yr Awdurdod.

**Safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd sydd wedi eu mabwysiadu'n gynnar**

10.65 Nid yw'r Awdurdod wedi mabwysiadu unrhyw IFRSau, addasiadau na dehongliadau yn gynnar.

## 2. Dadansoddiad net o gostau/(incwm) gweithredu fesul segment

**Dadansoddiad segmentau**

10.66 Cododd costau/(incwm) gweithredu net i bedwar prif ffrwd gwariant yr Awdurdod fel a ganlyn. Nid yw'r Awdurdod yn cynnal datganiadau o safle ariannol ar wahân ar gyfer y ffrydiau hyn. Ni chafwyd unrhyw drafodion ar y cyd rhwng segmentau yn y flwyddyn.

| **2024/25** | **Gwaith rheoleiddio a gosod safonau** | **Cofrestrau Achredig** | **Comisiynau gan Lywodraeth(au)** | **Cyngor i sefydliadau eraill** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Costau gweithredu | 5,376 | 657 | 0 | 59 | 6,092 |
| Incwm gweithredol | (5,166) | (701) | 0 | (92) | (5,959) |
| Costau/(incwm) gweithredu net | 210 | (44) | 0 | (33) | 133 |
| **2023/24** | **Gwaith rheoleiddio a gosod safonau** | **Cofrestrau Achredig** | **Comisiynau gan Lywodraeth(au)** | **Cyngor i sefydliadau eraill** | **Cyfanswm** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Costau gweithredu | 5,074 | 588 | 0 | 0 | 5,662 |
| Incwm gweithredol | (4,919) | (674) | 0 | 0 | (5,593) |
| Costau/(incwm) gweithredu net | 155 | (86) | 0 | 0 | 69 |

10.67 Disgrifir gwaith y segmentau gweithredu hyn yn yr adroddiad perfformiad.

## 3. Niferoedd staff a chostau cysylltiedig

10.68 Costau personau a gyflogir

| | Cyflogir yn barhaol | Arall | Cyfanswm 2024/25 | Cyflogir yn barhaol | Arall | Cyfanswm 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyflogau | 3,104 | | 3,104 | 2,956 | | 2,956 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 348 | | 348 | 333 | | 333 |
| Costau pensiynau | 561 | | 561 | 505 | | 505 |
| Costau asiantaeth/staff dros dro | | *92 | *92 | | *10 | *10 |
| **Cyfanswm** | **4,013** | ***92** | **4,105** | **3,794** | ***10** | **3,804** |

*Staff dros dro

10.69 Nid oedd unrhyw gostau ymgynghoriaeth yn 2024/25. (dim yn 2023/24)

10.70 Ni thalwyd unrhyw becynnau ymadael yn 2024/25. (dim yn 2023/24).

10.71 Ni chododd unrhyw gostau diswyddo yn 2024/25 (dim yn 2023/24).

10.72 Ni chyflogwyd unrhyw bersonau oddi ar y gyflogres nac ar sail ymgynghorol yn ystod y flwyddyn (dim yn 2023/24).

### 4. Nifer cyfartalog y bobl a gyflogwyd

10.73 Mae cyfartaledd y nifer o staff llawn amser a rhan amser a gyflogir (yn cynnwys staff dros dro) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | Cyflogir yn barhaol | Arall | Cyfanswm 2024/25 | Cyflogir yn barhaol | Arall | Cyfanswm 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 47.5 | 0.8 | 48.3 | 45.5 | 0.2 | 45.7 |

### 5. Costau gweinyddol eraill

| | Nodiadau | 2024/25 | 2023/24 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| Tâl aelodau | | 122 | 119 |
| Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | | 697 | 774 |
| Eiddo a pheiriannau sefydlog | | 411 | 324 |
| Hyfforddiant a recriwtio | | 136 | 102 |
| AD, cyfathrebu a chynadleddau | | 177 | 118 |
| Costau sefydliadol | | 51 | 57 |
| Ffi archwiliad allanol | | 33 | 30 |
| Costau eraill | | 144 | 94 |
| **Cyfanswm** | | **1,771** | **1,618** |
| | | | |
| Amorteiddiad | 8 | 25 | 52 |
| Dibrisiant | 9 | 31 | 28 |
| Dibrisiant hawl i ddefnyddio ased | | 160 | 160 |
| **Cyfanswm gwariant nad yw'n arian parod** | | **216** | **240** |
| **Cyfanswm costau gweinyddol** | | **1,987** | **1,858** |

### 6. Incwm Ffioedd

| | 2024/25 | 2023/24 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Incwm Ffioedd gan y rheolyddion | 4,869* | 4,637 |
| **Cyfanswm** | **4,869** | **4,637** |

*Incwm ffioedd yn ymwneud â ffioedd statudol 2024/25.

Roedd incwm gan y GMC (£0.955m), NMC (£2,119m) a HCPC (£0,871m) yn 20%, 44% a 18% o gyfanswm yr incwm yn y drefn honno.

## 7. Incwm Gweithredu

| | 2024/25 | 2023/24 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Adfer costau Adran 29 | 291 | 276 |
| Incwm Cofrestrau Achrededig | 701 | 674 |
| Cyngor i sefydliadau eraill | 92 | 0 |
| Incwm gweithredu arall | 6 | 6 |
| Cyfanswm Incwm Gweithredol | **1,090** | **956** |

## 8. Anniriaethol

| | Cronfa ddata Adran 29 ac Asedau anniriaethol eraill |
|---|---|
| | £'000 |
| **Prisiad** | |
| Ar 01 Ebrill 2024 | 259 |
| Ychwanegiadau | 0 |
| Gwarediadau | 0 |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 259 |
| | |
| **Amorteiddiad** | |
| Ar 01 Ebrill 2024 | 167 |
| Tâl am y flwyddyn | 25 |
| Gwarediadau | 0 |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 192 |
| | |
| **Gwerth net yn y llyfrau** | |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **67** |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 92 |
| | **Cronfa ddata Adran 29 ac Asedau anniriaethol eraill** |
| | **£'000** |
| **Prisiad** | |
| Ar 01 Ebrill 2023 | 259 |
| Ychwanegiadau | 0 |
| Gwarediadau | 0 |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 259 |

| **Amorteiddiad** | |
|---|---|
| Ar 01 Ebrill 2023 | 115 |
| Tâl am y flwyddyn | 52 |
| Gwarediadau | 0 |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 167 |
| | |
| **Gwerth net yn y llyfrau** | |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | 92 |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 144 |

## 9. Eiddo, Peiriannau ac Offer

**Eiddo, Peiriannau ac Offer**

| | Dodrefn, gosodiadau a ffitiadau | Offer TG | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Prisiad** | | | |
| Ar 01 Ebrill 2024 | 28 | 128 | 156 |
| Ychwanegiadau | 0 | 30 | 30 |
| Gwarediadau | 0 | (2) | (2) |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 28 | 156 | 184 |
| **Dibrisiant** | | | |
| Ar 01 Ebrill 2024 | 9 | 79 | 88 |
| Newid yn y cyfnod | 5 | 26 | 31 |
| Gwarediadau | 0 | (1) | (1) |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 14 | 104 | 118 |
| **Gwerth net yn y llyfrau** | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **14** | **52** | **66** |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **19** | **49** | **68** |
| | | | |
| **Prisiad** | | | |
| Ar 01 Ebrill 2023 | 9 | 104 | 113 |
| Ychwanegiadau | 19 | 24 | 43 |
| Gwarediadau | 0 | 0 | 0 |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 28 | 128 | 156 |
| | | | |
| **Dibrisiant** | | | |
| Ar 01 Ebrill 2023 | 4 | 56 | 60 |
| Newid yn y cyfnod | 5 | 23 | 28 |
| Gwarediadau | 0 | 0 | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ar 31 Mawrth 2024 | 9 | 79 | 88 |
| **Gwerth net yn y llyfrau** | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **19** | **49** | **68** |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **5** | **48** | **53** |

10.74 Mae'r holl eiddo yn eiddo llwyr i'r Awdurdod heb unrhyw atebolrwydd ariannol cysylltiedig.

### 10. Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill

10.75 Symiau a ddaw yn ddyledus o fewn blwyddyn:

| | **31 Mawrth 2025** | **31 Mawrth 2024** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill | 481 | 303 |
| Rhagdaliadau | 109 | 71 |
| **Cyfanswm masnach a derbyniadwyon eraill** | **590** | **374** |

10.76 Nid oes unrhyw symiau masnach nac asedau eraill sy'n daladwy wedi mwy na blwyddyn.

### 11. Buddsoddiadau

| | **31 Mawrth 2025** | **31 Mawrth 2024** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Balans ar 01 Ebrill 2024 | 750 | 750 |
| Newid net mewn adneuon | (500) | 0 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | **250** | **750** |

10.77 Mae buddsoddiadau yn adneuon tymor byr yr ymrwymir iddynt gyda sefydliadau ariannol gyda dyddiad aeddfedu o fwy na thri mis a heb fod yn hwy na naw mis. Mae'r adneuon yn cydymffurfio â pholisi cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod. Ar 31 Mawrth 2025 mae un adnau tymor byr yn aeddfedu (3 mis) a bydd yn aeddfedu yn 2025/26 gyda llog o £1k. Ar 31 Mawrth 2024 roedd un adnau tymor byr (9 mis) yn aeddfedu gyda llog o £30k yn cael ei gydnabod yn 2024/25.

### 12. Arian parod a chyfatebol i arian parod

| | **2024/25** | **2023/24** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Balans ar 1 Ebrill | 7,157 | 6,758 |
| Newidiadau net mewn arian a chyfatebol i arian parod | 1,253 | 399 |
| **Gweddill ar 31 Mawrth** | **8,410** | **7,157** |
| | | |

| | | |
|---|---:|---:|
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 48 | 49 |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | 8,362 | 7,108 |
| **Gweddill ar 31 Mawrth** | **8,410** | **7,157** |

## 13. Masnach ac elfennau taladwy eraill

10.78 Symiau a ddaw yn ddyledus o fewn blwyddyn:

| | 31 Mawrth 2025 | 31 Mawrth 2024 |
|---|---:|---:|
| | £'000 | £'000 |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill | 135 | 19 |
| Trethu a nawdd cymdeithasol | 104 | 181 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 6,721** | 5,781* |
| **Cyfanswm masnach a symiau taladwy eraill** | **6,960** | **5,981** |

* Gwerth agoriadol rhwymedigaethau a chroniadau contract. £5,570 wedi'i gydnabod fel incwm yn y flwyddyn gyfredol

**Gwerthoedd cau atebolrwydd contract a chroniadau

10.79 Nid oedd unrhyw symiau masnach taladwy nac atebolrwydd arall yn daladwy wedi mwy na blwyddyn.

## 14. Darpariaethau

| | Darpariaethau |
|---|---:|
| | £'000 |
| Balans ar 31 Mawrth 2024 | 23 |
| Yn codi yn ystod y cyfnod | 28 |
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd | 0 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | **51** |

10.80 Mae'r ddarpariaeth gan CaThEF ar 31 Mawrth 2025 yn cynrychioli atebolrwydd treth yr Awdurdod ar log a dderbyniwyd gan fuddsoddiadau banc.

## 15. Rhwymedigaethau prydles

| | Rhwymedigaethau prydles |
|---|---:|
| | £'000 |
| Balans ar 31 Mawrth 2024 | 717 |
| Llai prif daliad y brydles | (203) |
| Llog cyllid | 27 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | **541** |

10.81 Mae atebolrwydd prydles yn cynrychioli rhwymedigaeth yr Awdurdod mewn perthynas â'r eiddo yn New Bridge Street.

### 16. Nodyn cronfeydd cyffredinol atodol

| | **Elfen Anghyfyngedig** Holl waith (Rheoleiddio a gosod safonau / cofrestrau Achrededig / Comisiynau gan Lywodraeth(au) / Cyngor i sefydliadau eraill) | **Elfen Gyfyngedig** (Gwaith rheoleiddio a gosod safonau) | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | 807 | 1,548 | 2,355 |
| **Newidiadau mewn cronfeydd yn y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2025** | | | |
| Gwaith rheoleiddio a gosod safonau | | (126) | (126) |
| Cofrestrau Achrededig | 44 | | 44 |
| Cyngor i sefydliadau eraill | 33 | | 33 |
| | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | 884 | 1,422 | 2,306 |

*Mae hyn yn cynnwys elfennau arian parod ac nid arian parod.

### 17. Asedau ac atebolrwydd amodol

**Asedau**

10.82 Daeth pedwar achos Uchel Lys i ben a gorchmynnwyd costau o blaid yr Awdurdod. Ni ddaethpwyd i gytundeb ynghylch costau ar 31 Mawrth 2025 (dau achos ar 31 Mawrth 2024).

**Rhwymedigaethau**

10.83 Roedd yna 11 achos yn yr Uchel Lys, dan rymoedd Adran 29 yr Awdurdod, heb eu pennu ar 31 Mawrth 2025. Felly roedd ansicrwydd, ar y dyddiad hwnnw, o ran y canlyniad yr achosion a chanlyniadau ariannol cysylltiedig hyd nes y gwneir dyfarniad terfynol (20 erbyn 31 Mawrth 2024).

10.84 Gall dyfarniad gan yr Uchel Lys ganiatáu adennill y costau hyn i'r Awdurdod neu, fel arall, codi tâl ar yr Awdurdod o gostau'r rheoleiddiwr a'i unigolyn cofrestredig. Mae'r Awdurdod yn ystyried ei bod yn bosibl ond nid yn debygol y bydd goblygiad o'r fath yn codi.

### 18. Ymrwymiadau cyfalaf

10.85 Nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw ymrwymiadau cyfalaf ar ddyddiadau'r datganiad safle ariannol.

### 19. Ymrwymiadau dan brydlesau

**Prydlesi**

10.86 Mae prydles cyllid yr Awdurdod yn cynrychioli’r brydles mewn perthynas ag eiddo yn 16-18 New Bridge Street a ddaw i ben ar 14 Mawrth 2033 gyda chymal terfynu ar 14 Mawrth 2028.

| Hawl i ddefnyddio ased | |
|---|---|
| | **£’000** |
| Cost neu brisiad | |
| Ar 01 Ebrill 2024 | 802 |
| Ychwanegiadau | 0 |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 802 |
| Dibrisiant | |
| Ar 01 Ebrill 2024 | (167) |
| Codwyd yn y flwyddyn | (160) |
| Ar 31 Mawrth 2025 | (327) |
| **Swm cario ym mis Mawrth 2025** | **475** |

10.87 Rydym yn lliniaru'r risg hylifedd sy'n gynhenid i ddadansoddiad aeddfedrwydd trwy gynnal lefel resymol o gronfeydd wrth gefn.

| Rhwymedigaethau prydles – dadansoddiad aeddfedrwydd | 31 Mawrth 2025 |
|---|---|
| | **£'000** |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 211 |
| Yn hwyrach nag un flwyddyn ond dim hwyrach na 5 mlynedd | 367 |
| Llai elfen llog | (37) |
| **Gwerth presennol rhwymedigaethau** | **541** |

## 20. Partïon cysylltiedig

10.88 Mae’r Awdurdod yn atebol i Senedd y Deyrnas Unedig.

10.89 Ariannwyd a noddwyd yr Awdurdod gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol hyd at 31 Gorffennaf 2015 ac mae’n rhan o gyfrifon cyfunol DHSC. Mae'r Adran hefyd wedi darparu

cyllid i gefnogi'r cynllun Cofrestrau Achrededig ac i dalu am gyngor a gomisiynwyd gan yr Awdurdod. Ystyrir yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i fod yn barti cysylltiedig.

10.90 Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025, ni dderbyniom unrhyw gymhorthdal mewn perthynas â'r rhaglen Cofrestrau Achrededig (dim yn 2023/24) na chyllid arall (dim yn 2023/24) gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

10.91 Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025, ni chawsom unrhyw gyllid gan unrhyw Weinyddiaethau Datganoledig (dim yn 2023/24).

10.92 Mae'r HCPC yn perthyn i grŵp yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac fe'i cydnabyddir fel parti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025 mae'r Awdurdod wedi derbyn £0.979m mewn perthynas ag incwm ffioedd 2025/26 (2023/24 £0.87 miliwn mewn perthynas ag incwm ffioedd 2024/25) gan HCPC. Yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025, derbyniodd yr Awdurdod £0.086m o incwm mewn perthynas â naw achos Uchel Lys o dan bŵer Adran 29 yr Awdurdod (£0.024 mewn perthynas â thri achos 2023/24).

10.93 Mae'r NMC yn perthyn i grŵp yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac fe'i cydnabyddir fel parti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn i 31 Mawrth 2025 mae'r Awdurdod wedi derbyn £2.365m parthed incwm ffioedd 2025/26 gan yr NMC (2023/24 £2.119m parthed incwm ffioedd 2024/25). Yn ogystal â hyn, derbyniodd yr Awdurdod £0.245m gan yr NMC mewn perthynas â saith ar hugain o achosion Uchel Lys o dan bŵer Adran 29 yr Awdurdod (2023/24: £0.059m).

10.94 Mae’r Awdurdod yn cynnal cofrestr o fuddiannau ar gyfer y Cadeirydd ac aelodau’r Bwrdd sydd ar gael ar y wefan. O bryd i’w gilydd, bydd y Cynorthwyydd Gweithredol yn diweddaru’r gofrestr i adlewyrchu unrhyw newid ym muddiannau aelodau’r Bwrdd. Yn ystod y cyfnod ddaeth i ben 31 Mawrth 2025, ni chyflawnodd unrhyw aelod o’r Bwrdd drafodion partïon cysylltiedig gyda’r Awdurdod (ar wahân i'r adroddiad tâl a ddisgrifir uchod yn yr Adroddiad Tâl a Staff).

10.95 Gofynnir hefyd i'r Tîm Arwain Gweithredol ddatgelu unrhyw drafodion partïon cysylltiedig. Yn ystod 2024/25, nid oedd unrhyw drafodion partïon cysylltiedig i'w datgelu (ar wahân i'r adroddiad tâl a ddisgrifir uchod yn yr Adroddiad Tâl a Staff).

### 21. Colledion a thaliadau arbennig

10.96 Roedd colledion a thaliadau arbennig yn unigol ac yn gyfan gwbl ymhell islaw'r trothwy adrodd o £300,000.

### 22. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

10.97 Cafodd y cyfrifon hyn eu hawdurdodi i’w cyhoeddi ar y dyddiad pan gawsant eu hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau wedi’r cyfnod adrodd.

### 23. Arfau Ariannol

10.98 O fewn cwmpas Offerynnau Ariannol IFRS 9, mae’r Awdurdod yn cadw derbyniadwyon a thaladwyon masnach (nodiadau 9 a 12), buddsoddiadau byrdymor (nodyn 10) ac arian parod a chyfatebol i arian parod (nodyn 11).

### Rheoli risg ariannol

10.99 Mae safon adrodd ariannol IFRS 7 yn gofyn am ddatgelu rôl arfau ariannol yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid risgiau mae corff yn wynebu wrth gyflawni ei weithgareddau.

10.100 Os ystyried sut mae'r Awdurdod wedi ei ariannu, a bod ganddo rymoedd cyfyngedig i fenthyg neu fuddsoddi cronfeydd dros ben, a bod ei asedau ac atebolrwydd ariannol wedi eu creu gan weithgareddau gweithredol dydd i ddydd ac yn syml eu natur, mae amlygiad yr Awdurdod i risgiau ariannol yn isel iawn.

10.101 Mae derbyniadwyon a thaladwyon fydd yn aeddfedu neu'n daladwy o fewn 12 mis i ddyddiad y datganiad o safle ariannol wedi eu hepgor o bob datguddiad.

### Risg arian tramor

10.102 Mae'r Awdurdod yn sefydliad domestig gyda mwyafrif helaeth y trafodion, asedau a rhwymedigaethau yn y DU ac mewn Sterling. Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw weithredoedd dramor. Felly ni effeithir yr Awdurdod rhyw lawer gan amrywiaethau yn y gyfradd gyfnewid.

### Risg cyfradd llog

10.103 Nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw fenthyciadau a derbyniwyd y rhan fwyaf o'r holl ffioedd gan y rheolyddion yn 2024/25 felly roedd yr amlygiad i'r risg hon yn isel iawn. Ar 31 Mawrth 2025, roedd gan yr Awdurdod falans arian parod nad yw'n dwyn llog o £6,877k a £1,783k mewn adnau banc yn creu swm bychan o log. Mae'r symiau a nodir hefyd yn cynnwys buddsoddiad o £250k.

### Risg credyd

10.104 Gan y daw'r rhan fwyaf o incwm yr Awdurdod o ffioedd statudol sy'n daladwy gan reolyddion, mae'r risg credyd i'r Awdurdod yn isel.

### Risg dirwyn i ben

10.105 Mae'r Awdurdod yn dibynnu'n bennaf ar incwm ffioedd gyda ffioedd statudol yn daladwy ar gychwyn y flwyddyn ariannol, felly mae amlygiad yr Awdurdod i risg dirwyn i ben yn isel. Fodd bynnag, gallai amseriad derbyn ffioedd statudol o bosibl arwain at broblemau llif arian byr dymor. Mae'r Awdurdod yn lliniaru'r risg hon trwy gynnal lefel resymol o arian wrth gefn.

ISBN 978-1-5286-5805-8

E03381707

https://cy.professionalstandards.org.uk/

**Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
16-18 New Bridge Street
Llundain EC4V 6AG
T: 020 7389 8030
E: info@professionalstandards.org.uk

©Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol | **Gorffennaf 2025**